

## **Cynllun Gwella Rhan 2: Arolwg Blynyddol o Berfformiad 2015/6**

## Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	2
2. Trosolwg Perfformiad Bro Morgannwg 2015/16 .....	5
3. Ein hamcanion gwella manwl .....	21
3.1 Gwella mynediad at wasanaethau'r Cyngor .....	21
3.2 Diogelu aelodau'r gymuned sy'n agored i niwed .....	27
3.3 Cynnal cymunedau ffyniannus .....	38
3.4 Gwella sgiliau, gwybodaeth a chyfleoedd.....	44
3.5 Gwella sgiliau, gwybodaeth a chyfleoedd.....	51
4. Perfformiad Bro Morgannwg Diwedd Blwyddyn 2015/16: Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol .....	62
5. Casgliad Cydweithio.....	74

# 1. Cyflwyniad

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (MLIL), mae'n ofynnol i ni gyhoeddi dwy ddogfen bob blwyddyn: y gyntaf yw cynllun gwella sy'n edrych ymlaen, yn nodi ein blaenoriaethau gwella (a elwir yn Amcanion Gwella) ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod; a'r ail yw adroddiad blynyddol i edrych yn ôl ar berfformiad y Cynllun. Mae Cynllun Gwella Rhan 2: Adolygiad Blynyddol o Berfformiad 2015/16 yn edrych yn ôl ar sut y gwnaethom o ran cyflenwi'r Amcanion Gwella a nodwyd yng Nghynllun Gwella Rhan 1: Amcanion Gwella 2015/16, a bwriedir iddo gydymffurfio â'r gofyniad cyfreithiol hwn yn ogystal â darparu asesiad o'n perfformiad ar gyfer ein dinasyddion.

Er ein bod yn ymdrechu'n gyson i wella ein holl wasanaethau bob blwyddyn yn unol â gofynion y MLIL, rydym yn nodi nifer fach o feysydd lle rydym eisiau canolbwyntio ein sylw er mwyn cyflawni gwelliannau sylweddol yn gyflymach. Yn ystod 2015/16 nodwyd pum Amcan Gwella, ac mae'r cynllun hwn yn adrodd yn fanwl ar ein cynnydd hyd yma o ran cyflawni'r rhain.

Yn y cynllun, rydym hefyd yn darparu crynodeb cyffredinol o berfformiad y Fro yn ystod 2015/16 gan gynnwys crynodeb o'n perfformiad ar amrywiaeth o wasanaethau fel y'u mesurwyd gan ddangosyddion perfformiad cenedlaethol a gesglir ac a gyhoeddir yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru a'r Uned Ddata Llywodraeth Leol. Hefyd amlinellir trosolwg byr o'r hyn y mae ein rheoleiddwyr a thrigolion yn ei ddweud amdanom ni; ein cyllideb ar gyfer 2015/16 a chynnydd o ran gweithio mewn partneriaeth/ gweithgareddau ar y cyd a gyflawnwyd yn ystod 2015/16.

Mae ein Hamcanion Gwella ar gyfer 2015/16 yn adeiladu ar Gynllun Corfforaethol 2013-17 sy'n cynrychioli ein canlyniadau blaenoriaeth fel Cyngor. Mae'r canlyniadau blaenoriaeth hyn wedi eu hysbysu yn eu tro gan Strategaeth Gymunedol Integredig Bro Morgannwg 2011-21, sy'n nodi'r cyfeiriad teithio i Gyngor Bro Morgannwg dros 10 mlynedd. Ym mis Ebrill 2016, cyhoeddwyd Cynllun Corfforaethol newydd (2016-20) sy'n adlewyrchu ein dyletswyddau newydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a nodi ein blaenoriaethau allweddol wrth symud ymlaen. Gosodwyd y rhain yng nghyd-destun yr adnoddau sydd ar gael a'r heriau sylweddol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus ond hefyd maent yn adlewyrchu'r parodrwydd i groesawu syniadau arloesol a ffyrdd newydd o weithio. Hysbyswyd ein Hamcanion Gwella ar gyfer 2016/17 gan y Cynllun Corfforaethol newydd.

Nodir isod ein Hamcanion Gwella a chysylltiadau â'r canlyniadau blaenoriaeth allweddol yng Nghynllun Corfforaethol 2013-17 ynghyd â barn gyffredinol ynghylch pob Amcan Gwella. Ceir rhagor o fanylion am ein holl Amcanion Gwella o dan adran 'Ein Hamcanion Gwella Manwl' y Cynllun.

<b>Amcanion gwella 2015/16</b>	<b>Meysydd canlyniadau Cynllun Corfforaethol (2013-17)</b>	<b>Arwain gan</b>	<b>Gwerthuso awdurdod lleol</b>
Darparu gwasanaethau cynaliadwy a chynnig dulliau gwahanol o gyflwyno'r ddarpariaeth fel rhan o'n Rhaglen o Newid drwy Ail-lunio Gwasanaethau	Rhaglen o Newid drwy Ail-lunio Gwasanaethau Gwella Mynediad i Wasanaethau Cyngor	Rob Thomas	<b>Cyflawnwyd</b>
Helpu mwy o bobl i fyw'n annibynnol	Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Diogelu aelodau'r gymuned sy'n agored i niwed	Phillip Evans	<b>Cyflawnwyd</b>
Cynnal a gwella canol trefi Bro Morgannwg er lles trigolion, ymwelwyr a busnesau.	Adfywio Cynnal cymunedau ffyniannus	Rob Thomas	<b>Cyflawnwyd</b>
Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn gwaith, addysg na hyfforddiant. (NEET)	Dysgu a Sgiliau Gwella sgiliau, gwybodaeth a chyfleoedd	Jennifer Hill	<b>Cyflawnwyd</b>
Cau'r bwch rhwng cyflawniad disgyblion sy'n cael, a'r rhai nad ydynt yn cael, prydau ysgol am ddim.	Dysgu a Sgiliau Gwella sgiliau, gwybodaeth a chyfleoedd	Jennifer Hill	<b>Cyflawnwyd yn Rhannol</b>

Mae ein cynllunio busnes blynyddol, perfformiad y gwasanaeth, y gofrestr risg gorfforaethol, ymgynghoriadau a chanfyddiadau o adolygiadau ac asesiadau gwella rheoleiddio presennol yn brosesau allweddol sydd yn hysbysu ein Hamcanion Gwella. Gwahoddwyd rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys ein partneriaid statudol yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, aelodau etholedig, Cynghorau Tref a Chymuned, sefydliadau'r sector gwirfoddol, trigolion Bro Morgannwg a busnesau lleol i roi sylwadau ar yr Amcanion Gwella arfaethedig dros gyfnod ymgynghori. Cynorthwyodd hyn ni i lywio ein hamcanion terfynol.

Mae'n bwysig adolygu ein cynnydd ac adrodd i aelodau etholedig a'r cyhoedd am y gwelliannau a gyflawnwyd a lle gallwn wneud yn well. Cyflenwir ein Hamcanion Gwella drwy Gynlluniau Gwasanaeth, sy'n manylu ar y camau gweithredu perthnasol, a'r mesurau, adnoddau, amserlenni a chyfrifoldebau ar gyfer cyflenwi. Creffir yn ffurfiol bob chwarter ar ein cynnydd yn ein meysydd gwella gan aelodau etholedig a chyhoeddir ein hadroddiadau ar-lein yn [www.bromorgannwg.gov.uk](http://www.bromorgannwg.gov.uk). Yn unol â'r trefniadau monitro perfformiad corfforaethol, adroddir yn chwarterol ar ein cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol, Amcanion Gwella a'r Cytundeb Canlyniadau gyda Llywodraeth Cymru i'r Tîm Rheoli Corfforaethol (TRhC), Pwyllgorau Craffu a'r Cabinet. Caiff tanberfformiad ei herio mewn cyfarfodydd TRhC a'r Tîm Rheoli Adrannol (TRhA), gyda chamau unioni yn cael eu cytuno fel y bo'n briodol.

Fel pob cyngor arall yng Nghymru, mae'r Fro yn wynebu cyfnod ariannol cynyddol heriol. Mae angen i ni wneud arbedion digynsail dros y tair blynedd nesaf tra'n cyflenwi agenda gwella uchelgeisiol. Mewn ymateb i'r her hon, rydym wedi sefydlu'r Rhaglen Ail-lunio

Gwasanaethau, ac rydym yn cynnwys ein partneriaid allweddol a'r cyhoedd wrth ystyried modelau darparu amgen ar gyfer gwasanaethau ar draws y Cyngor - dim ond drwy ddefnyddio'r dull hwn y gallwn obeithio cynnal ystod eang o wasanaethau i safon dderbyniol.

Rydym wedi gosod targedau heriol ar gyfer gwella, gan adlewyrchu ein hymrwymiad i wella'n barhaus y gwasanaethau a ddarperir i ddinasyddion y Fro. Ar yr un pryd, mae'r Cyngor hefyd yn ymwybodol o bwysau ariannol a galw am wasanaeth sylweddol dros y flwyddyn i ddod, a gosodwyd targedau allweddol a cherrig milltir ar gyfer yr amcanion gwella o fewn y cyd-destun hwn. Mae hyn yn golygu mewn rhai meysydd er enghraifft, bydd yn gamp cynnal lefelau presennol o berfformiad gwasanaeth tra'n cynnwys y toriadau ariannol, neu reoli galw cynyddol am y gwasanaeth, neu'r ddau. Ystyriwyd y materion hyn yn ystod yr her fewnol o'n hamcanion a thargedau gwella.

Er mwyn hyrwyddo cynaliadwyedd a lleihau costau argraffu, bydd copi caled o'r Cynllun Gwella Rhan 2 ar gael ym mhrif dderbynfeydd a llyfrgelloedd y Cyngor.

Os oes gennych unrhyw sylwadau ar ôl darllen y cynllun hwn, rhowch wybod i ni drwy gysylltu â ni:

Llythyrau i: Perfformiad a Datblygiad, Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri, CF63 4RU

E-bost: [gwelliannau@bromorgannwg.gov.uk](mailto:gwelliannau@bromorgannwg.gov.uk)

Ffôn: 01446 700 101

Mae nifer o fecanweithiau ar waith i drigolion ddylanwadu ar broses gwneud penderfyniadau y Cyngor. Gallwch gymryd rhan drwy ymuno â Barn y Fro, ein panel dinasyddion, a chymryd rhan mewn ymgynghoriadau a gynhelir gan, neu ar ran, y Cyngor a'i bartneriaid, y Bwrdd Gwasanaeth Lleol. Yn syml, cwblhewch y ffurflen ar-lein fer. Mae ein Pwyllgorau Craffu yn agored i'r cyhoedd ac yn rhoi cyfle i chi gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Cyngor. Gallwch ofyn am i faes gwasanaeth neu fater gael ei ystyried gan Bwyllgor Craffu drwy gwblhau ffurflen ystyriaeth ar gyfer adolygiad. Gallwch hefyd gynnig Amcanion Gwella newydd i'r Cyngor drwy'r manylion cyswllt a ddarperir uchod.

## 2. Trosolwg Perfformiad Bro Morgannwg 2015/16

Mae'r adran hon yn darparu uchafbwyntiau allweddol o'n prif gyflawniadau yn ystod 2015/16. Cyflawnwyd y rhain mewn amgylchedd ariannol heriol a galw cynyddol am wasanaethau.

### Ein prif gyflawniadau

Yn unol â'n hymrwymiad i gynyddu ymgysylltiad a chyfranogiad y cyhoedd yng nghyfarfodydd y Cyngor, rydym wedi cynyddu a hyrwyddo'n eang y cyfleoedd i'r cyhoedd siarad a chyfranogi yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Cynllunio a Chraffu. Bydd hyn yn sicrhau bod dinasyddion yn cael dweud eu dweud yn ystyrllon am y materion sy'n effeithio arnynt, a hefyd rhoi cyfoeth o wybodaeth i'r Cyngor a fydd yn ei alluogi i wneud penderfyniadau effeithiol.

Cyflawnwyd cyfradd ailgylchu o 64.54% yn ystod 2015-16 sy'n uwch na'r targed statudol o 58% ac sy'n ein rhoi ymysg y perfformwyr chwarter uchaf yng Nghymru, yn y 3<sup>ydd</sup> safle. Mae ailgylchu Llundw Gwaelod Llosgydd (IBA) o'r Prosiect Gwyrdd a Pharc Trident ers mis Awst 2015 wedi helpu'r Cyngor i wella ei berfformiad cyffredinol a bydd yn cyfrannu tuag at sicrhau bod y Cyngor yn gyfrifol yn amgylcheddol ac yn parhau i fod ar y trywydd iawn i gyflawni targedau cenedlaethol ar gyfer ailgylchu yn y dyfodol.

Ymwelodd y fenter "Big Fill" yn llwyddiannus â nifer o Wardiau draws y Fro i drwsio a llenwi tyllau yn y ffyrdd er mwyn gwella priffyrdd, a lleihau hawliadau atebolrwydd, tra'n cyfrannu at gynyddu bodlonrwydd y cyhoedd gyda safonau'r priffyrdd a throedffyrdd.

Rydym yn parhau â'n gwaith o hyrwyddo cynhwysiant digidol, fel blaenoriaeth allweddol y Cyngor, trwy "Gael y Fro Ar-lein". Mae'r fenter hon yn canolbwyntio ar gynyddu'r nifer o "hyrwyddwyr digidol" a sicrhau bod grwpiau a adnabuwyd yn cael eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau digidol gan eu galluogi i gyfathrebu'n well gyda'r Cyngor drwy'r rhyngwrdd, e-bost, apiau symudol a chyfryngau cymdeithasol. Mae galluogi mynediad i'r buddiannau hyn hefyd yn rhan bwysig o nod y Cyngor i ymdrin â thlodi ac allgáu cymdeithasol a digidol ym Mro Morgannwg..

Gweithredwyd cynlluniau lleihau llifogydd a chynlluniau lliniaru ar gyfer ardaloedd risg uchel y Fro, gan gynnwys cynlluniau dalgylch Trebefered, Coldbrook a Llanmaes, yn unol â'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr. Mae hyn yn cyfrannu at ddiogelu cartrefi, eiddo a busnesau a allai fod yn agored i niwed gan lifogydd, sy'n flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor.

Mae chwe pharc ym Mro Morgannwg wedi ennill y Faner Werdd gan elusen amgylcheddol flaenllaw Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus. Derbyniodd Parc Belle Vue, Parc Alexandra a Gerddi Windsor ym Mhenarth, Parc Victoria, Parc Romilly, a'r Parc Canolog yn y Barri i gyd statws Baner Werdd yn 2014, gyda phob un o'r pump yn cadw'r wobwr yn 2015. Eleni, daeth Gerddi Knap yn y Barri y chweched parc yn y Fro i ymuno â'r rhengoedd mawreddog hyn. Mae statws y Faner Werdd yn cydnabod y parciau a mannau gwyrdd gorau yn y wlad, ac mae

wedi cyfrannu tuag at ansawdd mannau gwyrdd yn y Fro. Hefyd dyfarnwyd 3 Gwobr Baner Werdd Gymunedol i'r Cyngor yn ystod 2015/16, sef Gardd Berlysiâu'r Bont-faen, Gwarchodfa Natur Leol Cwmtalog a Pherllan Gymunedol Gwenfô. Mae'r gwobrau hyn wedi cydnabod y mannau gwyrdd o ansawdd uchel yn y Fro a reolir gan grwpiau gwirfoddol ac sydd wedi darparu lle diogel i drigolion o bob oed ddod at ei gilydd i gymdeithasu a dysgu.

Mae'r defnydd o wasanaethau Teleofal gan drigolion y Fro yn parhau i gynyddu gan gyfrannu at flaenoriaeth y Cyngor o gynyddu byw'n annibynnol. Yn ystod 2015/16, cofrestrodd 330 o ddefnyddwyr newydd i dderbyn gwasanaethau teleofal, 21 yn fwy na'r llynedd, ac rydym yn cwblhau'r rhan fwyaf o osodiadau o fewn un mis calendr. Mae'r cynnydd yn y niferoedd sy'n manteisio ar y gwasanaeth hwn a'r gosodiad effeithlon wedi galluogi mwy o bobl i aros yn eu cartrefi eu hunain yn ddiogel a bod â gwell ansawdd bywyd.

Fel rhan o'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, aeth Model Cydweithredol Mabwysiadu Rhanbarthol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd yn fyw o 1 Mehefin 2015, gyda staff o'r pedwar awdurdod lleol cyfranogol bellach wedi'u cydleoli ym Mhontypridd. Bydd darpariaeth a rennir yn sicrhau effeithlonrwydd, gwytnwch a chynaliadwyedd gwasanaethau yn y tymor hir ac mae'r model gweithredu newydd a ddarperir drwy gyfrwng y 3 tîm arbenigol sydd wedi'u cydleoli wedi cael ei gynllunio o gwmpas anghenion defnyddwyr gwasanaeth gyda'r nod o leihau'r boblogaeth Plant sy'n Derbyngofal ar draws y rhanbarth.

Yn dilyn cymeradwyo'n Strategaeth Cyfleoedd Dydd, mae gwaith eisoes wedi dechrau i adolygu'r trefniadau gofal dydd presennol a ddarperir i unigolion. O ganlyniad, addasir trefniadau gofal unigol i hwyluso gwaith, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden fel rhan o wasanaethau cyffredinol lle bynnag y bo'n briodol. Yn ogystal, mae gwaith wedi parhau i gynyddu'r mathau o gyfleoedd a gynigir i ddefnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr ar adegau o'r dydd a'r wythnos lle mae angen seibiant fwyaf.

Gwnaed gwelliannau mewnol i'r holl dai Cyngor fel rhan o'n Rhaglen Gwella Tai Cyngor, a thrwy hynny gyfrannu tuag at y flaenoriaeth o ddarparu cartrefi gweddus i denantiaid. Rydym yn parhau ar y trywydd iawn i sicrhau bod holl stoc tai'r Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â Safonau Ansawdd Tai Cymru erbyn 2017.

Mae'r sgôr bodlonrwydd cyfartalog (rhwng un a deg) gan denantiaid ar ansawdd y gwelliannau terfynol a gynhaliwyd fel rhan o SATC yn parhau'n uchel ar 9.15, ac yn yr un modd, y sgôr bodlonrwydd cyfartalog (rhwng un a deg) o sut mae tenantiaid yn sgorio'r broses gyffredinol o wella cartrefi i gwrdd â SATC.

Cyflenwyd 158 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol yn 2015/16. O'r rhain, addaswyd 55 neu eu gwneud yn hygyrch, sydd wedi galluogi'r Cyngor i gynyddu argaeledd cartrefi gweddus, fforddiadwy a hygyrch i'r cyhoedd. Sefydlwyd cytundeb partneriaeth newydd i ddarparu rhagor o dai fforddiadwy ar gyfer Bro Morgannwg gyda chymdeithasau tai Hafod Newydd, United Welsh, Wales & West, gyda'r nod o gynyddu tai fforddiadwy yn y Fro drwy weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod y broses o adeiladu tai fforddiadwy newydd yn y Fro mor effeithiol â phosibl, cytuno ar safonau ar gyfer cartrefi newydd, hyrwyddo perchentyaeth cost isel, ac ymdrin â chartrefi gwag.

Rydym yn parhau i gynnwys trigolion yn weithredol yn nyfodol eu cymunedau trwy'r Strategaeth Datblygu Lleol newydd, gyda phrojectau Blwyddyn 1 o dan y maes LEADER yn y Cynllun Datblygu Gwledig yn cael eu cyflenwi'n llwyddiannus. Drwy ein gwaith gyda chymunedau'r Fro, rydym yn cyfrannu at gynyddu cyflogaeth leol a gweithgarwch economaidd yn y Fro. Bu mapio cymunedol yn ffocws yn ystod 2015/16, gydag ymarfer mapio peilot a gynhaliwyd yn Sain Tathan ac yn awr mewn cymunedau eraill wedi dod at ei gilydd i brofi'r pecyn cymorth, a ddatblygwyd drwy waith yn Sain Tathan. Mae hyn yn profi i fod yn offeryn amhrisiadwy o ran ymgysylltu â chymunedau y Fro i fapio eu hasedau a chyfleoedd gan greu darlun o gapasiti a photensial cymunedol. Bu Cymunedau Gwledig Creadigol yn canolbwyntio i raddau helaeth ar brojectau twristiaeth, gan gynnwys digwyddiadau 'Pop Up' Arfordirol ym Mae Dwnrhefn, twristiaeth ddigidol, incwm o ddeunydd printiedig, a thwristiaeth sy'n gyfeillgar i gŵn. Mae nifer fawr o grwpiau eisoes wedi mynegi diddordeb yn y Gronfa Gymunedol Datblygu Gwledig newydd gan Lywodraeth Cymru, ac maent yn derbyn cefnogaeth i wireddu cyfleoedd. Rhoddwyd cymeradwyaeth i 12 o brojectau gwerth cyfanswm o £1.15 miliwn ar y cam mynegi diddordeb (EOI) i gyflwyno cymeradwyaethau llawn ym mis Medi 2016. Cyflwynwyd 8 project arall gwerth cyfanswm o £755,000 yn y ffenestr EOI ddiweddaraf. Ni fydd y penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd yn effeithio ar y Rhaglen LEADER, ond gallai arwain at Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig lai oherwydd rhaid i brojectau yn awr fod wedi'u cwblhau erbyn 2018.

Mae gwelliannau yn parhau i gael eu gwneud i ganol trefi'r Fro fel rhan o fframwaith mabwysiedig y Cyngor. Cyfrannodd hyn at fwy o fywiogrwydd yng nghanol ein prif drefi, gan gynnig amgylchedd gwell i fusnesau, trigolion ac ymwelwyr. Mae cyfraddau unedau gwag yn ein holl brif ganolfannau trefi wedi gwella, rhai yn sylweddol, gan ddangos ymhellach hyder busnesau yng nghanol ein trefi.

Rydym yn parhau i weithio gyda Legacy Leisure a'n hysgolion er mwyn cynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau hamdden ar draws y Fro. Roedd y Fro ymhlith y 3 uchaf o Gynghorau yn yr arolwg chwaraeon ysgol mwyaf diweddar gan Chwaraeon Cymru. Yn yr un modd dangosodd arolwg oedolion egniol mai'r Fro oedd y Cyngor uchaf o ran perfformiad yng Nghymru, o ran y meini prawf "gwirioni ar chwaraeon". Mae'r Cyngor yn parhau i fod yr unig Gyngor yng Nghymru nad yw angen cymhorthdal refeniw i weithredu ei Ganolfannau Hamdden. Mae ein gwaith i gynyddu cyfleoedd i bobl anabl gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol wedi ennill Gwobr Efydd am Insport gan Chwaraeon Anabled Cymru, y wobwr uchaf sydd ar gael ar y pryd.

Mae Cymunedau yn Gyntaf y Barri yn parhau i fodloni a rhagori ar ei dargedau, gan gyfrannu at gefnogaeth briodol i drigolion yn yr ardaloedd dynodedig sydd angen cymorth i wella ansawdd eu bywydau drwy wella eu hiechyd, mynediad i gyflogaeth a mynediad at addysg. Er enghraifft, yn ystod 2015/16, mewn perthynas â chefnogi plant trwy'r cyfnod pontio o symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, gweithiodd y project gyda 109 o blant o ardal Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf y Barri. Nododd 100% o'r cyfranogwyr bod y project yn 'dda iawn neu'n ardderchog' a gwelodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr welliant yn eu presenoldeb yn yr ysgol a chyrrhaeddiad academiaidd. Cofnododd y project hefyd bron i 9000 o oriau o gymorth gwirfoddolwyr i gynorthwyo gyda gweithgareddau pontio.



Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd twristiaeth digwyddiadau o ran hwyluso datblygiad economaidd ac mae wedi buddsoddi mewn creu a chynnal rhaglen o ddigwyddiadau blynyddol er mwyn denu mwy o ymwelwyr tu allan i'r tymor i ardaloedd twristiaeth y Fro. Gwelodd 2015 flwyddyn lwyddiannus arall o ddigwyddiadau, nid yn unig yn ystod y rhaglen 'Barry Island Weekender', ond hefyd ar sail ehangach y Fro, gan sefydlu Bro Morgannwg fel cyrchfan i ymweld â hi ar gyfer digwyddiadau trwy gydol y flwyddyn. O ganlyniad i'r llwyddiant hyd yma, mae'r Tîm Twristiaeth a Digwyddiadau yn cael eu boddi gan geisiadau i'r Fro fod yn gyrchfan ar gyfer digwyddiadau. Bydd hyn yn cefnogi ymestyn y tymor ymhell y tu hwnt i'r gwyliau haf traddodiadol fel y digwyddodd mewn blynyddoedd blaenorol. Bellach mae Ynys y Barri yn croesawu mwy na 360,000 o ymwelwyr, gydag effaith economaidd o £12.7 miliwn, a llawer o hyn yn seiliedig ar ffigyrau ymwelwyr yn ystod y rhaglen ddigwyddiadau. Yn gyffredinol, yn ôl ymchwil STEAM, tyfodd twristiaeth yn y Fro 5% yn 2015 gyda nifer yr ymwelwyr yn fwy na 3.96 miliwn, cynnydd o 5.6% ar y flwyddyn flaenorol. Cynyddodd nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn a gefnogir gan dwristiaeth i 2,947, cynnydd o 5.7% ar y flwyddyn flaenorol. Roedd cyfanswm effaith economaidd twristiaeth yn y Fro yn £219.71 miliwn, cynnydd o 4.7% ar y flwyddyn flaenorol.

Fel rhan o'n hymrwymiad i wella ein priffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus, rydym wedi cyflenwi mesurau blaenoriaeth bws ar goridor Croes Cwrlwys i Sain Tathan, gan gynnwys uwchraddio safleoedd bysiau, ffordd osgoi bysiau yn Ffordd Gyswllt Dociau'r Barri, cerdded a beicio o Ffordd Gyswllt Dociau'r Barri i Groes Cwrlwys, a'r lôn fws flaenoriaeth o Wenfô i Groes Cwrlwys. O ganlyniad i drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a Bellway, rydym hefyd wedi defnyddio dull partneriaeth er mwyn lleihau costau ar gyfer projectau blaenoriaeth bws.

Rydym wedi mabwysiadu Cynllun Trafnidiaeth Lleol a chynhyrchu Mapiau Llwybr Teithio Byw, gyda'r nod o annog pobl i gerdded neu feicio ar deithiau byr, i fynd i'r gwaith neu i sefydliadau addysgol, iechyd, hamdden a gwasanaethau eraill. Rydym yn parhau i drafod gyda Llywodraeth Cymru gynigion trafndiaeth yn y dyfodol o ran rheilffyrdd, parcio a theithio, cerdded a beicio a bws â blaenoriaeth, gyda'r nod o wella cyfleusterau trafndiaeth a ffyrdd cyhoeddus a llwybrau i'r holl gerddwyr a beicwyr.

Er mwyn sicrhau bod parciau gwledig y Fro yn parhau i ddarparu gweithgareddau a gwasanaethau hamdden ar gyfer trigolion, ymwelwyr a chenedlaethau'r dyfodol, rydym yn gweithio'n rhagweithiol gyda'r sector preifat ar opsiynau sy'n hwyluso gweithgareddau twristiaeth a hamdden newydd megis: gweithgareddau hamdden yn y dŵr, rhaffau uchel, cyrsiau gwifren sip, waliau dringo, saethyddiaeth, beicio, chwaraeon maes, addysg amgylcheddol, digwyddiadau twristaidd, priodasau a gweithgareddau arloesol eraill a chyfleoedd manwerthu. Mae ein dull o ddatblygu gweithgareddau/ atyniadau newydd yn cyfrannu at flaenoriaeth y Cyngor o wella'r cynnig i ddefnyddwyr ac annog mwy o ymwelwyr, sydd yn ei dro yn cael effaith uniongyrchol ar ddatblygiad Bro Morgannwg yn y dyfodol fel lleoliad cyrchfan, gan ddod â budd i'r economi leol, y diwydiant hamdden a darparu cyfleoedd i gynhyrchu incwm hyfyw.

Rydym yn parhau i weithio'n egniol â chymunedau'r Fro i wella cyfleusterau cymunedol lleol. Cynhaliwyd nifer o brojectau llwyddiannus yn ystod y deuddeg mis diwethaf, gan gynnwys gwaith gwella i erddi Victoria a gwaith adnewyddu mawr yn ardal chwarae George Street. Mae'r gwaith yn George Street, er enghraifft, yn cynnwys man chwarae newydd wedi ei ailgynllunio gydag offer chwarae newydd a gwaith i wella'r lôn fynediad i mewn i'r safle. Gwnaed y gwaith hwn ar y cyd â'r gymuned leol, a oedd yn cymryd rhan weithredol yn y dyluniad a'r

gosodiad newydd. Mae'r ardal chwarae wedi bod yn llwyddiant mawr gyda thrigolion lleol, ac mae'n cael ei gweld fel ased wych i'r ardal. Hefyd mae 7 baner werdd y Cyngor yn ei barciau nodwedd yn deillio o gyfranogiad cymunedol sylweddol, gan mai dyma un o'r prif feini prawf pan fo parciau'n cael eu gwerthuso ar gyfer y wobr hon.

Yn ystod 2015/16, enillodd Bro Morgannwg nifer o wobrau am Gymuned Ddysgu Penarth, gan gynnwys Gwobrau Rhagoriaeth Adeiladu Cymru De Cymru Rheoli Adeiladu Awdurdod Lleol (LABC) 2016, ac wedi cael ei rhoi ymlaen ar gyfer rownd derfynol y gwobrau cenedlaethol. Hefyd cydnabuwyd tri phroject pellach yn ymwneud â Thîm Rheoli Adeiladu'r Cyngor; sef Taylor Wimpey Development am Channel Heights, Trwyn y Rhws; D.S. Properties am drosi'r Tŷ Pwmpio; a Leekes am Gyrchfan Castell Hensol, ar gyfer gwobrau yng Ngwobrau LABC Cymru Rhagoriaeth Adeiladu Cymru De Cymru 2016 a chawsant eu rhoi ymlaen am y gwobrau cenedlaethol yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Mae'r gwobrau yn cydnabod rhagoriaeth mewn projectau adeiladu a'r cymorth a ddarperir gan wasanaeth rheoli adeiladu'r Cyngor i sicrhau safonau uchel ac arloesi mewn projectau adeiladu ym Mro Morgannwg.

Nododd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, ESTYN, y cynnydd cadarn a wnaed gan y Cyngor yn ei ddefnydd o bwerau ymyrryd statudol er mwyn sicrhau newid mewn ysgolion pan fo angen, gan gyfrannu at wella lefelau cyrhaeddiad disgyblion. Ar gyfer y flwyddyn academaidd 2014/15, mae safonau wedi gwella yn gyffredinol, o ran yr holl ddangosyddion perfformiad allweddol, ac ym mhob achos bron bu'r gyfradd gwelliant yn fwy yn y Fro na chyfartaledd Cymru. Barnwyd bod yr holl ysgolion a arolygwyd yn dda neu'n ardderchog.

Cynyddodd presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd 0.5% i 94.7% yn ystod y flwyddyn academaidd 2014/15, yn cael ei gefnogi gan ein cydweithrediad ag ysgolion o ran gweithredu hysbysiadau cosb benodedig a'r Strategaeth Callio. Mae hyn yn ein gosod ymysg y perfformwyr chwarterel uchaf yng Nghymru, yn y 3<sup>ydd</sup> safle. Hefyd gostyngodd absenoldeb parhaus yn y sector uwchradd o 0.9% i 3.3%. Arhosodd presenoldeb yn yr ysgolion cynradd ym Mro Morgannwg yr un fath â 2013/14 ar 95.3%, gan gynnwys safle'r Fro yn y 4<sup>ydd</sup> safle.

Rydym yn parhau i weithio gyda'n partneriaid er mwyn ennyn diddordeb dysgwyr sy'n oedolion i wella eu sgiliau a dileu rhwystrau i ddysgu. Rydym wedi cyflwyno cynlluniwr llwybr dilyniant er mwyn adnabod bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr â blaenoriaeth, a fydd yn ein galluogi i dargedu yn well ein gweithgareddau ymgysylltu yn y dyfodol. Mae gwelliannau pellach a gynlluniwyd i wasanaethau wedi eu mapio yn y Cynllun Datblygu Ansawdd Partneriaeth Ddysgu Gymunedol Caerdydd a'r Fro "Taith i Ragoriaeth".

Mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru, Coleg Caerdydd a'r Fro a Llamau buom yn cyflenwi project Cronfa Gymdeithasol Ewrop Inspire2Work, sy'n helpu i ostwng lefelau pobl ifanc yn y Fro nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Yn ystod 2015/16 parhaodd perfformiad i wella i 1.68%, 1.52% a 2.92% yn y drefn honno ar gyfer blynyddoedd 11, 12 a 13. Mae lefelau NEET yn gyffredinol wedi gostwng o 3.8% yn 2014/15 i 1.93% yn 2015/16.

Derbyniodd pum lleoliad glan môr ym Mro Morgannwg wobrau arfordir cenedlaethol, gan gynnwys dwy wobr Baner Las fawreddog, fel rhan o Wobrau Glan Môr Cadwch Cymru'n Daclus 2016. Derbyniodd Bae Whitmore, prif draeth Ynys y Barri, a Marina Penarth Faneri Glas yn y gwobrau eleni. Hefyd gwobrwywyd Southerndown, Cold Knap, a thraeth arall Ynys y Barri, Bae Jackson. Cydnabyddir y Faner Las ar gyfer traethau mewn 46 o wledydd ledled y byd ac mae'n anelu at godi ymwybyddiaeth amgylcheddol a hyrwyddo ymddygiad amgylcheddol da ymysg twristiaid a phoblogaethau lleol ac arferion gorau ymysg staff rheoli traethau a marinas.

Sicrhodd y Cyngor dros £8m o gyllid ar gyfer buddsoddi cymunedol drwy osod cytundebau Adran 106 ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio yn ystod 2015/16. Gwnaed 21 o gytundebau Adran 106 yn y deuddeg mis rhwng mis Ebrill 2015 a Mawrth 2016. Mae'r cytundebau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr tai wneud cyfraniad ariannol i'r Fro fel amod o'u caniatâd cynllunio. Cyfanswm gwerth y cyfraniadau ariannol yn y cytundebau cyfreithiol hyn oedd £8,029,190. Mae'r Cyngor yn defnyddio'r arian hwn i ddarparu neu wella cyfleusterau seilwaith, addysg a chymunedol. Yn ystod 2015/16 defnyddiwyd yr arian hwn i ariannu lleoedd ychwanegol yn yr ysgolion, cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus newydd, gwell palmentydd a llwybrau beicio, cynlluniau celf gyhoeddus, uwchraddio parciau a mannau chwarae i blant, a chyfleoedd hyfforddiant a datblygiad. Yr enghreifftiau â'r proffil uchaf oedd ehangu Ysgol Gynradd Llanfair ac Ysgol Dewi Sant, uwchraddio croesffyrdd Ffordd Gileston a Sain Tathan, gwelliannau i Sarn Ynys y Barri, croesfannau newydd i gerddwyr yn Heol Buttrills a Heol Holton, cysgodfannau bws newydd yn y Barri a Llandochoau, llwybr beicio Port Road yn y Barri, adnewyddu ardal chwarae George Street yn y Barri, a'r cynllun mainc Buddy yn Ysgol Gynradd Llangan. Mae'r gofynion rhwymedigaeth cynllunio a sicrhawyd yn ystod y llynedd hefyd wedi cynnwys ymrwymadau o fath arall, megis darparu tai fforddiadwy ar y safle, mannau agored cyhoeddus ar y safle a chelf gyhoeddus.

Rydym yn parhau i hyrwyddo'n egniol y nifer sy'n manteisio ar gynlluniau teithio rhatach ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys gwasanaeth bws cysylltiadau cymunedol gwyrdd y Cyngor. Cynyddodd y nifer sy'n manteisio ar docynnau bws rhatach i'r rhai dros 60 oed o 82.4% i 92.1% gan ein gosod yn y 3<sup>ydd</sup> safle ac ymhlith y chwarter uchaf o berfformwyr yng Nghymru. Mae cynllun newydd a gyflwynwyd ar ddechrau 2016 ar gyfer pobl ifanc wedi gweld 246 o docynnau yn cael eu rhoi hyd yn hyn i bobl ifanc yn y Fro.

Bu buddsoddiad sylweddol pellach mewn gwasanaethau adsefydlu ac ailalluogi, gan alluogi mwy o unigolion i gyrraedd lefelau uwch o annibyniaeth. Cyflwynwyd hyn drwy drefniant partneriaeth gwasanaeth integredig gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. I'r defnyddwyr gwasanaeth mae hyn yn golygu strwythur rheoli asesiad a gofal integredig, sy'n galluogi cyfeirio effeithiol, sgrinio a dyrannu gwasanaethau gofal yn gyflym. Mae gan y gwasanaeth hanes ardderchog o gefnogi pobl i gael annibyniaeth lawn, gyda dros 80% o bobl sy'n derbyn gwasanaeth â lefelau gwell o annibyniaeth.

Mae'r Cyngor yn parhau i wneud gwelliannau o ran darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (GCA) i drigolion. Mae'r amser darparu ar gyfartaledd wedi parhau i wella dros y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i'r gwelliannau hyn i'r gwasanaeth sydd wedi cael eu llywio gan farn defnyddwyr gwasanaethau. Ar gyfartaledd, cwblheir gwaith yng nghartrefi cleient o fewn chwe mis, o fewn cyfartaledd o 178 diwrnod o gysylltu â'r Cyngor, a thrwy hynny ein gosod ymhlith y perfformwyr chwarter uchaf yng Nghymru, yn y 4<sup>ydd</sup> safle. Roedd ein perfformiad eleni

yn welliant pellach ar ffigwr y flwyddyn flaenorol o 199 diwrnod. Yn ystod 2015/16, profodd y gwasanaeth GCA gynnydd yn y galw, ond er gwaethaf y cynnydd hwn a llwyth gwaith cynyddol, mae'r tîm yn dal i leihau ei amser cyflenwi a chadw lefel uchel o foddhad ymysg eu cleientiaid.

Cwblhawyd ymarfer cyfathrebu ac ymgysylltu cynhwysfawr fel rhan o'r gwaith i gefnogi Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor a'r broses o osod y gyllideb. Mae'r wybodaeth hon yn ein cynorthwyo i lunio dyfodol gwasanaethau'r Cyngor ac mae wedi galluogi cyfathrebu effeithiol a thryloyw gyda staff i sicrhau eu bod yn cael eu grymuso ac yn teimlo'n rhan o'r broses.

## **Ein perfformiad yn erbyn Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus**

Casglwyd ac adroddwyd ar ddata ar 44 o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol yn 2015/16. O'r rhain, mae gan 43 ddata y gellir ei gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a oedd yn dangos bod:

- 55% wedi gwella
- 21% wedi cyflawni'r perfformiad gorau bosibl
- 23% wedi dirywio
- 18% gyda pherfformiad wedi aros yr un fath (ond a barhaodd i gynnal y perfformiad gorau bosibl).

Dengys y data mai Cyngor Bro Morgannwg yw'r Cyngor sy'n perfformio orau, gyda'r mwyaf o ddangosyddion (26) yn chwarter uchaf awdurdodau Cymru. Ar ben hynny, mewn cymhariaeth perfformiodd y Fro yn well na chyfartaledd Cymru mewn 75% (33) o ddangosyddion cymharol yn erbyn Rhanbarth De-ddwyrain Cymru. O'i gymharu â holl gynghorau Cymru, roedd perfformiad y Fro yn 77% (34).

Dangosodd dadansoddiad pellach:

- Yn gyfan gwbl roedd 9 dangosydd wedi cyflawni'r perfformiad gorau posibl yn 2015/16, sef un yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. O'r rhain roedd 8 yn parhau i gynnal eu perfformiad gorau posibl (naill ai 100% neu 0%) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac yr oedd y nawfed yn dangos gwelliant o'r 2<sup>il</sup> chwarter i'r 8<sup>fed</sup> safle i'r chwarter uchaf i'r safle 1<sup>af</sup>.
- Dangosodd 55% (24) dangosyddion welliant (yn seiliedig ar eu gwerth DP) yn ystod 2015/16 sydd un yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.
- Dangosodd 10 o ddangosyddion ddirywiad (yn seiliedig ar eu gwerth DP) yn ystod 2015/16, sydd dri yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Roedd 4 o'r 10 mesur yn parhau i ddangos dirywiad yn ystod 2015/16.
- Yn ystod 2015/16 ni ddangosodd 9 o ddangosyddion unrhyw newid yn eu perfformiad o'i gymharu â 2014/15. Mae 8 o'r dangosyddion hyn wedi parhau i gynnal y perfformiad gorau bosibl (EDU/002i, EDU/002ii EDU/015a, EDU/015b, SCA/019, SCA/018a, SCC/033d a SCC/041a) ac arhosodd y nawfed (EDU/16a) yn y chwarter uchaf.

- Mae 5 o ddangosyddion a oedd wedi dangos gwelliant yn flaenorol yn 2014/15 (yn seiliedig ar eu gwerth DP) yn awr yn dangos dirywiad yn eu perfformiad yn 2015/16. Y rhain yw: SCA/001 (cyfradd trosglwyddo gofal gohiriedig), SCC/004 (Plant sy'n derbyn gofal gyda 3 neu fwy o leoliadau), SCC011b (asesiadau cychwynnol lle mae plentyn wedi cael ei weld gan Weithiwr Cymdeithasol), THS/012 (prif ffyrdd A mewn cyflwr gwael) a PPN/009 (sefydliadau bwyd sy'n cydymffurfio'n gyffredinol â hylendid bwyd).

Mae dadansoddiad o'n perfformiad mewn chwarteli o'i gymharu â Chymru fel a ganlyn:

- Roedd 59% (26) o ddangosyddion yn y chwartel uchaf o ran eu perfformiad, yn cynrychioli cynnydd o 15% ar y flwyddyn flaenorol lle nodwyd bod 44% (20) o ddangosyddion yn y chwartel uchaf o ran eu perfformiad.
- Roedd 11% (5) o ddangosyddion yn y Chwartzel canol uwch (2<sup>il</sup>) yn ystod 2015/16 o'i gymharu â 15 % (7) o ddangosyddion yn y flwyddyn flaenorol (2014/15).
- Roedd 16% (7) dangosyddion yn y Chwartzel canol is o ran eu perfformiad yn ystod 2015/16, yn cynrychioli 4% o ostyngiad ar y flwyddyn flaenorol lle nodwyd bod 20% (9) o ddangosyddion yn y Chwartzel canol is
- Arhosodd 14% (6) o ddangosyddion yn y chwartel isaf o ran eu perfformiad yn ystod 2015/16 o'i gymharu â 20% (9) o ddangosyddion yn y flwyddyn flaenorol (2014/15).

Y meysydd lle y perfformiwyd orau (safle 1<sup>af</sup> yng Nghymru) oedd:

- Ni adawodd unrhyw ddisgyblion addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, heb gymhwyster allanol cymeradwy;
- Cyhoeddwyd 100% o ddatganiadau anghenion addysg arbennig o fewn 26 wythnos (yn cynnwys ac eithrio eithriadau);
- Rheolwyd 100% o'r holl risgiau cyfeirio diogelu oedolion;
- Aseswyd 100% o anghenion gofalwyr;
- Cynhaliwyd cyswllt â 100% o blant sy'n derbyn gofal yn 19 oed;
- Gwyddys bod yr holl blant sy'n derbyn gofal yr ydym wedi cadw cyswllt â hwy mewn llety addas, nad yw'n llety argyfwng, yn 19 oed.
- Sicrhawyd bod 100% o blant perthnasol â chynlluniau llwybr.

Rydym hefyd yn cydnabod bod angen i ni wella yn y meysydd hynny lle'r ydym yn perfformio yn y chwartzel isaf o'i gymharu â gweddill Cymru. Y rhain yw:

- Ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden;
- Sefydliadau bwyd sy'n cydymffurfio'n gyffredinol â safonau hylendid bwyd;
- Prif ffyrdd mewn cyflwr gwael;

- Asesiadau cychwynnol lle mae'r plentyn wedi cael ei weld gan weithiwr cymdeithasol;;
- Cynlluniau gofal i oedolion a oedd yn ddyledus a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn.

Mae'r materion hyn yn cael sylw yng nghynlluniau perthnasol y Cyngor. Ceir crynodeb a dadansoddiad o'n perfformiad yn erbyn yr holl ddangosyddion cenedlaethol yn adran 'Ein Perfformiad yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol' y cynllun.

## Ein Cytundeb Canlyniadau (2013-2016) gyda Llywodraeth Cymru

Mae'r Cytundeb Canlyniadau yn gytundeb gyda Llywodraeth Cymru am gyfnod o dair blynedd ac mae'n galluogi'r Cyngor i gyflenwi gweithgarwch perfformiad a thargedau cysylltiedig yn unol â'r Rhaglen Lywodraethu genedlaethol. Daeth y Cytundeb, a oedd yn ymdrin â'r cyfnod o 2013 i 2016, i ben ym mis Mawrth 2016.

Mae lefel y perfformiad a gyflawnwyd bob blwyddyn wedi pennu'r raddfa gyllidol gysylltiedig a ddyfernir gan Lywodraeth Cymru ac mae Cyngor Bro Morgannwg wedi gwneud cynnydd da tuag at gyflawni'r canlyniadau drwy gwrdd â'r mwyafrif o'r targedau a osodwyd yn y Cytundeb a thrwy hynny dderbyn taliad llawn bob blwyddyn.

Yn ystod 2015/16, blwyddyn olaf y Cytundeb Canlyniadau, rydym wedi parhau i wneud cynnydd tuag at gyflawni'r canlyniadau trwy gwrdd â'r rhan fwyaf o'r targedau a osodwyd gennym ar gyfer y flwyddyn. Nid yw nifer fechan o dargedau wedi eu cyflawni, ac yn yr achosion hynny, mae'r targedau yn parhau i gael eu monitro gan y Pwyllgorau Craffu perthnasol fel rhan o'r Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd a fydd yn sicrhau bod perfformiad yn cael ei ddwyn yn ôl ar y trywydd iawn.

Yn seiliedig ar ein hunanasesiad, rydym wedi dod i'r casgliad bod y Cyngor yn gyffredinol wedi bod yn gwbl llwyddiannus wrth gyflawni'r rhan fwyaf o'r targedau a chatau gweithredu sy'n ymwneud â blwyddyn 3 y Cytundeb (2015/16). Cyflawnwyd sgôr o 9 allan o 10 yn yr adran 'Canlyniadau'. Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'n perfformiad yn ôl Maes Canlyniad yn seiliedig ar ein hunanasesiad. Bydd asesiad Llywodraeth Cymru o rhwng 8 - 10 pwynt yn galluogi'r Cyngor i sicrhau taliad llawn ar gyfer yr adran canlyniadau (70% o £1.2 miliwn). Gellir cael rhagor o wybodaeth yn y Cytundeb Canlyniadau 2013-2016: Gwerthusiad Diwedd y Flwyddyn 2015-16.

Maes Canlyniad	Cwbl lwyddiannus	Rhannol lwyddiannus	Aflwyddiannus
Cefnogi'r economi leol	√		
Cynyddu cyrhaeddiad ysgol	√		
Gwella bywydau pobl hŷn	√		

Gwella tai cymdeithasol		√	
Lleihau tirlenwi	√		

## Gweithio mewn Partneriaeth a Chydweithredu

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag ystod o sefydliadau yn y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol i ymdrin â rhai o'r materion cymhleth sy'n wynebu ein dinasyddion a'n cymunedau. Mae'r rhain yn ein galluogi i weithredu mewn modd mwy effeithiol ac effeithlon gan arwain at wasanaethau gwell i'n dinasyddion ac arbedion ariannol. Nodir isod rai o'n cyflawniadau drwy gydweithredu.

Fel rhan o'r Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol, buddsoddwyd £533K mewn gwella'r ddarpariaeth a gwasanaethau ailalluogi i bobl ag anableddau dysgu. Arweiniodd hyn at gydleoli tîm adnoddau cymunedol y Cyngor a Bwrdd Iechyd y Brifysgol ynghyd â'r trydydd sector i lety a gynlluniwyd yn benodol ar y cyd yn ysbyty'r Barri. Mae'r cydleoli eisoes yn darparu gwasanaeth mwy effeithlon gyda swyddogion yn cydweithio'n agosach. Mae gwaith hefyd yn parhau gyda phartner trydydd sector, y Groes Goch Brydeinig, er mwyn gwella ailalluogi a datblygu gwasanaethau ymyrraeth ataliol i leihau'r galw ar y gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn cyfrannu at fwy o sgrinio a dyrannu adnoddau i helpu lleihau amseroedd ymateb gan y Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol. Yn ogystal, mae adolygiadau amserol o achosion yn sicrhau asesuadau prydol a rhyddhau o wasanaethau cymorth, gan sicrhau nad yw hyd arhosiad yn y gwasanaeth yn fwy na 6 wythnos sy'n rhyddhau capasiti ar gyfer achosion pellach. Rydym wedi gwella gwasanaethau ar gyfer pobl ag Anableddau Dysgu drwy weithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector i ddatblygu modelau newydd o ddarpariaeth, megis mentrau cymdeithasol, gan roi mwy o ddewis o ran cyfleoedd dydd. Yn dilyn cymeradwyo'n Strategaeth Cyfleoedd Dydd, mae gwaith eisoes wedi dechrau i adolygu'r trefniadau gofal dydd presennol a ddarperir i unigolion. O ganlyniad, mae trefniadau gofal unigol yn cael eu haddasu i hwyluso gwaith, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden fel rhan o wasanaethau cyffredinol lle bynnag y bo'n briodol. Yn ogystal, mae gwaith wedi parhau i gynyddu'r mathau o gyfleoedd a gynigir i ddefnyddwyr gwasanaeth a'u gofawyr ar adegau o'r dydd a'r wythnos lle mae angen seibiant fwyaf

Mae gwaith y Grŵp Tai Strategol yn cyfrannu at ddarparu 158 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol yn 2015/16. O'r rhain, addaswyd 55 neu eu gwneud yn hygyrch, sydd wedi galluogi'r Cyngor i gynyddu argaeledd cartrefi gweddus, fforddiadwy a hygyrch i'r cyhoedd. Mae cytundeb partneriaeth newydd i ddarparu rhagor o dai fforddiadwy ar gyfer Bro Morgannwg yn ei le gyda chymdeithasau tai Hafod Newydd, United Welsh, Wales & West, gyda'r nod o gynyddu tai fforddiadwy yn y Fro drwy weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod y broses o adeiladu tai fforddiadwy newydd yn y Fro mor effeithiol â phosibl, cytuno ar safonau ar gyfer cartrefi newydd, hyrwyddo perchentyaeth cost isel ac ymdrin â chartrefi gwag.

Mae blwyddyn gyntaf y Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir (GRhR) wedi bod yn canolbwyntio ar ddatblygiad model gweithredu newydd a gytunwyd gan y tri Chyngor. Mae hyn yn darparu gwasanaeth integredig ac yn cyfuno cyflenwi lleol ac ymatebolrwydd i anghenion lleol gyda

mwy o wytnwch ac arbedion maint a geir drwy weithio ar draws ardal ddaearyddol fwy. Cyflawniad allweddol yn 2015/16 oedd cyflwyno busnes fel arfer drwy'r broses newid, gyda'r effaith leiaf ar gwsmeriaid. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth bellach yn cynhyrchu incwm drwy godi am ei wasanaeth cyngor busnes a hyfforddiant, drwy ddatblygu ffyrdd newydd o weithio. Trwy gydol 2015/16, parhaodd yr GRhR i archwilio, samplo, cynghori, ymyrryd, a chosbi drwgweithredwyr, gan gyfrannu at gyrraedd y targedau a'r camau gweithredu allweddol a nodwyd yn ei gynllun busnes.

Cychwynnodd y contract ar gyfer y Prosiect Gwyrdd yn ffurfiol ar 1 Ebrill 2016, fodd bynnag mae arbedion sylweddol eisoes wedi eu gwneud trwy ddargyfeirio gwastraff i'r gwaith yn llawer cynharach nag a drefnwyd. Mae ailgylchu Lludw Gwaelod Llosgydd (IBA) o'r Prosiect Gwyrdd a Pharc Trident ers mis Awst 2015 wedi helpu'r Cyngor i wella ei berfformiad cyffredinol a bydd yn cyfrannu tuag at sicrhau bod y Cyngor yn gyfrifol yn amgylcheddol ac yn parhau i fod ar y trywydd iawn i gyflawni targedau cenedlaethol ar gyfer ailgylchu yn y dyfodol. Yn ystod 2015/16 cyflawnodd y Cyngor gyfradd ailgylchu 64.54% sy'n uwch na'r targed statudol o 58% sy'n ein rhoi ymysg y perfformwyr chwarter uchaf yng Nghymru, yn y 3<sup>ydd</sup> safle. Yn ychwanegol at y fantais ychwanegol o adfer gwastraff, mae'r Fro wedi lleihau maint y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi i 5.7%. Gwnaeth y Prosiect Gwyrdd £500k o arbedion yn 2015/16 a disgwylir arbed £1m yn 2016/17.

Drwy waith y Fforwm Tai trosfwaol mae'r Cyngor yn barod i adeiladu ei rhaglen tai cyngor cyntaf ers 17 flynedd. Bydd y datblygiadau newydd yn darparu cartrefi i'r rhai mewn angen gwirioneddol megis teuluoedd gydag oedolion a phlant ag anableddau. Tra'n disgwyl am ganiatâd cynllunio, gallai'r gwaith adeiladu ddechrau ar y safle cyn gynted â thymor yr Hydref 2016.

Mae Addysg Oedolion a Chymunedol (AOCh) yng Nghaerdydd a'r Fro wedi gwella'n sylweddol trwy ymdrechion pob agwedd ar y gwaith partneriaeth mewn ffordd fwy cydlynol. Y Grŵp Strategol sy'n cytuno ar flaenoriaethau ac yn monitro perfformiad. Mae aelodau'r bartneriaeth yn cydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm, marchnata, data, ansawdd, ac adnoddau. Mae rôl y cydlynnydd a gyflogir ar y cyd yn sicrhau bod yr holl weithgorau yn cyflawni'r camau gwella ansawdd a nodwyd yn y Cynllun Datblygu Ansawdd Rhanbarthol 'Taith i Ragoriaeth' sy'n canolbwyntio ar wella cyfleoedd i ddysgwyr ar draws rhanbarth Caerdydd a'r Fro. Mesurir cynnydd gan yr ystadegau yn adroddiad Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) lle mae'r cyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddiant wedi cynyddu'n sylweddol gyda chyfraddau llwyddiant yn awr ar 92%, llawer uwch na chyfartaledd cenedlaethol Cymru o 84%. Ar hyn o bryd, mae'r bartneriaeth yn cynorthwyo ymgynghorwyr a benodwyd gan Lywodraeth Cymru i ddrafftio model newydd ar gyfer darparu AOCh yng Nghymru. Yn ddiweddar, cytunodd y Grŵp Strategol ar dargedau perfformiad heriol i'r bartneriaeth.

Gallwch gael gwybod mwy am ein projectau strategol drwy edrych ar y Casgliad Cydweithio.

## **Beth mae ein Rheoleiddwyr yn ei ddweud amdanom**



Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae'n ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynhyrchu adroddiad blynyddol ar gynghorau Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill o'r enw 'Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB)' sy'n crynhoi'r gwaith archwilio a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn. Unwaith bob pedair blynedd mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cynnal asesiad corfforaethol manwl i benderfynu i ba raddau y mae ein trefniadau yn y Cyngor yn cyfrannu at sicrhau perfformiad gwell y gwasanaethau a chanlyniadau ar gyfer dinasyddion. Yn ystod 2016 cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad o'r fath yn y Fro yn ogystal â rhaglen flynyddol o astudiaethau gwella ac archwiliadau o ddull y Cyngor o gynllunio ac adrodd ar welliant.

Daeth Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad, *"Mae gan y Cyngor weledigaeth glir o'r hyn y mae am ei gyflawni ac mae'n gwneud newidiadau cadarnhaol a ddylai sicrhau ei fod mewn sefyllfa dda i barhau i sicrhau gwelliant."* Mae canfyddiadau'r adroddiad yn tynnu sylw at y canlynol:

- Mae gweledigaeth y Cyngor yn adlewyrchu anghenion lleol a blaenoriaethau cenedlaethol ac mae uwch arweinyddiaeth wleidyddol a swyddogion yn ymgysylltu'n effeithiol â staff i gefnogi newid a chynllunio ar gyfer y dyfodol.
- Cefnogir yr agenda ar gyfer newid gan arweiniad effeithiol, ac mae llinellau cyfrifoldeb clir sy'n sicrhau gwelliant.
- Mae trefniadau llywodraethu effeithiol wedi sicrhau gwelliannau ac mae trefniadau craffu wedi cael eu mireinio i werthuso'r canlyniadau, gyda gwybodaeth am berfformiad y Cyngor ar gael yn rhwydd.
- Mae'r gwasanaeth adnoddau dynol ac ymgysylltu staff helaeth yn cefnogi blaenoriaethau'r Cyngor a'r agenda newid.
- Mae potensial drwy ddatblygiadau yn nhrefniadau rheoli perfformiad y Cyngor i wella sut mae'n gwerthuso perfformiad a chanlyniadau, os cânt eu cefnogi gan fesurau priodol ac adrodd cytbwys.
- Mae trefniadau rheoli ariannol yn effeithiol, ond mae angen darparu mwy o wybodaeth fel rhan o'r monitro ariannol
- Mae'r Cyngor yn cydnabod TGCh fel ffordd allweddol o ail-lunio gwasanaethau a sicrhau arbedion ac mae'n datblygu gweledigaeth gorfforaethol ac amcanion clir ar gyfer y gwasanaeth.
- Mae'r Cyngor wedi gwella ei brosesau rheoli asedau corfforaethol ond mae angen gwneud gwaith i gyflymu'r broses o gasglu data a hyfforddiant angenrheidiol mewn perthynas â chydymffurfio adeiladau.
- Mae perthynas y Cyngor gyda phartneriaid yn dda ac mae trefniadau cydweithredol yn dod â manteision mewn rhai meysydd allweddol, ond gellid gwella craffu a rhannu adnoddau ariannol ymhellach.

Gwnaed nifer o gynigion ar gyfer gwella sy'n canolbwyntio'n benodol ar ymgorffori'r gwelliannau rheoli perfformiad arfaethedig, mireinio cynlluniau arbedion ariannol, a rheoli asedau yn ogystal â sicrhau bod gwasanaethau TGCh yn cefnogi'r agenda newid yn llawn. Mae'r rhain yn feysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn Hunanasesiad Blynyddol y Cyngor, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ymdrin â'r rhain. Gellir gweld ein Hadroddiad Asesu Corfforaethol 2016 (yn ymgorffori Adroddiad Gwella Blynyddol 2015/16) ar [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk).

**Beth mae ein trigolion yn ei ddweud amdanom**

Mae annog ein cwsmeriaid i rannu eu barn a'u profiadau o'n gwasanaethau yn hyrwyddo ymgysylltu â dinasyddion ac yn gwella datblygiad y gwasanaeth. Hefyd mae ymgysylltu â dinasyddion yn ymddangos fel un o werthoedd craidd y Cyngor yn ei Gynllun Corfforaethol. Yn ogystal, mae archwilio profiad/ boddhad y cwsmer yn rhoi arwydd o sut yr ydym yn perfformio fel Cyngor o safbwynt y cyhoedd. Cynhelir Arolwg o Farn y Cyhoedd o bryd i'w gilydd gyda sampl cynrychioliadol o drigolion Bro Morgannwg, gyda'r nod o gasglu eu barn ar amrywiaeth o agweddau ar wasanaethau'r Cyngor a'i ddull o gyflenwi gwasanaethau.

Mae'r arolwg nesaf i fod i'w gynnal yn ystod yr Hydref 2016. Amlinellir isod grynodedb o'r canfyddiadau allweddol o'r [Arolwg o Farn y Cyhoedd 2014/15](#) diweddaraf a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2014 yn cynnwys cyfweiliadau gyda 904 o drigolion sy'n oedolion yn y Fro (dros 16 oed). Mae'r cyswllt uchod yn darparu adroddiad manwl sy'n tynnu sylw at y canfyddiadau o'r arolwg sy'n ymwneud â lefelau boddhad cwsmeriaid penodol â gwasanaethau'r Cyngor.

At ei gilydd, roedd yr arolwg yn dangos ein bod yn perfformio'n dda o ran boddhad cyffredinol â gwasanaethau'r Cyngor. Er y cafwyd peth gostyngiad mewn cyfraddau bodlonrwydd ar draws yr ystod eang o wasanaethau ers 2012, arhosodd lefelau boddhad yn gymharol uchel. Er enghraifft, nododd yr arolwg bod y mwyafrif llethol o ymatebwyr (84%) yn dweud eu bod yn fodlon ar y cyfan â'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Er y bu gostyngiad yn y farn gadarnhaol o'i gymharu â 2012 (a oedd yn 93%), roedd lefelau boddhad yn dal i fod yn uchel. Amlygodd yr arolwg fod 1 o bob 6 (16%) o drigolion erbyn hyn yn anfodlon ar y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor o'i gymharu â dim ond 7% yn ystod 2012. Efallai bod y gostyngiad mewn lefelau bodlonrwydd rhwng 2012 i 2014 i'w briodoli yn rhannol i effaith toriadau yn y gyllideb i wasanaethau cyhoeddus dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Defnyddiwyd y canfyddiadau hyn gan wasanaethau'r Cyngor i wella'r gwasanaeth.

### **Beth mae ein staff yn ei ddweud amdanom**

Rydym yn gwybod mai pobl - eu sgiliau, gallu ac ymroddiad - yw'r allwedd i ddarparu a gwella gwasanaethau'r cyngor. Yn 2015 cychwynnodd y Cyngor ar raglen sylweddol o ymgysylltu â staff ar draws pob maes gwasanaeth. Y nod oedd trafod yr heriau sy'n wynebu'r Cyngor dros y blynyddoedd nesaf a'r ymateb i heriau o'r fath trwy raglen Ail-lunio Gwasanaethau'r Cyngor.

Rhan bwysig o'r broses oedd trafod disgwyliadau newidiol gweithwyr mewn "byd wedi'i ail-lunio" ac i geisio gwneud yn glir y pethau hynny y gallai gweithwyr yn rhesymol eu disgwyl gan y Cyngor. Mae'r broses wedi edrych ar faterion megis cyfathrebu â staff, hyfforddiant a datblygiad, a sut yr ydym yn ceisio barn a syniadau gweithwyr. Gan gynnwys oddeutu 1800 o weithwyr ac undebau llafur drwy wyth cam gwahanol o ymgysylltu dros nifer o fisoedd, mae'r broses wedi arwain at y gwaith o ddatblygu Siarter Staff cyntaf y Cyngor, sy'n anelu at gefnogi 'Cymunedau Cryf gyda Dyfodol Disglair'. Bydd yn cael ei lansio'n ffurfiol ym mis Medi 2016 a cheir arolwg i gyd-fynd â'r Siarter er mwyn rhoi llinell sylfaen i ni, y gallwn fesur a dysgu yn ei erbyn.

Mae'r Siarter yn nodi ein hymrwymiad i'r holl weithwyr, i weithio'n effeithiol â hwy mewn partneriaeth i sicrhau'r gwasanaethau cyngor gorau posibl i gymunedau Bro Morgannwg. Wedi ei lunio mewn partneriaeth â'n gweithwyr ac undebau llafur, bydd y Siarter yn:

- Ein helpu ni i gyflawni gweledigaeth a gwerthoedd y Cyngor fel y nodir yng Nghynllun Corfforaethol 2016-20
- Hysbysu'r ffordd yr ydym yn llunio a gwerthuso polisiau cyflogaeth yn y dyfodol
- Helpu rheolwyr a staff i adolygu eu perfformiad eu hunain yn y gwaith
- Bod yn bwynt trafod fel rhan o'r broses arfarnu gweithwyr
- Cael ei brofi fel rhan o arolwg staff rheolaidd a'i adolygu yn unol â hynny

Ar hyn o bryd dilynir 15 o gamau gweithredu er mwyn tanategu'r disgwyliadau sydd yn y Siarter, ac mae nifer o'r rhain eisoes ar y trywydd iawn gan gynnwys sefydlu rhaglen datblygu rheolwyr, treialu rhaglen cynllunio olyniaeth a rheoli talent, datblygu ymhellach a hyrwyddo Caffi Arweinyddiaeth y Cyngor sydd wedi ennill gwobr, lansio cynllun gwerthuso staff newydd; recriwtio tîm golygyddol staff i lunio'r broses Briff Craidd, sefydlu grŵp ymgysylltu â staff i gynnal deialog rheolaidd gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol, dylunio cynllun 'pasbort i hyfforddiant' a lansio rhaglen newydd Cymorth i Weithwyr.

Cydnabuwyd y gwaith ymgysylltu â staff gyda gwobr yng Nghynhadledd fawreddog Rheolwyr Personél Sector Cyhoeddus y DU (PPMA) yn 2016.

## **Ein Cyllideb**

Mae'r Fro yn parhau i wynebu cyfnod ariannol heriol ac mae angen iddi wneud arbedion digynsail dros y tair blynedd nesaf tra'n cyflenwi agenda gwella uchelgeisiol. Golyga costau cynyddol a'r galw am wasanaethau, ynghyd â llai o gyllid yn ystod 2015/16 bod rhaid i'r Cyngor wneud arbedion pellach o £6.8 miliwn, y gellir ond eu cyflawni trwy newid radical o'r ffordd yr ydym yn gweithio a'r ffordd y caiff gwasanaethau eu cyflenwi.

Yn ystod 2015/16 gwnaethom gynnydd da o ran cyflawni £7.2 miliwn o arbedion effeithlonrwydd ac arbedion eraill. Fodd bynnag, mae angen gwneud cryn dipyn mwy o waith er mwyn cyflawni'r arbedion gofynnol ar gyfer 2016/17 a thu hwnt (£25.4 miliwn rhwng 2016/17 a 2018/19).

Mae'r Cyngor yn derbyn y rhan fwyaf (72%) o'i gyllid refeniw net gan Lywodraeth Cymru (LIC) fel Grant Cynnal Refeniw (RSG) a chyfran y Gronfa Trethi Annomestig Cenedlaethol (NADR). Gyda'i gilydd, maent yn ffurfio Cyllid Allanol Cyfun y Cyngor (AEF) a'r rhain yw prif benderfynyddion cyllideb refeniw blynyddol yr Awdurdod, a oedd yn £212.355 miliwn yn 2015/16. Daw'r arian sy'n weddill o dreth y Cyngor a gesglir (28%).

Hysbyswyd penderfyniadau yn ymwneud â gosod cyllideb 2015/16 y Cyngor drwy ymgynghori â thrigolion y Fro drwy arolwg ac mewn grwpiau trafod wyneb yn wyneb. Ymgynghorwyd hefyd â phartneriaid strategol allweddol yn cynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, Cyngorau Tref a Chymuned, y sector gwirfoddol, siambrau masnach lleol, panel dinasyddion Barn y Fro, Fforwm Strategaeth 50+ Bro Morgannwg a Fforwm Ieuenctid y Fro. Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar flaenoriaethau cyllidebol ar gyfer 2015/16 yn ogystal ag Agenda Ail-lunio Gwasanaethau'r Cyngor. Amlinellir isod grynoded o'r canfyddiadau allweddol o Ymgynghoriad Cyllideb Bro Morgannwg 2015/16 ac mae'r ddolen yn darparu adroddiad manwl sy'n tynnu sylw at y canfyddiadau allweddol penodol i wasanaethau'r Cyngor.

Caniataodd canlyniadau'r ymgynghoriad gyllideb i ni dynnu nifer o gasgliadau am flaenoriaethau trigolion a phartneriaid a sut y teimlant y dylai Cyngor Bro Morgannwg geisio ymdrin â'r heriau ariannol sylweddol y mae'r sefydliad yn eu hwynebu. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus yn glir nad oes unrhyw wasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu y mae nifer sylweddol o ddefnyddwyr gwasanaeth yn teimlo sy'n ddibwys. Fodd bynnag, roeddynt yn dangos bod rhai gwasanaethau yn llawer pwysicach nag eraill i drigolion. Nodwyd ysgolion cynradd ac uwchradd, casgliadau ailgylchu, a gwasanaethau iechyd plant a chefnogi anabledd i gyd yn rhai pwysig iawn gan fwy na thri chwarter o'r rhai sy'n eu defnyddio. Mewn gwrthgyferbyniad, nododd 40% neu lai o ymatebwyr ddigwyddiadau, cyfleusterau cyhoeddus neu barcio ceir a gorfodi yn yr un modd.

Awgryma canlyniadau'r arolwg y byddai cefnogaeth gan drigolion y Fro i ymchwiliad pellach o'r ystod o ffurfiau amgen o ddarparu gwasanaethau a nodir yn y Strategaeth Ail-lunio Gwasanaethau. Mae'r sylwadau a wnaed gan gyfranogwyr yn y grwpiau ffocws yn atgyfnerthu hyn, ond hefyd yn awgrymu bod paramedrau pendant i'r modelau darparu amgen a fyddai'n dderbyniol. Gyda golwg ar ddatblygu ffurfiau amgen o gyflenwi, mae'n ymddangos bod barn gyffredinol ymysg trigolion a phartneriaid allweddol, pe bai gwasanaethau'n cael eu trosglwyddo y tu allan i reolaeth y Cyngor, y dylai'r sefydliad gadw lefel o reolaeth ac atebolrwydd cyffredinol.

Hefyd roedd canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus yn tynnu sylw at ddiffyg ymwybyddiaeth gyffredinol o ran sut y mae'r Cyngor yn rheoli ei wasanaethau, yn ogystal â'r pwysau ariannol y mae'n ei wynebu ar hyn o bryd, ac o rôl aelodau etholedig. Mae angen ymdrin â'r camsyniadau a chanfyddiadau negyddol a amlygwyd gan yr ymgynghoriad os yw trigolion y Fro i gael eu cynnwys yn effeithiol wrth ailddatblygu gwasanaethau'r Cyngor.

Hefyd roedd ymatebion trigolion yn dangos y byddai'n well ganddynt ddatblygu gwasanaethau newydd i gynhyrchu incwm drwy daliadau am wasanaethau sydd eisoes yn eu lle na chynyddu treth y cyngor neu godi tâl am wasanaethau nad ydynt ar gael ar hyn o bryd.

Awgryma'r ymatebion a dderbyniwyd gan randdeiliaid allweddol eraill hyd yn oed os oes dull cyffredin wedi ei ganfod y bod rhaid i'r Cyngor fod yn ymwybodol o sut mae newidiadau i'w wasanaethau yn effeithio ar sefydliadau partner.

Yn ystod 2015/16, cyfanswm gwariant y Cyngor ar ddarparu gwasanaethau oedd 47% ar Wasanaethau Addysg a llyfrgelloedd, 25% ar Wasanaethau Cymdeithasol, 14% ar yr Amgylchedd a Thai, 5% ar dai, budd-daliadau eraill a rhyddhad treth y Cyngor, 2% ar Gynllunio a

Datblygu Economaidd a 7% ar wasanaethau canolog. O gyfanswm cyllideb y Cyngor, diogelir gwasanaethau megis Addysg, ac wrth symud ymlaen ein her yw lleihau gwariant o'r meysydd sy'n weddill.

Yn 2015/16 gwariodd y Cyngor £45 miliwn ar broiectau cyfalaf. Cyllidwyd y gwariant hwn trwy gyfuniad o fenthyg, grantiau, derbyniadau cyfalaf a chyfraniadau refeniw.

Mewn ymateb i'r her sylweddol a gyflwynir gan agenda cyni cyllidol y llywodraeth ganolog, mae'r Cyngor wedi sefydlu'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau, sy'n golygu gweithio gyda phartneriaid allweddol i ystyried modelau cyflenwi amgen ar gyfer gwasanaethau ar draws y Cyngor. Mae'r Rhaglen yn cael ei thanategu gan ymgysylltu manwl i gael barn partneriaid a thrigolion ar flaenoriaethau'r cyngor, cyllidebau, a ffurfiau amgen o ddarparu gwasanaethau a sut gall y rhain alluogi'r Cyngor i ymdrin â'r her sylweddol a ddaw yn sgil gostyngiadau sylweddol yn ei gyllid.

Ceir rhagor o wybodaeth ar y gyllideb yn [Natganiad o Gyfrifon llawn y Cyngor ar gyfer 2015/16](#).

### 3. Ein hamcanion gwella manwl

#### 3.1 Gwella mynediad at wasanaethau'r Cyngor

##### Canlyniad Blaenoriaeth Cynllun Corfforaethol

Mae'n hawdd i ddinasyddion Bro Morgannwg fanteisio ar wasanaethau a reolir mewn ffordd effeithlon ac y maent yn canolbwyntio ar eu hanghenion, ac mae ganddynt hyder yn y ffordd y caiff penderfyniadau eu gwneud ac maent yn falch o'r ffaith eu bod yn byw yn y Fro.

##### Amcan Gwella 1

Darparu gwasanaethau cynaliadwy a chynnig dulliau gwahanol o gyflwyno'r ddarpariaeth fel rhan o'n Rhaglen o Newid drwy Ail-lunio Gwasanaethau.

##### Sut fydd llwyddiant yn edrych?

- Strategaeth Ail-lunio y Cyngor wedi ei gwreiddio yn ei gynlluniau corfforaethol, comisiynu gwasanaethau a chyflenwi.
- Mwy o gapasiti mewnol a gallu i ddylunio, darparu a rheoli gwasanaethau cyhoeddus mewn partneriaeth â darparwyr eraill.
- Mwy o weithio mewn partneriaeth a dulliau arloesol o gomisiynu a darparu gwasanaethau blaenoriaeth y Cyngor.
- Sicrhau arbedion cost ac effeithlonrwydd o well arferion gwaith a rheoli ac o well mesuriadau perfformiad. Arbedion yn deillio o brojectau Cyfran un yn cael eu gwireddu o flwyddyn 2016/17 ymlaen.
- Gwell canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus.
- Mwy o gyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaeth gael eu cynnwys wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

##### Statws gwerthuso: CYFLAWNWYD

Rydym yn gwybod hyn oherwydd:

- Mae'r rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau wedi cael ei hymgorffori yn Fframwaith Rheoli Perfformiad diwygiedig y Cyngor, gan gynnwys fel cam gweithredu a galluogydd allweddol yn y Cynllun Corfforaethol newydd a rhan annatod o'r prosesau cynllunio gwasanaeth a thîm.
- Bodlonwyd targedau arbedion 2015/16.
- Mae cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid (gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned a'r sector gwirfoddol) wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn.
- Mae nifer o dimau project a staff y Cyngor sy'n gweithio ar brojectau Ail-lunio Gwasanaethau wedi cynyddu, gyda chefnogaeth reolaidd yn cael ei darparu i ddatblygu eu hymwybyddiaeth, eu sgiliau a'u gwybodaeth am ddatblygiad achos busnes a mathau amgen o ddarparu gwasanaethau.
- Mae'r targedau arbedion ar gyfer projectau Cyfran un wedi cael eu harfarnu'n feiriadol fel rhan o'r broses o bennu cyllideb referniw ar gyfer 2016/17 ac ar y trywydd iawn i gyflawni'r targedau hyn.
- Mae rhaglen sylweddol o ymgysylltu â staff ar y gweill ac mae eisoes wedi cyflenwi ystod o gynnyrch a chanlyniadau sy'n hysbysu'r ffordd y

mae'r Cyngor yn cael ei reoli.

## **Beth wnaethom ni a beth yr ydym wedi ei gyflawni?**

At ei gilydd, gwnaed cynnydd cadarnhaol mewn perthynas â rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau'r Cyngor. Mae gwaith yn parhau ar adolygiadau gwasanaeth Cyfran un a dau, gyda chamau gweithredu ar waith i sicrhau bod y projectau yn cyflawni eu targedau arbedion fel y nodir yng nghyllideb referniw y Cyngor ar gyfer 2016/17. Mae'r projectau a dargedwyd i sicrhau arbedion yn 2015/16 yn gwneud hynny. Adroddir ar ddatblygu achosion busnes a mathau eraill o gynigion ar gyfer newid (e.e. adroddiadau Cabinet) i'r Aelodau eu hystyried a'u cymeradwyo fel y bo'n briodol. Mae gwaith hefyd yn parhau ar y gwahanol brojectau sy'n cynnwys y ffrwd waith projectau corfforaethol.

Cwblhawyd nifer o brojectau yn ystod y flwyddyn gan gynnwys cwblhau'r Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir gyda chynghorau Pen-y-bont ar Ogwr a Chaerdydd sydd bellach wedi trosi i statws busnes fel arfer ac sydd wedi cyflenwi'r arbedion targed sy'n weddill yn 2015/16. Mae'r model darparu Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir wedi sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau i drigolion y Fro drwy wasanaeth integredig yn gweithredu o dan un strwythur rheoli, cyfuno adnoddau, cynnydd yn y defnydd o dechnoleg i alluogi gweithio hyblyg a symudol ar draws ardal eang, a datblygiad gwasanaethau sy'n seiliedig ar anghenion diogelu'r cyhoedd.

Gwnaed cynnydd sylweddol o ran sefydlu llyfrgelloedd a arweinir gan y gymuned (a gweithredu'r camau eraill a gynhwysir yn y cynllun strategol ar gyfer llyfrgelloedd), cyflenwi'r arbedion targed sydd eu hangen yn ystod y flwyddyn, a sefydlu'r sylfeini ar gyfer creu llyfrgelloedd cymunedol unigol yn 2016/17. Bydd hyn yn sicrhau darpariaeth gwasanaeth parhaus ar draws y sir a chynyddu cyfranogiad gwirfoddolwyr wrth ddatblygu gwasanaethau wedi'u teilwra a arweinir gan y gymuned ar draws Bro Morgannwg

Gwnaed gwaith sylweddol i ddatblygu cynigion ar gyfer darparu gwasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y dyfodol. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu llunio ar y cyd â grŵp ymgynghorol o benaethiaid sy'n helpu i lywio cyfeiriad y gwasanaeth yn y dyfodol. Ymgynghorir hefyd â chyrff llywodraethu ar gynigion penodol ar gyfer newid yn ymwneud ag arbedion yn 2016/17. Gan gydnabod yr angen i gydbwyso cyflawni arbedion â chymhlethdod y gwasanaeth hwn, mae'r targed arbedion wedi cael ei broffilio ar draws tair blynedd, gyda chynlluniau yn cael eu rhoi ar waith i gyflenwi ym mhob blwyddyn

Mae arbedion gweithredol mewnol yn parhau i fod yn faes sydd wedi'i dargedu o fewn y rhaglen. Cynhaliwyd adolygiad o'r newidiadau a wnaed i lanhau adeiladau a darpariaeth diogelwch yn dilyn cyflwyno'r project hwn o fewn y flwyddyn. Cafwyd cymeradwyaethau o fewn y Gyllideb Gyfalaf i ddechrau ar y gwaith sy'n gysylltiedig ag ail gam y project 'Space', sy'n ceisio rhesymoli swyddfeydd a lleihau costau rhedeg y Cyngor. Yn dilyn hyn, cychwynnodd gwaith yn Llyfrgell y Barri i greu canolbwynt dysgu gan ddwyn ynghyd y gwasanaethau llyfrgell, dysgu agored, y celfyddydau a gwasanaethau diwylliannol. Yn ddiweddar gorffennwyd cam cyntaf y gwaith yn y Swyddfeydd Dinesig ar amser, gyda manyleb yn barod ar gyfer gwagio Provincial House ar yr adeg briodol.

Mae'r Cyngor wedi parhau i wynebu tuag allan, gan ddysgu o brofiadau pobl eraill ar draws y DU. Un enghraifft o hyn yw yn natblygiad parhaus

## Beth wnaethom ni a beth yr ydym wedi ei gyflawni?

cynigion ar gyfer darparu gwasanaethau Arlwygo yn y dyfodol. Cafodd cyfres o berthnasoedd eu meithrin â chydweithwyr mewn cynghorau eraill sydd wedi newid y ffordd y mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei ariannu, ei weithredu a'i reoli, gan ddefnyddio gwahanol ffurfiau o gyflenwi gwasanaeth. Ar ôl cwblhau gwerthusiad opsiynau, mae'r tîm project wrthi'n paratoi achos busnes llawn sy'n cael ei lywio gan gyfres o weithdai ymgysylltu â staff, yn cynnwys yr holl gydweithwyr Arlwygo.

Mae'r Cyngor hefyd wedi parhau i weithio gyda phartïon allanol eraill yn natblygiad y rhaglen. Er enghraifft, defnyddiwyd proses profi'r farchnad feddal i ddeall diddordeb potensial y sector preifat i weithio gyda'r Cyngor yng ngweithrediad elfennau Gwasanaethau Gweladwy. Mae'r Cyngor hefyd wedi defnyddio cyngor a ariennir gan Lywodraeth Cymru gan Mutual Ventures a Chanolfan Gydweithredol Cymru yn y gwerthusiad opsiynau cychwynnol ar gyfer Gwasanaethau Dydd mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Trwy wneud hynny, mae'r cynigion sy'n cael eu datblygu yn trosoli gwybodaeth a phrofiad y sefydliadau hyn er mwyn sicrhau ystyriaeth gadarn a chynhwysfawr o ystod o faterion y gellir eu trosglwyddo i brojectau eraill.

Mae'r rhaglen Ail-Iunio Gwasanaethau yn cynnwys y rhaglen adolygu Trafnidiaeth. Cyflenwyd nifer o gyflawniadau nodedig yn ystod 2015/16 yn y maes hwn gan gynnwys cyflwyno cynllun car cyfun sydd wedi arwain at ostyngiad mewn hawliadau milltiroedd a chostau cysylltiedig i'r Cyngor. Mae'r uned trafndiaeth integredig hefyd ar waith ac yn datblygu, sy'n arwain at well rhannu gwybodaeth a gwytnwch yn y tîm, tra hefyd yn rhoi seilwaith yn ei le i ddarparu synergeddau gweithredol yn y dyfodol. Mae'r tîm hwn wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i weithredu a defnyddio meddalwedd caffael electronig newydd ar gyfer tendro contractau bysiau, gan sicrhau effeithlonrwydd prosesau o ganlyniad.

Mae Strategaeth Ail-Iunio Gwasanaethau'r Cyngor yn cydnabod bod meysydd sy'n elwa o ymdrin â hwy drwy ddull corfforaethol, a'r rhain sy'n ffurfio'r Ffrwd Waith Projectau Corfforaethol. O fewn y maes hwn, mae'r Cyngor wedi diweddarau ei Ganllawiau Trosglwyddo Asedau Cymunedol i gefnogi trosglwyddo asedau i gyrff eraill, lle bo hynny'n briodol. Seilir y canllawiau hyn ar ganllawiau Llywodraeth Cymru, y cyfrannodd y Cyngor tuag atynt. Elfen arall o'r Project Cynghorau Tref a Chymuned a'r Sector Gwirfoddol fu ymwneud parhaus y cynrychiolwyr o'r sectorau hyn ar y tîm project a'r bwrdd rhaglen, gan ddylanwadu a hysbysu datblygiad projectau. Yn ystod 2015/16, cynhaliwyd seminar gyda chynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned i ddarparu gwybodaeth am y rhaglen ac adeiladu ymwybyddiaeth o'r rôl bosibl y gellid ei chwarae gan y gyrff hyn. Dangosodd cyfarfodydd dilynol gyfres o feysydd posibl ar gyfer gweithio ar y cyd sy'n ymwneud ag asedau cyngor, gwasanaethau hamdden a chwaraeon a gwasanaethau gweladwy, a bydd y rhain yn cael ei ddatblygu o 2016/17 ymlaen.

Mae cyfleoedd ar gyfer mwy o gynhyrchu incwm yn cael eu datblygu, gyda chymeradwyaeth wedi ei roi gan y Cabinet yn ystod y flwyddyn i gyflenwi hysbysebu ar wefan y Cyngor ac i ymchwilio i'r potensial o adennill taliadau cyllid sy'n gysylltiedig â gwahanol ddulliau talu. Sefydlwyd project newydd i ddwyn ynghyd yr ymdrechion a wneir ar draws y Cyngor i ddigideiddio gwasanaethau a gwella effeithlonrwydd, mynediad at wasanaethau, a sicrhau arbedion cost. Mae'r tîm rhaglen hefyd wedi gweithio gyda'r Caffi Arweinyddiaeth i archwilio ystod o brojectau rheoli galw, gan ddefnyddio'r dechneg "gwthio", gyda'r targedu cyntaf a gostyngiad mewn argraffu yn cael ei gyflenwi ym mis Medi 2016.



## Beth wnaethom ni a beth yr ydym wedi ei gyflawni?

Mae'r rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau yn parhau i gael ei rheoli gan fwrdd y rhaglen, gydag adroddiadau chwarterol i'r Cabinet a rhannu gwybodaeth yn rheolaidd â chydweithwyr ac aelodau etholedig. Yn y cyfarfod bob mis, mae'r bwrdd rhaglen yn parhau i graffu ar brojectau drwy'r Adroddiad Prif Bwyntiau Pob Project a rennir yn eang gydag aelodau'r cyngor a staff. Yn ychwanegol at y projectau unigol sy'n ffurfio'r rhaglen, mae'r bwrdd hefyd wedi ystyried materion trawsbynciol, megis rheoli risg. Gan weithio gyda Zurich Municipal, mae'r Bwrdd Rhaglen a thimau unigol wedi ystyried ffyrdd o reoli a lliniaru risgiau ac adolygu risgiau ar lefel project a lefel rhaglen.

I bob project, gosodir dangosydd statws cyffredinol bob mis gan y Bwrdd Rhaglen. Mynegir y dangosydd statws fel coch, melyn neu wyrdd. Mae projectau Ail-lunio Gwasanaethau yn gymhleth ac mae'n bosibl i ystod o faterion a risgiau effeithio ar ba mor gyraeddadwy ydynt. Dengys y dangosydd statws asesiad cyfannol y Bwrdd o'r project yn nhermau pa mor gyraeddadwy yw yn gyffredinol, ac fel y cyfryw mae yn ei hanfod yn arwydd o risg. Ystyria'r Bwrdd y project yn ei gyfanrwydd a ffurfio barn o'r statws, sy'n ystyried pethau fel amseru ar gyfer cyflwyno arbedion, graddfa'r arbedion i'w cyflenwi, ac unrhyw risgiau a nodwyd gan y project (mae enghreifftiau yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â risg posibl i enw da a maint y newid gofynnol). Ym mis Mawrth 2016, roedd pum project gwasanaeth gwyrdd a saith oren, ac roedd gan bob un o'r chwe phroject corfforaethol statws oren.

Trwy hyfforddiant wedi'i dargedu, rydym yn gweithio ar gynyddu ein capasiti a gallu mewnol i ddylunio, darparu a rheoli gwasanaethau cyhoeddus mewn partneriaeth â darparwyr eraill. Mae cydweithwyr sy'n cymryd rhan mewn projectau Ail-lunio wedi derbyn hyfforddiant ar fodolau amgen, datblygu achosion busnes a chanllawiau BS11000 ar reoli a llywodraethu partneriaethau. Caiff hyn ei ategu gan ystod o brofiadau dysgu eraill, er enghraifft drwy gyswllt gyda sefydliadau eraill.

## Sut wnaethom ni fesur cynnydd?

Cerrig milltir allweddol project ar gyfer 2015/16	Dyddiad cwblhau targed 2015/16	Perfformiad 2015/16
Cael caniatâd y Cabinet i symud y gyfran gyntaf o brojectau ymlaen i gam 2.	28/2/15	Mae adroddiad strategaeth y Cabinet ar Ail-lunio Gwasanaethau yn nodi dyddiadau'r cerrig milltir dangosol ar gyfer datblygu ac adrodd ar brojectau adolygu gwasanaeth. Mewn gwirionedd, mae'r Cyngor wedi cydnabod bod gan y gwahanol brojectau o fewn Cyfran 1 y rhaglen nodweddion gwahanol ac maent angen dulliau ac amserlenni gwahanol i gymeradwyaeth ffurfiol a datblygu achos busnes. Lle bo hynny'n briodol,
Cwblhau cam 2 o'r gwaith datblygu achosion busnes ar gyfer y gyfran gyntaf o brojectau.	31/8/15	
Trefnu i'r Cabinet a'r pwyllgorau craffu gael golwg	30/11/15	

ar achosion busnes y gyfran gyntaf o brojectau.		ceisiwyd cymeradwyaethau i fynd ymlaen (er enghraifft cyflwyno ceir cyfun, creu Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir ayb.) Mewn achosion eraill, mae projectau wedi parhau i gyflenwi ac adrodd drwy'r trefniadau llywodraethu Ail-lunio Gwasanaethau ac i'r Cabinet fel rhan o adroddiadau chwarterol a'r broses o osod y gyllideb. Mae hyn wedi parhau i sicrhau cynnydd y project, a chaiff arbedion eu monitro'n rheolaidd.
Gweithredu'r projectau a gymeradwywyd.	31/7/16	

### **Astudiaeth achos 1: Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir**

Nid yn unig yr oedd creu gwasanaeth rheoleiddio a rennir yn ddymunol, yn cynnwys swyddogaethau iechyd yr amgylchedd, safonau masnach a thrwyddedu rhwng Cyngor Bro Morgannwg, Cyngor Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ond hefyd roedd yn hanfodol, ac roedd rhaid cydbwysu'r angen i sicrhau gwelliannau amlwg mewn gwytnwch gydag arbedion effeithlonrwydd. Mae rheoleiddio gwasanaethau yn ddisgyblaeth fach yn nhermau llywodraeth leol, ond mae hynny'n cuddio'r cymhlethdodau sydd o dan yr wyneb a'r effaith ar bobl pan fydd pethau'n mynd o chwith neu heb eu gorfodi'n effeithiol.

Mae'r dull gwasanaeth a rennir yn seiliedig ar ymdrin â risg rheoleiddio a galw ar draws y rhanbarth, yn ogystal ag ymateb i'r rheidrwydd gwleidyddol i weithio'n fwy cydweithredol. Bydd dull o'r fath yn sicrhau bod trigolion lleol yn elwa o well cyflenwad gwasanaethau ac y gwneir y defnydd gorau o adnoddau ar draws y cynghorau trwy nodi a gweithredu cyfleoedd ar gyfer integreiddio'r gwasanaethau yn strwythurol.

Crëwyd y gwasanaeth ar ôl nifer o flynyddoedd o gyflenwi arbedion ariannol sylweddol. Er bod hyn yn cydbwysu'r gyllideb, roedd angen sicrhau bod cadernid y gwasanaeth yn cael ei gynnal ac y ceir mynediad at ddisgyblaethau perthnasol.

Yn dilyn project sylweddol ar draws y tri Chyngor, gan gynnwys defnyddio Cronfa Cydweithredu Rhanbarthol Llywodraeth Cymru, cymerodd Cyngor Bro Morgannwg arno'i hun rôl yr awdurdod lletyol (cyflogi) ar gyfer y gwasanaeth yn 2015/16. Cwblhawyd proses cymathu staff a recriwtio ac mae'r gwasanaeth yn weithredol ar draws y tair ardal erbyn hyn, gan gofleiddio technoleg symudol arloesol a diwallu anghenion cwsmeriaid yn y rhanbarth. Rhannwyd y gwersi a ddysgwyd o'r project hwn ac maent yn hysbysu'r ffordd y mae gweithgarwch cydweithredol yn digwydd fel rhan o'r rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau.

**Meysydd Gwella**

**Terfyn  
amser**

1	Cyflwyno rhaglen ar ei newydd wedd o hyfforddiant rheoli projectau a contractau ar draws y Cyngor er mwyn sicrhau defnydd cyson o'r pecynnau cymorth corfforaethol ar gyfer project a rheoli contractau.	2016/17
2	Parhau i ddatblygu a gweithredu projectau Cyfran 1 a 2 a phrojectau ffrwd gwaith corfforaethol.	2016/17
3	Nodi projectau Ail-lunio Gwasanaethau Cyfran 3.	2016/17

## 3.2 Diogelu aelodau'r gymuned sy'n agored i niwed

### Canlyniad Blaenoriaeth Cynllun Corfforaethol

Mae dinasyddion Bro Morgannwg yn ffit, yn iach a chanddynt ganlyniadau cyfartal a thrwy gefnogaeth a mesurau diogelu priodol, mae aelodau mwyaf bregus ein cymuned yn macsimeiddio eu cyfleoedd mewn bywyd.

### Amcan Gwella 2

Helpu mwy o bobl i fyw'n annibynnol.

### Sut fydd llwyddiant yn edrych?

### Statws gwerthuso: CYFLAWNWYD

- Mae pobl yn cael eu cefnogi'n effeithiol i lefelau uwch o annibyniaeth.
- Mae pobl ar draws y Fro yn gallu cael gafael yn haws ar wybodaeth a gwasanaethau sy'n hybu iechyd corfforol ac emosiynol da.
- Mae pobl yn wybodus am fudd-daliadau a dewisiadau ariannol.

Rydym yn gwybod hyn oherwydd:

- Cafwyd buddsoddiad sylweddol pellach mewn gwasanaethau adsefydlu ac ailalluogi yn y Fro drwy drefniant partneriaeth gwasanaethau integredig gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth mae hyn yn golygu asesiad integredig a strwythur rheoli sy'n galluogi cyfeirio effeithiol, sgrinio a dyrannu gwasanaethau gofal yn gyflym ac mae hyn wedi galluogi mwy o unigolion i gyrraedd lefelau uwch o annibyniaeth. Mae dros 80% o bobl sy'n derbyn gwasanaeth wedi gwella'u lefelau o annibyniaeth.
- Rydym wedi parhau i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar dechnolegau cynorthwyol megis Teleofal sy'n galluogi pobl hŷn a gofalwyr i reoli'r effaith a'r risgiau sy'n gysylltiedig â salwch cronig, gan eu galluogi i aros yn eu cartrefi eu hunain yn ddiogel a chael gwell ansawdd bywyd.
- Drwy gefnogi mwy o ddefnyddwyr gwasanaeth gydag asesiadau ariannol a chynghor budd-daliadau, rydym wedi eu galluogi i wneud dewisiadau gwybodus, a chyfrannu at gynnal eu hannibyniaeth am gyfnod hwy.
- Trwy wasanaethau Cefnogi Pobl yr ydym yn helpu pobl sy'n fwy agored i niwed i gadw eu hannibyniaeth a gwella eu lles cyffredinol. Cyfwelwyd sampl o ddefnyddwyr gwasanaeth presennol a rhai yn y gorffennol a dywedodd 100% eu bod yn fodlon â'r gefnogaeth a ddarparwyd er mwyn eu galluogi i gynnal eu hannibyniaeth.

- Rydym yn parhau i wneud gwelliannau o ran amseroedd cyflenwi addasiadau cartref, er gwaethaf y cynnydd yn y galw, gan gyfrannu at drigolion yn gallu cadw eu hannibyniaeth am gyfnod hwy.

## **Beth wnaethom ni a beth yr ydym wedi ei gyflawni?**

Ble bynnag y bo'n bosibl, mae cefnogi annibyniaeth ac ailalluogi yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol y Cyngor. Mae strategaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol yng ngwasanaethau ailalluogi y Cyngor, gwasanaeth rhyddhau integredig, a Chanolfan Gyswilt Cwsmeriaid wedi cyfrannu at sicrhau bod llawer llai o bobl yn gyffredinol yn profi oedi wrth eu rhyddhau o'r ysbyty.

Agorwyd cynllun Gofal Ychwanegol cyntaf y Cyngor, Golau Caredig, gyda 100% yn manteisio ar y llety, gan ddarparu opsiwn newydd cyffrous i bobl hŷn yn y Fro, a'u galluogi i aros yn eu cymunedau tra'n sicrhau cymorth yn ôl yr angen. Bu'r adborth gan drigolion yn gadarnhaol iawn. Mae'r cyfleuster hwn, ynghyd â'r cyfleuster ychwanegol ym Mhenarth, wedi bod yn allweddol o ran darparu opsiwn tai cam i lawr.

Bu buddsoddiad sylweddol pellach mewn gwasanaethau adsefydlu ac ailalluogi, gan sicrhau bod mwy o unigolion yn cyrraedd lefelau uwch o annibyniaeth. Cyflenwyd hyn drwy drefniant partneriaeth integredig gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, golyga hyn asesiad integredig a strwythur rheoli sy'n galluogi cyfeirio effeithiol, sgrinio a dyrannu gwasanaethau gofal yn gyflym. Mae gan y gwasanaeth hanes ardderchog o gefnogi pobl i gael annibyniaeth lawn, gyda dros 80% o bobl sy'n derbyn gwasanaeth â lefelau gwell o annibyniaeth.

Rydym yn parhau i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar dechnolegau cynorthwyol megis Teleofal sy'n galluogi pobl hŷn a gofalwyr i reoli'r effaith a'r risgiau sy'n gysylltiedig â salwch cronig. Yn ystod 2015/16, cofrestrodd 330 o ddefnyddwyr newydd â'r gwasanaethau Teleofal, 21 yn fwy na'r llynedd. Ar ben hynny, mae nifer y gosodiadau a gwblhawyd o fewn un mis calendr hefyd wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn o 225 yn 2013/14 i 312 yn 2015/16. Mae'r cynnydd hwn yn y nifer sy'n manteisio a'r gyfradd gosod effeithlon wedi annog annibyniaeth a galluogi pobl hŷn i aros yn eu cartrefi eu hunain yn ddiogel a chyda gwell ansawdd bywyd.

Trwy'r Gronfa Cydweithio Rhanbarthol a'r Gronfa Gofal Canolraddol rydym wedi datblygu ymhellach y gwasanaeth a ddarperir gan y Tîm Adnoddau Cymunedol ac rydym yn parhau i gynyddu argaeledd gwasanaethau ailalluogi ac adsefydlu sy'n helpu pobl hŷn sy'n dioddef argyfwng. Mae projectau wedi cyfrannu at gyflenwi'r canlyniadau canlynol:

- Cyflawnwyd mwy o integreiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol gydag iechyd.
- Darparwyd gwasanaeth wedi'i ailgynllunio sy'n diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn well.
- Crëwyd mwy o weithio ar y cyd rhwng Bro Morgannwg a Chyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd y Brifysgol.
- Sicrhwyd bod dinasyddion yn gallu cadw eu hannibyniaeth am gyn hired â phosibl tra'n byw bywydau mwy cyflawn.

## Beth wnaethom ni a beth yr ydym wedi ei gyflawni?

- Datblygwyd gwell prosesau sydd wedi arwain at ddarparu gwasanaethau mwy effeithlon.
- Rheolwyd y galw am wasanaethau mewn ffordd mwy penodol, wedi'i dargedu.
- Cyflwynwyd mwy o gyd-gynhyrchu wrth ddylunio gwasanaethau gyda gwaith partneriaeth effeithiol i gynyddu dewis a rheolaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, gofalmwyr a dinasyddion.

Yn ychwanegol at well canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau, bu prosesau yn fwy effeithlon a datblygwyd modelau newydd o weithio sydd wedi cyfrannu at arbedion ac osgoi costau.

Mae gwaith yn parhau gyda'r Trydydd Sector a sefydliadau busnes i gyflenwi dull ataliol, cymunedol i gefnogi pobl hŷn i fyw mor annibynnol ag y bo modd, gan gynnwys pobl sydd â salwch sy'n gysylltiedig â dementia. Cwblhawyd y cynigion datblygu ar gyfer Rondel House gyda newidiadau cynyddol ar y gweill i wella'r ganolfan i'w galluogi i gefnogi pobl â dementia yn well. Rhagwelir y bydd cynigion cynlluniedig, yn y tymor hir, yn gwella'r math o gefnogaeth sydd ar gael, ac yn darparu gofal seibiant a chymorth addas.

Rydym wedi sefydlu timau integredig Gofal Cymdeithasol ac wedi asesu iechyd a rheoli gofal i'r holl wasanaethau i oedolion mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, mae hyn yn golygu asesiad integredig a strwythur rheoli sy'n galluogi cyfeirio effeithiol, sgrinio a dyrannu gwasanaethau gofal yn gyflym. Mae'r Grant Cronfa Gydweithredu Rhanbarthol (RCF) wedi bod yn amhrisiadwy o ran caniatáu i ni i dreialu modelau newydd o weithio sy'n dwyn ynghyd adnoddau iechyd, gofal cymdeithasol a thai. Mae'r project Gwasanaethau Ailalluogi Estynedig yn dangos y cynnydd a wnaed ers cydleoli staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn 3 lleoliad yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Hyd yma, mae'r gwaith wedi helpu i baratoi ar gyfer ehangu'r gwasanaeth hwn, gan gydweithio ar draws y rhanbarth a chysylltu â'r adnoddau a ddarperir drwy'r Buddsoddiad Datblygu Gofal Sylfaenol a ddefnyddiwyd i gynyddu capasiti o ran yr oriau sydd ar gael yn y Timau Adnoddau Cymunedol. Dangosodd arolygiad sylfaenol dirybudd diweddar gan Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Orllewin y CRT yng Nghaerdydd (Mawrth 2016) bod anghenion pobl yn cael eu hasesu ar y cyd gan yr asiantaeth (staff gofal cartref y gwasanaethau cymdeithasol) ac aelodau o'r tîm gofal iechyd. Hefyd daeth yr arolygydd i'r casgliad y bydd 'pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn parhau i fod yn iach oherwydd bod eu hanghenion yn cael eu rhagweld a chânt eu galluogi i gael mynediad at gymorth arbenigol. Mae hyn oherwydd bod yr asiantaeth yn gweithio'n agos gyda thimau gofal iechyd i ddarparu cymorth i bobl yn eu cartrefi.' Yn ystod 2015/16, gwnaed dros £102K o arbedion drwy ddadansoddiad o'r adolygiad therapi o achosion cymhleth (40) gan arwain at ostyngiad yng nghostau pecynnau gofal (cynilion ac osgoi costau). Yn y Fro, cynorthwywyd dros 80% o bobl yn ôl i annibyniaeth lawn gyda chefnogaeth yn cael ei darparu am hyd at 6 wythnos, neu'n hirach lle bo angen.

Mae'r Gwasanaethau Estynedig i Bobl ag Project Anableddau Dysgu, wedi canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau i hyrwyddo'r agenda gwasanaethau ataliol sy'n rhan allweddol o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Bellach mae'r gwasanaeth yn cynnig ystod o gyfleoedd dydd, gan ailffocysu darpariaeth gwasanaethau dydd mewnol i gefnogi pobl sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth a heriol a darparu gwybodaeth a chyngor i bobl ynghylch y gwasanaethau sydd ar gael. Fel rhan o gefnogi unigolion i gael mynediad at ystod ehangach o gyfleoedd

## Beth wnaethom ni a beth yr ydym wedi ei gyflawni?

cynhwysol, rydym wedi cyflwyno Strategaeth Cyfleoedd Dydd. O ganlyniad, addasir trefniadau gofal unigol i hwyluso gwaith, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden fel rhan o wasanaethau cyffredinol.

Yn ystod 2015/16 darparodd y gwasanaeth Cefnogi Pobl amrywiaeth o wasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai i alluogi pobl sy'n agored i niwed gadw eu hannibyniaeth a gwella eu lles cyffredinol. Canolbwyntiodd y gwaith ar gefnogi cwsmeriaid i wella eu diogelwch; gweithgarwch economaidd; hunan-ddatblygu; lechyd ac atal digartrefedd. Mae 2,543 o unedau o gefnogaeth a ariennir gan y Rhaglen Cefnogi Pobl ym Mro Morgannwg, gan gynnwys hostel ar gyfer goroeswyr cam-drin domestig, lle mae defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn cefnogaeth ddwys i'w galluogi i symud i mewn i lety hunangynhwysol eu hunain. Cyflenwir gwasanaeth iechyd meddwl dwysedd uchel ar y cyd â'r Gwasanaeth Iechyd i integreiddio cleientiaid iechyd meddwl yn ôl i mewn i'r gymuned ac i ennill sgiliau i fyw'n annibynnol gyda chefnogaeth cynllun gofal a thriniaeth. Darperir gwasanaethau tai â chymorth ar gyfer cleientiaid ifanc ac agored i niwed, gan gynnwys y rhai sy'n gadael gofal, sy'n cael eu cynorthwyo i ddysgu sgiliau bywyd ac i gael mynediad at hyfforddiant a gwaith.

Yn ystod yr adolygiad gwasanaethau cefnogi pobl a gynhaliwyd yn 2015/16, cyfwelwyd 20% o ddefnyddwyr gwasanaeth presennol a blaenorol. O'r 49 o ddefnyddwyr gwasanaeth a gyfwelwyd, adroddodd 100% foddhad gyda'r gefnogaeth a ddarparwyd er mwyn eu galluogi i gynnal eu hannibyniaeth. Hefyd defnyddiwyd adolygiadau gwasanaeth i lywio gwelliannau mewn gwasanaethau, sydd wedi arwain at gomisiynu nifer o gynlluniau peilot gwasanaeth yn 2016/17, rhai ohonynt mewn partneriaeth. Mae'r projectau sydd ar y gweill yn cynnwys 6 o unedau cefnogaeth, gyda thai wasgaredig sy'n niwtral o ran rhywedd ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig. Dyma'r tro cyntaf y bydd y rhaglen yn gallu cynnig cymorth yn y Fro i ddynion sy'n dioddef cam-drin domestig ac mae'r gwasanaeth hwn allan i dendr drwy Gwerthwchi Gymru. Rydym hefyd yn bwriadu penodi sefydliad cefnogol i ddarparu gwasanaeth cymorth sy'n gysylltiedig â thai i gleientiaid Teuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. Bydd hyn yn gwella canlyniadau i gwsmeriaid drwy ddarpariaeth uniongyrchol mewn un lleoliad, sy'n golygu y bydd cwsmeriaid yn cael mynediad ar unwaith yn hytrach na mynd ymlaen i restr aros drwy broses gyfeirio.

## Faint wnaethom ni?

Dangosydd	Perfformiad 2013/14	Perfformiad 2014/15	Targed 2015/16	Perfformiad 2015/16	Cyfartaledd Cymru 2015/16	Statws Perfformiad	Cyfeiriad teithio
Achosion Teleofal sy'n weithredol ar hyn o bryd:							
Tele V	200	634	650	730		😊 <sup>1</sup>	↑↓

<sup>1</sup> Statws Perfformiad: perfformiad ar darged neu'n uwch na'r targed 😊; perfformiad o fewn 10% o'r targed 😐; perfformiad yn methu'r targed o fwy na 10% ☹.

Tele V+	100	135	120	132		😊	↓
Y nifer o becynnau Gofal Cartref a ddarparwyd am lai na 5 awr yr wythnos.	226	198	198	175		😞	↓
Y nifer o becynnau Gofal Cartref a ddarparwyd am 5-9 awr yr wythnos.	268	243	243	245		😊	↑
Y nifer o becynnau Gofal Cartref a ddarparwyd am 10-19 awr yr wythnos.	390	402	402	424		😊	↑
Y nifer o becynnau Gofal Cartref a ddarparwyd am fwy na 20 awr yr wythnos.	187	202	202	217		😊	↑
Cyfanswm y becynnau Gofal Cartref a ddarparwyd.	1071	1045	1045	1061		😊	↑
Nifer y defnyddwyr teleofal newydd.	250	309	309	330		😊	↑
Nifer y defnyddwyr gwasanaeth sy'n oedolion sy'n derbyn taliad uniongyrchol.	122	143	143	175		😊	↑
SS/M017 Nifer y bobl dros 65 oed sy'n gleientiaid y Gwasanaethau Cymdeithasol y darperir cyngor budd-daliadau iddynt.	1942	884	884	1585		😊	↑

### Pa mor dda wnaethom ni ef?

Dangosydd	Perfformiad 2013/14	Perfformiad 2014/15	Targed 2015/16	Perfformiad 2015/16	Cyfartaledd Cymru 2015/16	Statws Perfformiad	Cyfeiriad teithio
Nifer y diwrnodau calendr a gymerwyd i gyflenwi Grant Cyfleusterau Anabl ar gyfer oedolion.	268 diwrnod	199 diwrnod	195	177		😊	↑

<sup>2</sup> Mae cyfeiriad teithio yn cymharu perfformiad 2015/16 gyda pherfformiad y flwyddyn flaenorol (2014/15) ar gyfer pob mesur lleol. Cymharwyd mesurau cenedlaethol â pherfformiad cyfartalog Cymru 2015/16, lle maent ar gael. Dengys y saeth i fyny bod perfformiad y Fro yn uwch na chyfartaledd Cymru, tra bo saeth at i lawr yn dangos bod perfformiad y Fro yn is na chyfartaledd Cymru.



Pa mor dda wnaethom ni ef?							
Dangosydd	Perfformiad 2013/14	Perfformiad 2014/15	Targed 2015/16	Perfformiad 2015/16	Cyfartaledd Cymru 2015/16	Statws Perfformiad	Cyfeiriad teithio
Nifer y bobl hŷn (dros 65 oed) fesul 1,000 o'r boblogaeth a oedd yn cael cymorth yr awdurdod i fyw mewn cartref gofal ar 31 Mawrth.	14.74	15.70	16	14.64	18.02	😊	↑
Y gyfradd trosglwyddo gofal gohiriedig am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed.	8.17	4.55	4.50	4.70	4.87	😐	↑
Cyfradd fesul 1,000 o'r boblogaeth o bobl dros 65 oed a gafodd asesiad UA.	43.60	31.52	42	46.7		😊	↑
Cyfradd fesul 1,000 o'r boblogaeth o bobl dros 65 oed a gafodd asesiad OT.	32.40	31.96	33	26.81		😞	↓
Nifer y gosodiadau teleofal a gwblhawyd o fewn un mis calendr.	225	283	283	312		😊	↑
Nifer y diwrnodau calendr a gymerwyd i gyflenwi Grant Cyfleusterau Anabl ar gyfer oedolion.	283.75	198.61	195	178	241	😊	↑
Nifer y diwrnodau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i gyflenwi gwaith addasu cost isel mewn anheddau preifat lle na ddefnyddir y broses Grant Cyfleusterau Anabl	58.61	61.91	61	57.87		😊	↑

A oes unrhyw un yn well ei fyf?							
Dangosydd	Perfformiad 2013/14	Perfformiad 2014/15	Targed 2015/16	Perfformiad 2015/16	Cyfartaledd Cymru 2015/16	Statws Perfformiad	Cyfeiriad teithio
Gostyngiad canrannol mewn oriau gofal cartref a oedd eu hangen ar ôl cyfnod o ailalluogi gan VCRS.		29	30	34		😊	↑
Canran y cwynion a dderbyniwyd gan neu ar ran pobl dros 65 oed, sydd wedi arwain at addasu	75	100	50	78.95		😊	↓

neu wella gwasanaethau.							
Canran y cyfeiriadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd lle mae'r risg wedi ei reoli.	100	100	100	100	97	☺	↔
Canran y cleientiaid a gefnogir yn y gymuned sy'n derbyn 20 awr neu fwy ofal â chymorth yr wythnos.	18.10	19.30	30	20.45		☺	↑
Canran y bobl sydd wedi derbyn Grant Cyfleusterau Anabl sy'n teimlo bod y cymorth wedi eu gwneud yn fwy diogel ac yn fwy annibynnol yn eu cartref eu hunain.	97.73	96.30	97	97		☺	↔

## Yr hanes tu ôl i'n perfformiad

Mae nifer o drigolion y Fro sydd wedi manteisio ar Deleofal wedi parhau i gynyddu ers 2013/14, gan gyfrannu at flaenoriaeth y Cyngor i gynyddu byw'n annibynnol. Eleni, cofrestrodd 330 o ddefnyddwyr newydd â'r gwasanaethau Teleofal, 21 yn fwy na'r llynedd. Ar ben hynny, mae nifer y gosodiadau a gwblhawyd o fewn un mis calendr hefyd wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn o 225 yn 2013/14 i 312 yn 2015/16. Mae'r cynnydd hwn yn y nifer sy'n manteisio a'r gyfradd gosod effeithlon wedi annog annibyniaeth a galluogi pobl hŷn i aros yn eu cartrefi eu hunain yn ddiogel a chyd a gwell ansawdd bywyd.

Eleni, derbyniodd 46.07 o bobl dros 65 oed (cyfradd fesul 1,000 o'r boblogaeth) Asesiad Unedig (AU) yn erbyn targed o 42, cynnydd amlwg ar berfformiad y llynedd o 31.52. Mewn perthynas ag asesiadau Therapi Galwedigaethol (OT), dirywiodd y perfformiad ers y llynedd ac nid yw wedi cyrraedd y targed, fodd bynnag, bydd y targed a osodir gan y Cyngor bob amser yn heriol oherwydd bod y boblogaeth yn cynyddu yn barhaus yn y grŵp oedran 65 oed. Eleni gwelwyd 579 o bobl ychwanegol yn y demograffig oedran hwn, sydd wedi cael effaith negyddol ar berfformiad cyffredinol ar gyfer y flwyddyn.

Cynyddodd ymweliadau a chysylltiadau gyda defnyddwyr gwasanaeth ar gyfer asesiadau ariannol a budd-daliadau cyngor o'r llynedd, gan adlewyrchu'r galw am y gwasanaeth, ac rydym wedi sicrhau bod unigolion wedi cael ymateb amserol wrth ofyn am gymorth o ran cyngor ariannol a gwasanaethau Teleofal. Yn ystod 2015/16, cafodd 1,585 o gleientiaid y gwasanaethau cymdeithasol 65 oed a throsodd gyngor budd-daliadau, sef cynnydd o 44% ar berfformiad y llynedd, sydd wedi sicrhau bod pobl yn cael gwybodaeth dda am fudd-daliadau a dewisiadau ariannol.

Mae'r Cyngor yn parhau i wneud gwelliannau o ran darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (GCA) i drigolion. Mae'r amser cyflenwi ar gyfartaledd wedi parhau i wella dros y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i'r gwelliannau hyn i'r gwasanaeth, sydd wedi cael eu llywio gan farn y

## Yr hanes tu ôl i'n perfformiad

defnyddwyr gwasanaethau. Ar gyfartaledd, mae gwaith yn cael ei gwblhau mewn cartrefi cleient o fewn chwe mis, o fewn cyfartaledd o 178 diwrnod o'u cyswllt â'r Cyngor, a thrwy hynny ein gosod ymhlith y perfformwyr chwarter uchaf yng Nghymru, yn y 4<sup>ydd</sup> safle. Roedd y perfformiad eleni yn welliant pellach ar ffigwr y flwyddyn flaenorol o 199 diwrnod. Yn ystod 2015/16, gwelodd y gwasanaeth GCA gynnydd yn y galw, ond er gwaethaf y cynnydd hwn a llwyth gwaith cynyddol, mae'r tîm wedi dal i leihau ei amser cyflenwi a chadw lefel uchel o foddhad gan ei gleientiaid.

Mae nifer y defnyddwyr gwasanaeth sy'n oedolion sy'n derbyn taliad uniongyrchol wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn o 122 ddefnyddwyr gwasanaeth yn 2013/14 i 175 yn 2015/16. Mae hyn yn dangos bod y gwaith a wnaed gyda defnyddwyr y gwasanaeth ynghyd â'r buddsoddiad mewn sefydliad cymorth taliadau uniongyrchol a gweithredu grŵp project taliadau uniongyrchol i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar daliadau uniongyrchol, wedi cael effaith gadarnhaol.

Cafwyd cynnydd bach yn nifer y bobl sy'n cael eu cadw'n hirach yn yr ysbyty tra bod trefniadau gofal yn cael eu gwneud o 4.55 i 4.70, ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru (4.87). Mae lleihau'r oedi hwn yn parhau i fod yn faes ffocws i'r Cyngor ac mae gwell trefniadau fel gwell Gwasanaeth Cymunedol Adnoddau, y Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid, a'n dull integredig o ryddhau cleifion o'r ysbyty sy'n cynnwys nifer o Fyrddau Iechyd Lleol, yn dechrau cael effaith gadarnhaol.

Mae becynnau gofal cartref yn cael eu gyrru gan anghenion defnyddwyr gwasanaethau, a nodwyd drwy asesiad. Yn ystod 2015/16 roedd angen mwy o gymorth gan ddefnyddwyr gwasanaeth ac felly darparwyd mwy o becynnau gofal cartref am fwy na 5 awr yr wythnos. Darparwyd dros 1061 o becynnau gofal cartref i gefnogi trigolion y Fro, o'i gymharu â 1045 yn y flwyddyn flaenorol.

## Astudiaeth achos 1: Reach yn helpu i gynnal annibyniaeth

Pan gyfeiriwyd A at Reach roedd yn gyrru ei char heb dreth nac yswiriant, ac nid oedd y car yn ddiogel i fod ar y ffordd. Roedd A mewn perygl o golli ei chartref, ni allai fforddio talu ei had-daliadau morgais, roedd ganddi hefyd lawer o ddyledion, a oedd yn achosi llawer o ofid. Nid oedd gan A lawer o offer cegin mewn cyflwr da, ac ni allai fforddio prynu bwyd yn rheolaidd; ar ben hyn, roedd materion yn ymwneud ag eiddo A ac roedd lechyd yr Amgylchedd yn ymwneud â'r mater ar ôl derbyn cwynion gan gymdogion. Gyda chymorth a chefnogaeth gan Reach, galluogwyd A i ail-negodi ei thaliadau morgais er mwyn talu ei hôl-ddyledion. Helpodd Reach A i wneud cais am fudd-daliadau cymwys ac mae hi bellach yn derbyn £150 yn fwy bob wythnos. Mae wedi ennill dwy stôn o bwysau ac mae hi'n edrych a theimlo'n llawer iachach.

Helpodd Reach A i wneud cais am grantiau i gwblhau rhywfaint o gynnal a chadw eiddo hanfodol, sydd wedi cael ei wneud. Mae A hefyd wedi cael offer cegin newydd sy'n ei galluogi i olchi ei dillad a storio bwyd yn ddiogel. Mae hefyd wedi prynu car sy'n ddiogel ar y ffordd ac mae'r holl faterion lechyd yr Amgylchedd wedi cael eu datrys.

## Astudiaeth achos 2: Solas yn darparu cefnogaeth tenantiaeth ar y cyd â'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol

Cyfeiriwyd Mrs B am gymorth oherwydd materion yn ymwneud â'i symudedd a oedd yn dirywio ac addaswydd ei heiddo. Cefnogodd Tai Taf Mrs B i symud i eiddo newydd sy'n gweddu i'w anghenion. Derbyniodd Mrs B £2,000 gan y cynllun cymhelliant i symud a hefyd ôl daliad o £7,000 yn sgil cais Premiwm Anabledd Difrifol.

Mae Mrs B yn ddiolchgar iawn am y cymorth a'r gefnogaeth a gafodd gan Tai Taf ac mae bellach yn fwy hyderus ac yn hapusach nag y bu ers amser hir.

### **Astudiaeth achos 3: Therapi Galwedigaethol Estynedig**

Mae Mrs W yn byw gyda'i mab a'i deulu. Cafodd Mrs W anaf i'r ymennydd sydd wedi arwain at ddiagnosis o dementia. Yn dilyn eu rhyddhau o'r ysbyty yn dilyn cwmp, roedd Mrs W yn brwydro i ymgysylltu'n llawn â throsglwyddiadau ac roedd angen ei hadolygu o ran y nifer o ofalwyr oedd eu hangen i'w chefnogi.

#### Beth a wnaethom

Yn yr asesiad, gwelwyd bod Mrs W yn gallu ymgysylltu'n llawn a chymryd rhan gyda chefnogaeth gofawr ar sail un i un ac roedd yn gwbl gydweithredol i anogaeth trwy gydol y dasg. Mae gan Mrs W ddysffasia mynegiannol felly ni all gofawr sy'n ei chynorthwyo ddibynnu ar ymatebion geiriol yn unig. Mae Mrs W yn elwa o gael awgrymiadau gweledol ar yr un pryd ag anogaethau geiriol. Gwellodd throsglwyddiadau Mrs W ac mae ganddi fwy o hunanhyder oherwydd darpariaeth offer i godi uchder ei gwely ac addasu uchder ei chomôd. Hefyd gwnaed argymhelliad i brynu bwrdd cantilifer i alluogi Mrs W i gymryd rhan mewn gweithgareddau o'i blaen, gan ganiatáu iddi gyfranogi mewn gweithgareddau gyda'i theulu. Holodd y teulu hefyd am brynu cadair uchel er mwyn iddi allu cymryd rhan lawn mewn gweithgareddau teuluol yn y cartref teuluol. Gwnaed argymhelliad ychwanegol i Weithiwr Cymdeithasol ei hasesu o ran mynediad i'r Ganolfan Ddydd er mwyn rhoi cyfle iddi gymdeithasu gydag eraill yn annibynnol o'i theulu a hefyd i'r teulu gael egwyl rheolaidd gan fod yr wyrion o oedran ysgol. *[Cynnydd oriau gwasanaeth Ataliol pe byddai gofal dwylo dwbl wedi cael ei argymhell. Arbediad cost £207.03 yr wythnos/ £10765.56 y flwyddyn]*

#### Adborth defnyddiwr gwasanaeth/ dinesydd

Mae Mrs W yn llawer hapusach gyda'r trefniadau newydd gan fod ei hyder wedi cynyddu oherwydd yr offer a gyflenwyd i addasu ei gwely a'i chomôd. Mae hi hefyd yn gallu ymgysylltu gyda'i theulu mewn ffordd llawer mwy cyflawn, a bydd hyn yn cynyddu pan brynir y gadair uchel.

### **Astudiaeth achos 4: Project Ailalluogi Estynedig**

Mae Mrs I yn wraig fywiog 78 oed sydd wedi treulio 6 mis yn gwella ar ôl gwaeledd mawr.

Ni allai Mrs I godi am nifer o fisoedd, ond wrth i'w hiechyd wella, daeth yn fwyfwy negyddol am adael y tŷ gan fod goleddf ar ei llwybr o'r tŷ. Gyda'i symudedd cyfyngedig, teimlai na fyddai hi fyth yn gallu ymdopi â'r llwybr oherwydd roedd yn dychmygu'r oleddf yn mynd yn fwyfwy serth.

### Beth a wnaethom

Roedd gweithiwr achos Gwasanaeth Cefnogi Cymunedol y Groes Goch Brydeinig wedi bod yn cefnogi Iris ers peth amser ac wedi datblygu perthynas o ymddiriedaeth dda â hi. Awgrymodd y dylai hi ac Iris fynd i edrych ar y llwybr mewn gwirionedd a chytunodd Iris i hynny. Pan welodd Iris y llwybr, dywedodd "mewn gwirionedd, nid yw'n agos mor ddrwg ag yr oeddwn yn ei gofio. Yr wyf yn siŵr y gallaf reoli hwn".

### Sut mae'r person yn well ei fyd

O ganlyniad i'r cymorth a roddwyd i Mrs I mae ei hyder wedi cynyddu ac mae hi yn awr yn fwy na hapus i adael ei chartref i ymgymryd â thasgau bob dydd ac ymweld â theulu a ffrindiau. Mae hi hefyd yn gwybod ei bod yn gallu galw ar gymorth y gweithiwr cymorth, y mae hi wedi datblygu perthynas dda â hi ac yn ymddiried ynddi, pe bai'r angen neu broblem yn codi.

Mae hon yn enghraifft dda o sut mae'r staff a gwirfoddolwyr Gwasanaeth Cefnogi Cymunedol y Groes Goch Brydeinig yn helpu pobl i oresgyn rhwystrau sy'n eu helpu i ailadeiladu hyder, lleihau unigedd a gwella byw'n annibynnol.

## **Astudiaeth achos 5: Project Gwasanaethau Estynedig i Bobl ag Anawsterau Dysgu**

Mae Mr B yn ddyn yn ei 40au sy'n byw ym Mro Morgannwg. Cyn ei ymgysylltiad â'r Tîm Cefnogi Cymunedol, roedd Mr B yn byw ar ei ben ei hun yn ei dŷ ei hun, yr oedd wedi ei etifeddu ar ôl i'w fam farw. Roedd y tŷ mewn cyflwr gwael a dioddefodd Mr B o drosedd "cyfaill", a oedd yn cynnwys cam-drin ariannol.

Roedd hyder Mr B yn isel, collodd ei swydd, roedd yn yfed alcohol yn aml a dechreuodd esgeuluso ei hunanofal. Yn dilyn asesiad o anghenion, cymerodd y Friendly Trust ddiddordeb yn yr achos, gan helpu Mr B i reoli ei arian, a oedd yn ei amddiffyn rhag camfanteisio ariannol pellach. Yn y pen draw, gwerthodd ei dŷ a symud i fflat modern mewn cyflwr da mewn ardal arall yn y sir, gan ei symud oddi wrth y risgiau penodol a oedd yn gysylltiedig â'i gyfeiriad blaenorol.

Dechreuodd Mr B fynychu gwasanaeth dydd mewnol a gynlluniwyd i gynnig cyfleoedd gwaith iddo, am 3 diwrnod yr wythnos. Cynyddodd ei hyder yn fawr dros gyfnod o amser, ac yn ystod adolygiad diweddar, roedd yn amlwg bod ei fywyd cartref bellach wedi setlo a bod ei sefyllfa ariannol yn cael ei rheoli'n dda. Teimlai Mr B yn barod i ystyried dewisiadau eraill i'w wasanaeth dydd, gyda'r bwriad yn y pen draw o gyrraedd y nod o fynd yn ôl i waith cyflogedig. Roedd Mr B yn hapus i symud ymlaen i "roi cyfle i rywun arall" wirfoddoli, gan ei fod wedi ei helpu ef gymaint.

Bu Mr B yn cael cymorth am 4 awr yr wythnos gyda glanhau a siopa am fwyd. Daeth yn amlwg nad oedd yr oriau hyn yn cael eu defnyddio'n llawn. Er nad oedd ei anghenion yn newid, roedd ei amgylchiadau wedi sefydlogi, roedd wedi rhoi'r gorau i yfed alcohol, ac roedd gallu rheoli ei gyllid yn golygu ei fod yn llai agored i niwed mewn sawl ffordd a bodloni ei anghenion asesedig. Yn dilyn adolygiad cynhwysfawr, gwelwyd felly nad oedd Mr B yn cwrdd â'r meini prawf critigol neu sylweddol ar gyfer gwasanaethau gan y Tîm Cefnogi Cymunedol.

Cyfeiriwyd Mr. B at Fiwro Gwirfoddolwyr y Fro, gyda golwg ar wirfoddoli ar brojectau cymunedol lleol. Mae hefyd yn mwynhau mynychu

gweithgareddau cymdeithasol rheolaidd drwy Bobl y Fro yn Gyntaf. Roedd Mr B eisiau cymorth parhaus mewn meysydd targed, er enghraifft, anogaeth lefel isel i gynnal gofal da personol, bwyta'n iach, tasgau yn y cartref a chyllid. Felly dewisodd Mr B hunan-ariannu swm llai o ofal cartref, ac mae ei gefnogaeth gan y Friendly Trust yn parhau.

Petai anghenion neu amgylchiadau Mr B yn newid, cafodd ei gynghori i gysylltu â'r tîm i drafod, ac efallai y bydd angen ailasesiad.

## Meysydd Gwella

## Terfyn amser

1	Datblygu'r defnydd o Daliadau Uniongyrchol fel dewis amgen i ofal a drefnir gan y Cyngor.	2016/17
2	Cynyddu'r defnydd o ofal cartref ailalluogi i helpu pobl gyflenwi eu potensial ar gyfer annibyniaeth a lleihau'r angen am ofal a drefnir gan y Cyngor	2016/17
3	Adolygu goblygiadau uno ffrydiau ariannu ar gyfer rhaglenni tlodi a noddir gan Lywodraeth Cymru a'r effaith ar wasanaethau a ariennir gan Gefnogi Pobl.	2016/17

### 3.3 Cynnal cymunedau ffyniannus

#### Canlyniad Blaenoriaeth Cynllun Corfforaethol

Mae gan Fro Morgannwg economi sy'n ffynnu ac sy'n cynnal cymunedau cynaliadwy a chydlynol.

#### Amcan Gwella 3

Cynnal a gwella canol trefi Bro Morgannwg er lles trigolion, ymwelwyr a busnesau

#### Sut fydd llwyddiant yn edrych?

- Mwy o fywiogrwydd a hyfywedd canol trefi.
- Llai o leoedd gwag mewn unedau masnachol.
- Mwy o fuddsoddi mewn adeiladau yng nghanol y dref, wedi'i hwyluso gan gefnogaeth grant.
- Gwell argaeledd o gartrefi priodol.
- Amgylchedd adeiledig wedi gwella.
- Busnesau yn fwy hyderus.
- Mwy o ffyniant.
- Delwedd canol trefi wedi gwella.

#### Statws gwerthuso: CYFLAWNWYD

Rydym yn gwybod hyn oherwydd:

- Trwy amrywiol fentrau gan gynnwys y rhai a gefnogir gan grantiau llywodraeth, yr ydym yn cynyddu'r buddsoddiad yng nghanol ein trefi i wella'r amgylchedd adeiledig er mwyn eu gwneud yn ddewisiadau mwy ymarferol a deniadol i fusnesau, trigolion ac ymwelwyr
- Rydym yn parhau i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gynyddu atyniad y Fro fel cyrchfan i ymwelwyr a thwristiaeth, gan weithio mewn partneriaeth ar lefel ranbarthol a lleol. Yn ôl ymchwil twristiaeth STEAM, tyfodd twristiaeth yn y Fro o 5% yn 2015 gyda nifer yr ymwelwyr o fwy na 3.96 miliwn, cynnydd o 5.6% ar y flwyddyn flaenorol. Cynyddodd nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn a gefnogir gan dwristiaeth i 2,947, cynnydd o 5.7% ar y flwyddyn flaenorol. Cyfanswm effaith economaidd twristiaeth yn y Fro oedd £219.71 miliwn, cynnydd o 4.7% ar y flwyddyn flaenorol.
- Mae cyfraddau unedau gwag yn ein holl brif ganolfannau trefi wedi gwella, gan ddangos hyder busnesau yng nghanol ein trefi.



## Beth wnaethom ni a beth yr ydym wedi ei gyflawni?

Mae cynnydd da yn cael ei wneud yn ein gwaith gyda rhanddeiliaid allweddol yng nghanol trefi y Fro ar weithredu'r Fframwaith Canol Trefi. Mae hyn wedi cyfrannu at fwy o fywiogrwydd canol tref, gan gynnig amgylchedd gwell i fusnesau, trigolion ac ymwelwyr. Yn ystod 2015/16, gwellodd cyfraddau unedau gwag ym mhob un o'n priif ganol trefi, gan ddangos ymhellach hyder busnesau yng nghanol ein trefi.

Mae datblygiadau allweddol yn y Bont-faen yn cynnwys gwell deunyddiau dehongli yng nghanol y dref i arddangos nodweddion treftadaeth y dref yn ogystal â'i chyfleusterau, gan gynnwys caffis, bwytai a siopau.

Sicrhawyd arian o dan raglen ariannu Partneriaeth Canol y Dref Llywodraeth Cymru hefyd, sydd wedi galluogi'r Cyngor i weithio mewn partneriaeth â Chyngor Tref Penarth ar Bicnic Penarth i godi proffil y dref a chyda Grŵp Digwyddiadau Llanilltud Fawr a Chyngor Tref Llanilltud Fawr ar raglen reolaidd o ddigwyddiadau canol tref. Mae'r arolygon siopa a gynhaliwyd gan y Cyngor yn dangos cyfradd unedau gwag ar gyfer Lanilltud Fawr o 3.2% yn 2014 a chyfradd unedau gwag o 1.1% yn 2015. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad mewn cyfraddau unedau gwag o 2.1% ers cyflwyno cyllid Partneriaeth Canol y Dref i'r dref. Arweiniodd mwy o weithio mewn partneriaeth gyda grwpiau yng nghanol tref Llanilltud Fawr at ailsefydlu Siambr Fasnach y dref. Yn yr un modd, gwellodd cyfradd unedau gwag yng nghanol tref Penarth o 4.2% yn 2014 i 3.1% yn 2015. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad mewn cyfraddau unedau gwag o 1.1% ers cyflwyno cyllid Partneriaeth Canol y Dref i Ganol Tref Penarth. Mae nifer o fusnesau ym Mhenarth wedi ehangu neu newid adeiladau sy'n dangos mwy o hyder yn yr ardal. Mae llwybr Igam Ogam rhwng Marina Penarth a chanol y dref wedi cael ei gwblhau er mwyn denu ymwelwyr i'r dref.

Cyflwynwyd gwelliannau ffisegol mawr i Heol Holton, megis ailosod blaen siopau a gwelliannau i adeiladau, gan gyfrannu tuag at well amgylchedd a delwedd gyffredinol. Buom yn llwyddiannus yn sicrhau £892K gan Lywodraeth Cymru i sefydlu cynllun benthyca canol trefi, gan ein galluogi i ddarparu benthyciadau i drydydd partiön yng Nghanolfan Fanwerthu Ardal y Barri (Heol Holton, Y Stryd Fawr a Broad Street) i gynyddu buddsoddiad yn adeiladau canol y dref. Bydd y cyfnod adeiladu nifer o gynlluniau yn cychwyn yn ystod 2016/17.

Daeth y gwaith i fwrw ymlaen ag Ardal Wella Busnes Penarth i ben, oherwydd fod y bleidlais wedi ei gwrthod gan fanwerthwyr. Fodd bynnag, mae Grŵp Momentwm Penarth bellach wedi ei sefydlu (sy'n cynnwys y Cyngor Tref, Cyngor Bro Morgannwg a phartiön a sefydliadau eraill sydd â diddordeb) i gydlynu gweithgareddau i gynyddu hyfywedd a chynnaladwyedd y canol y dref.

Trwy'r Cynllun Rheoli Cyrchfan, rydym yn parhau i weithio gyda'n partneriaid allweddol i wneud y mwyaf o ddengarwch y Fro fel cyrchfan i ymwelwyr a thwristiaeth. Enghraifft ar lefel ranbarthol yw'r project 'masnach teithio' gyda nifer o Gynghorau yn Ne Ddwyrain Cymru. Yn ogystal, rydym wedi gweithio gyda rhanddeiliaid masnach mewn rolau Llysgennad Twristiaeth, fel lleoliadau ar gyfer gwybodaeth i dwristiaid, ac mae'r partneriaid hyn yn cynghori ac yn goruchwyllo'r broses o weithredu'r Cynllun Rheoli Cyrchfan gyda ni.

Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd digwyddiadau twristiaeth o ran hwyluso datblygiad economaidd ac mae wedi buddsoddi mewn creu a



## Beth wnaethom ni a beth yr ydym wedi ei gyflawni?

chynnal rhaglen o ddigwyddiadau blynyddol er mwyn denu mwy o ymwelwyr tu allan i'r tymor i ardaloedd twristiaeth y Fro. Cafwyd blwyddyn lwyddiannus arall o ddigwyddiadau yn 2015, gan sefydlu Bro Morgannwg fel cyrchfan i ymweld â hi ar gyfer digwyddiadau trwy gydol y flwyddyn. Mae'r Tîm Twristiaeth a Digwyddiadau yn cael eu boddi gan geisiadau am i'r Fro fod yn gyrchfan ar gyfer digwyddiadau. Bydd hyn yn cefnogi ymestyn y tymor ymhell y tu hwnt i'r gwyliau haf traddodiadol fel y digwyddodd mewn blynyddoedd blaenorol. Yn ôl ymchwil STEAM, tyfodd twristiaeth yn y Fro 5% yn 2015 gyda nifer yr ymwelwyr yn fwy na 3.96 miliwn, cynnydd o 5.6% ar y flwyddyn flaenorol. Cynyddodd nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn a gefnogir gan dwristiaeth i 2,947, cynnydd o 5.7% ar y flwyddyn flaenorol. Roedd cyfanswm effaith economaidd twristiaeth yn y Fro yn £219.71 miliwn, cynnydd o 4.7% ar y flwyddyn flaenorol.

## Faint wnaethom ni?

Dangosydd	Perfformiad 2013/14	Perfformiad 2014/15	Targed 2015/16	Perfformiad 2015/16	Cyfartaledd Cymru 2015/16	Statws Perfformiad	Cyfeiriad teithio
Nifer o flociau yn Heol Holton Uchaf a gafodd gynnig cymorth grant ar gyfer gwelliannau.		10	1	1		😊	↓

## Pa mor dda wnaethom ni ef?

Dangosydd	Perfformiad 2013/14	Perfformiad 2014/15	Targed 2015/16	Perfformiad 2015/16	Cyfartaledd Cymru 2015/16	Statws Perfformiad	Cyfeiriad teithio
Canran yr unedau manwerthu gwag ym mhrif ganolfannau siopa'r Fro ar gyfartaledd.		9.60	7.0	6.40		😊	↑
Canran yr unedau manwerthu gwag yng nghanol tref Y Barri, Heol Holton, ar gyfartaledd		8.66	8.5	7.56		😊	↑
Canran yr unedau manwerthu gwag yn Y Bont-faen.		8.03	5.0	5.45		😐	↑
Canran yr unedau manwerthu gwag yn Heol Windsor, Penarth.		4.18	3.5	3.07		😊	↑
Canran yr unedau manwerthu gwag yn Broad Street/Stryd fawr Y Barri.		9.92	9.0	8.15		😊	↑
Canran yr unedau manwerthu gwag yn Llanilltud Fawr.		3.21	3.0	1.12		😊	↑



<b>A oes unrhyw un yn well ei fyd?</b>							
<b>Dangosydd</b>	<b>Perfformiad 2013/14</b>	<b>Perfformiad 2014/15</b>	<b>Targed 2015/16</b>	<b>Perfformiad 2015/16</b>	<b>Cyfartaledd Cymru 2015/16</b>	<b>Statws Perfformiad</b>	<b>Cyfeiriad teithio</b>
Canran y trigolion a arolygwyd sy'n credu bod canol Y Barri un ai'n dda neu'n rhagorol o safbwynt dengarwch cyffredinol.		76		76 <sup>3</sup>			
Canran y trigolion a arolygwyd sy'n credu bod canol ein trefi'n fannau deniadol i ymwelwyr a siopwyr.		76		76			
Canran y trigolion a arolygwyd sy'n credu bod canol tref Llanilltud Fawr yn dda iawn neu'n weddol dda o ran dengarwch cyffredinol.		93		93			
Canran y trigolion a arolygwyd sy'n credu bod canol tref y Bont-faen yn dda iawn neu'n weddol dda o ran dengarwch cyffredinol.		98		98			
Canran y trigolion a arolygwyd sy'n credu bod canol tref Penarth (Windsor Road) yn dda iawn neu'n weddol dda o ran dengarwch cyffredinol.		86		86			

<sup>3</sup> Arolwg bob dwy flynedd. Mae'r arolwg nesaf i fod i gael ei gynnal yn ystod 2016/17

## Yr hanes tu ôl i'n perfformiad

Mae'r gyfradd unedau gwag ar gyfartaledd ym mhrif ganol trefi'r Fro wedi gwella'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf o 9.6% i 6.4%. Mae ein gwaith gyda chanol trefi unigol i gyflenwi digwyddiadau, gwelliannau blaen siopau, cynllun benthyca canol y dref, gwelliannau i adeiladau a deunyddiau dehongli i gyd yn cyfrannu at wella delwedd canol trefi a denu mwy o ymwelwyr.

Yn ystod y flwyddyn, mae cyfraddau unedau gwag gwella ym mhob un o'r 5 canolfan manwerthu allweddol, mewn rhai achosion yn sylweddol. Mae hyn yn dangos cynnydd mewn hyder yn y canolfannau hyn ar adeg pan fo manwerthu ar y stryd fawr yn cael trafferth yn genedlaethol i gystadlu â siopa ar-lein, ac mae hyn yn digwydd o fewn cyd-destun o ansicrwydd economaidd cenedlaethol hirdymor parhaus.

O'r 10 bloc oedd yn cael cynnig cymorth grant ar Heol Holton Uchaf, mae'r rhain bellach i gyd wedi'u cwblhau, gan alluogi gwelliannau i adeiladau yn yr ardal.

Dangosir bod twristiaeth yn cynyddu yn sylweddol yn y Fro ar 5% i fyny ers 2014-2015. Nid dim ond adlewyrchiad o'r gwaith a wnaed eleni yw hwn, sydd ei hun wedi bod yn sylweddol. Bu'r Cyngor yn gweithio gyda rhanddeiliaid ar gynnyrch twristiaeth a datblygu marchnata ers nifer o flynyddoedd, megis drwy ei bartneriaeth Cymunedau Gwledig Creadigol lle mae ffermwyr wedi cael eu hannog a'u cymell i arallgyfeirio i fusnesau twristiaeth. Bellach gellir gweld effaith y buddsoddiadau tymor hir hyn.

Nid oedd llawer o fuddsoddiad y Cyngor mewn adfywio yn ystod 2015/16 yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar asedau economaidd. Canolbwyntiodd llawer iawn ohono, yn enwedig wrth gyflenwi rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru yn lleol, ar gymunedau - yn arbennig, cyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored iach fel parciau a mannau chwarae newydd i blant. Dros nifer o flynyddoedd mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar y projectau ffisegol hyn, megis gwelliannau porth i'r Barri fel rhan o ddull tref gyfan o adfywio. Bydd y rhain yn cyflenwi mwy o hyder dros amser.

## Meysydd Gwella

**Terfyn  
amser**

1 Parhau i weithredu rhaglen gynhwysfawr o adfywio ar draws y Fro, gan gynnwys Fframwaith Canol Trefi.

2016/17

## 3.4 Gwella sgiliau, gwybodaeth a chyfleoedd

### Canlyniad Blaenoriaeth Cynllun Corfforaethol

Mae dinasyddion Bro Morgannwg yn meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r gallu angenrheidiol i fanteisio i'r eithaf ar eu cyfleoedd.

### Amcan Gwella 4

Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant (NEET).

### Sut fydd llwyddiant yn edrych?

- Adnabod NEETs yn gynnar, gan dargedu gwasanaethau ar y rhai sydd â'r angen mwyaf.
- Gwasanaethau yn cael eu cydgysylltu i wella cyflogaeth a sgiliau sylfaenol i bobl ifanc NEET.
- Gostwng y ganran flynyddol o NEET a adroddwyd gan Uned Ddata Llywodraeth Cymru.
- Gostyngiad yn y ganran o bobl ifanc sy'n gadael addysg llawn amser yn 18 oed ac yn dod yn NEET.
- Adnabod pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET yn gynnar a darparu cymorth wedi'i dargedu drwy gyfnodau pontio, megis symud ymlaen i ôl-16.
- Cynnal lefelau isel o NEETs ym Mlynnyddoedd 11 a 12
- Gostyngiad yn nifer y rhai sy'n gadael yn gynnar o'r ysgol a EET.

### Statws gwerthuso: CYFLAWNWYD

Rydym yn gwybod hyn oherwydd:

- Trwy ddull cydlynol gyda phartneriaid, rydym wedi gwella sut rydym yn tracio, adnabod a chefnogi pobl ifanc sy'n NEET neu sydd â'r potensial i ddod yn NEET, gan arwain at ostyngiad parhaus mewn lefelau NEET ym Mlynnyddoedd 11, 12 a 13 (16-18)
- Yn gyffredinol, mae 95% o bobl ifanc 16-18 oed yn y Fro mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant o'i gymharu â 93% yn y flwyddyn flaenorol.
- Trwy fentrau megis project 'Ysbrydoli i Gyflenwi' a threfniadau newydd gyda Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De, rydym yn adnabod pobl ifanc sy'n agored i niwed yn llawer cynharach ac yn sicrhau eu bod yn cael cymorth amserol a phriodol er mwyn cyflenwi eu potensial, gan leihau'r tebygolrwydd ohonynt ddod yn NEET.
- Rydym yn parhau i wneud y defnydd gorau o'r sector gwirfoddol a darparwyr hyfforddiant er mwyn cynyddu cyfleoedd a darpariaeth i ostwng lefelau NEET.

## Beth wnaethom ni a beth yr ydym wedi ei gyflawni?

Mae gwaith sylweddol yn parhau i gael ei wneud rhwng y Cyngor a'i bartneriaid i dargedu'r rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant ac rydym yn gweld y nifer o bobl ifanc sy'n NEET yn parhau i ostwng o flwyddyn i flwyddyn o 3.8% yn 2013/14 i ddim ond 1.93% eleni. Mae 95% o bobl ifanc 16-18 oed yn y Fro mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant o'i gymharu â 93% yn y flwyddyn flaenorol.

Mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru, Coleg Caerdydd a'r Fro a Llamau buom yn cyflenwi project Cronfa Gymdeithasol Ewrop 'Inspire2Work', sy'n helpu i ostwng lefelau pobl ifanc yn y Fro nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Yn ystod 2015/16 parhaodd perfformiad i wella i flynyddoedd 11, 12 a 13 (16-18 oed), sydd hefyd yn cael ei fonitro gan Gyrfa Cymru, gan ddefnyddio model 5 haen Llywodraeth Cymru.

Rydym wedi datblygu Rhwydwaith Arwain gan Weithwyr i wella ymgysylltiad haen 4 o bobl ifanc sydd mewn perygl o adael cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Yn cynnwys nifer o sefydliadau, gan gynnwys addysg bellach, darparwyr hyfforddiant lleol, ysgolion, Gyrfa Cymru, y Gwasanaeth Ieuencid, Gwasanaethau Gymdeithasol, a'r gwasanaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant, mae'r Rhwydwaith yn nodi argaeledd cynigion megis cyrsiau a rhaglenni ymgysylltu i gefnogi ifanc pobl i aros mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Bu cynnydd yn y nifer o bobl ifanc sy'n mynd i Haen 4 o 4.4% i 6.6% ym mis Mawrth 2016. Mae hyn yn bennaf fel dilyniant o Haen 3 i Haen 4, sy'n gadarnhaol. Fodd bynnag, mae nifer fach o bobl ifanc NEET wedi symud o haen 5 i haen 4, ac mae gwaith wedi'i dargedu yn parhau i gael ei wneud i'w hatal rhag dod yn NEET.

Rydym yn parhau i weithio gyda'n partneriaid allweddol gan gynnwys Coleg Caerdydd a'r Fro, y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid, Gyrfa Cymru, Swyddogion Cefnogi Disgyblion ac ysgolion, gan dargedu ac ymdrin â meysydd sy'n peri pryder penodol, gyda ffocws ar leihau lefelau NEET yn y Fro. Gwnaed cynnydd sylweddol wrth ddatblygu systemau gwell a chadarn i dracio cyflawniad grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys disgyblion Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), a defnyddir hyn i gefnogi disgyblion unigol a hysbysu'r ddarpariaeth. Arweiniodd hyn at well monitro a mwy o her i dangyflawni.

Fel rhan o'r project Ysbrydoli i Gyflenwi (I2A), mae paneli ymarferwyr yn eu lle ym mhob ysgol dan sylw (o fis Chwefror 2016) gyda chamau gweithredu allweddol yn cael eu datblygu, gan sicrhau bod pobl ifanc sy'n agored i niwed yn cael eu hadnabod yn gynharach ac yn cael cymorth amserol a phriodol i gyflenwi eu potensial. Ers ei gychwyn, gwnaed 134 o gyfeiriadau i I2A a darparwyd cefnogaeth yn amrywio o brofiad gwaith, ymgysylltu â chyflogwyr, cynllunio gyrfaoedd a sesiynau gosod nodau gyda grwpiau blwyddyn 7 i 11. Mae Gyrfa Cymru wedi cefnogi 60 o bobl ifanc ers cychwyn y rhaglen. Yn ogystal, cyfarfu 39 o bobl ifanc â'r meini prawf, ac maent yn cael cymorth gwaith ieuencid.

Rydym yn parhau i ddatblygu'r defnydd o'r sector gwirfoddol a darparwyr hyfforddiant i gynyddu cyfleoedd a darpariaeth er mwyn lleihau NEETs. Fel rhan o'r gwaith hwn rydym wedi gweithredu fel cyfryngwyr ar gyfer Rhwydwaith Ansawdd a Chwricwlwm 14-19 - rhwng ysgolion, Coleg Caerdydd a'r Fro a darparwyr hyfforddiant i sicrhau bod y cynnig cwricwlwm cyn-alwedigaethol yn diwallu anghenion pobl ifanc rhwng 14-16. Yn

## Beth wnaethom ni a beth yr ydym wedi ei gyflawni?

2015/16 adroddodd Coleg Caerdydd a'r Fro fod 109 o bobl ifanc wedi ennill un cymhwyster neu fwy; yn gyfan gwbl, cafwyd 224 o gyflawniadau gyda theilyngdod neu lwyddiant mewn BTEC, Agored Cymru, IMI (Sefydliad y Diwydiant Moduron), neu VTCT (Ymddiriedolaeth Elusennol Hyfforddiant Galwedigaethol). Ymgysylltodd y Coleg Paratoadol Milwrol â 62 o ddysgwyr ar draws ysgolion y Fro, gyda phob dysgwr yn ennill cymhwyster lefel 2 gyda 62.9% (39) yn cyflenwi Rhagoriaeth neu Ragoriaeth\*. Gwelodd y ddau goleg gyfradd llwyddo o 100% o bobl ifanc a oedd yn mynychu eu cyrsiau o ysgolion

Mae rhaglen wirfoddoli Ymddiriedolaeth y Tywysog yn parhau'n ddarpariaeth ymgysylltu gref. Yn ystod 2015/16 cymerodd cyfanswm o 57 o ddysgwyr ran yn y rhaglen, gyda 27 (47%) o ddysgwyr yn mynd ymlaen i ddysgu ar lefel uwch, 12 (21%) yn cael cyflogaeth, ac aeth 2 ymlaen i gyfleoedd gwirfoddoli.

Mae Bwrdd Strategol Fframwaith Ymgysylltu a Dilyniant Ieuenctid (YEPF) yn parhau i sicrhau bod gwaith cydweithredol yn digwydd gyda phartneriaid allweddol ac mae'n parhau i fod wrth wraidd lleihau NEETs yn y Fro. Ym mis Mehefin 2016, gwelodd y Fro bobl ifanc 16-18 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant; roedd 42 o bobl ifanc mewn prentisiaeth, 123 o bobl ifanc mewn cyflogaeth, a 146 yn dysgu yn y gweithle. Mae gweithiwr ieuenctid yn darparu cymorth un i un i bobl ifanc cyn-16 oed sydd mewn risg uchel o fod yn NEET drwy'r Fframwaith Ymgysylltu a Dilyniant Ieuenctid (YEPF) a symud y bobl ifanc ymlaen i goleg, gwirfoddoli neu hyfforddiant. Yn 2015/16 cyfranogodd 24 o bobl ifanc risg uchel. O'r rhain, symudodd 14 o bobl ifanc ymlaen i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ac mae 8 yn parhau i gael sesiynau gyda'r gweithiwr ieuenctid.

### Faint wnaethom ni?

Dangosydd	Perfformiad 2013/14	Perfformiad 2014/15	Targed 2015/16	Perfformiad 2015/16	Cyfartaledd Cymru 2015/16	Statws Perfformiad	Cyfeiriad teithio
Nifer y bobl ifanc NEET sydd mewn cysylltiad â Swyddogion Cefnogi NEET.	109	214	214	469		😊	↑
Nifer y bobl ifanc sy'n weithredol ymgysylltu gyda Gweithwyr Cymorth NEET/ Gweithwyr Cymorth Pontio	109	177	177	499		😊	↑

### Pa mor dda wnaethom ni ef?

Dangosydd	Perfformiad 2013/14	Perfformiad 2014/15	Targed 2015/16	Perfformiad 2015/16	Cyfartaledd Cymru 2015/16	Statws Perfformiad	Cyfeiriad teithio
-----------	---------------------	---------------------	----------------	---------------------	---------------------------	--------------------	-------------------

### Pa mor dda wnaethom ni ef?

Dangosydd	Perfformiad 2013/14	Perfformiad 2014/15	Targed 2015/16	Perfformiad 2015/16	Cyfartaledd Cymru 2015/16	Statws Perfformiad	Cyfeiriad teithio
O'r deg ward uchaf yn y Fro sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan ddiweithdra ymhlith pobl ifanc, y ganran sydd wedi cael ymweliad gan anogwyr dysgu trwy ddarpariaeth symudol.	100	100	100	100		😊	↔
Canran y cysylltiadau a wnaed trwy ddarpariaeth symudol sydd yn dilyn hynny'n ymgysylltu â'r gwasanaeth i wella eu rhagolygon cyflogaeth.	40	33	40	23		😞	↓

### A oes unrhyw un yn well ei fyf?

Dangosydd	Perfformiad 2013/14 (blwyddyn academaidd 2012-13)	Perfformiad 2014/15 (blwyddyn academaidd 2013-14)	Targed 2015/16	Perfformiad 2015/16 (blwyddyn academaidd 2014-15)	Cyfartaledd Cymru 2015/16	Statws Perfformiad	Cyfeiriad teithio
Canran y bobl ifanc y mae'n hysbys nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ym Mlwyddyn 13.	4.8	4.08	4.07	2.92		😊	↑
Canran y bobl ifanc y mae'n hysbys nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ym Mlwyddyn 12.	2.02	1.78	1.78	1.52		😊	↑
Canran y bobl ifanc y mae'n hysbys nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ym Mlwyddyn 11.	3.8	2.75	2.60	1.68		😊	↑
Canran y bobl ifanc 16-18 oed sydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.	95.65	92.80	92.80	94.97		😊	↑
Canran y bobl ifanc a arferai dderbyn gofal y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod yn ymgymryd ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn 19 oed.	44.4	57.14	60	61.90	60.7	😊	↑



LS/M011 Nifer o ganlyniadau achrededig a gyflawnwyd gan ddysgwyr trwy'r gwasanaeth ieuenctid.	662	2817	2200	2349		😊	↓
---	-----	------	------	------	--	---	---

### Yr hanes tu ôl i'n perfformiad

Mae gwaith sylweddol yn parhau i gael ei wneud rhwng y Cyngor a'i bartneriaid i dargedu'r rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant ac rydym yn gweld y nifer o bobl ifanc sy'n NEET yn parhau i ostwng o flwyddyn i flwyddyn, o 3.8% yn 2013/14 i ddim ond 1.93% eleni. Mae 95% o bobl ifanc 16-18 oed yn y Fro mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant o'i gymharu â 93% yn y flwyddyn flaenorol.

Mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru, Coleg Caerdydd a'r Fro, Llamau ac ysgolion rydym yn parhau i ostwng lefelau pobl ifanc yn y Fro nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Yn ystod 2015/16 mae perfformiad wedi parhau i wella dros flynyddoedd 11, 12 a 13 (16-18 oed) sydd hefyd yn cael ei fonitro gan Gyrfa Cymru gan ddefnyddio model haen 5 Llywodraeth Cymru.

Er ein bod wedi rhagori ar ein targed blynyddol ar gyfer nifer y canlyniadau achrededig a gyflawnir gan ddysgwyr trwy'r Gwasanaeth Ieuenctid (2349), roedd ein perfformiad yn is na pherfformiad y flwyddyn flaenorol, sef 2817. Roedd hyn yn bennaf oherwydd y newidiadau a wnaed o ran safoni achrediadau. Wrth symud ymlaen, bydd y maes gwaith hwn yn cael ei gryfhau yn unol â Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwaith Ieuenctid. Bydd hyn yn sicrhau darpariaeth sy'n gyson hygyrch i holl bobl ifanc y Fro, wedi'i haddasu i weddu i anghenion unigol a chymunedol.

Yn ystod y flwyddyn, cysylltodd hyfforddwyr dysgu â 323 o bobl ifanc a gweithio'n weithredol gyda 146 ohonynt i wella eu rhagolygon cyflogaeth. O hyn roedd 23% yn ymwneud â darpariaeth symudol o'i gymharu â 33% yn y flwyddyn flaenorol. Bu gostyngiad yn y ddarpariaeth symudol a digwyddiadau awyr agored ar gyfer gwaith cefnogi NEET oherwydd gostyngiad yn y cyllid trwy bartneriaeth Vibe Media Ltd a Gyrfa Cymru, ar ôl i Vibe Media ddod i ben. Fodd bynnag, mae ein hyfforddwyr dysgu yn parhau i ymweld â'r holl wardiau yn y Fro sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan ddiweithdra ymhlith pobl ifanc, gan ddarparu mynediad at ddarpariaeth symudol i gefnogi pobl ifanc. Bydd rhaglen newydd yn cael ei lansio gan ddefnyddio'r bws symudol ar draws y Fro yn 2016/17. Bydd dwy raglen 12 wythnos yn rhedeg, gan ddechrau ym mis Medi 2016 ac Ionawr 2017, a fydd yn cysylltu ag ysgolion Canllawiau Ymgysylltu (G2E) i ymgysylltu grŵp penodedig o bobl ifanc. Bydd y rhaglen yn cyflwyno datblygu cyfryngau/ ffilm ac yn cynnig Unedau Agored Cymru.

Ymgysylltodd 499 o bobl ifanc yn weithredol â Gweithwyr Cymorth NEET/ Gweithwyr Cymorth Pontio yn ystod y flwyddyn, yn fwy na'r nifer a dargedwyd (177). Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i fwy o waith wedi'i dargedu i sicrhau trosglwyddiad llyfn pobl ifanc i mewn i flwyddyn 7. Mae

## Yr hanes tu ôl i'n perfformiad

anogwyr dysgu NEET wedi darparu sesiynau un i un, a gwneud gwaith allgymorth gyda phobl ifanc NEET. Ceir gwell rhannu data am bobl ifanc rhwng Gyrfa Cymru a'r ALI, gan alluogi Gyrfa Cymru i dderbyn manylion yn gynnar am ymadawyr blwyddyn 11 sydd mewn perygl o fod yn NEET. Hefyd rhennir data Haen 1 a 2 yn fisol ymhlith partneriaid i leoli pobl ifanc NEET anhysbys a'r rhai sy'n wynebu rhwystrau sylweddol i ymgysylltu. Hefyd mae gwaith cydweithredol cadarnhaol rhwng yr ALI, Gyrfa Cymru a Choleg Caerdydd a'r Fro wedi galluogi'r hyfforddwyr dysgu i weithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc a gyfeiriwyd gan y coleg a'r Gwasanaeth Cynhwysiant a Gwella Ysgolion.

## Astudiaeth achos 1:

Roedd X yn fyfyrwr blwyddyn 9 pan ymddieithiodd yn llwyr a bu'n NEET am y 14 mis nesaf. Roedd X yn dod o gefndir cam-drin domestig ac yn dioddef o ddiffyg hyder a hunan-barch isel, ni fyddai hyd yn oed yn gadael y tŷ. Nid oedd X ymateb i unrhyw asiantaethau a oedd yn ceisio ymgysylltu ag ef, gan gynnwys y Gwasanaeth Lles Addysg.

Drwy YEPF, gweithiodd gweithiwr ieuenctid ar gyfer pobl ifanc cyn-16 oed gyda X am saith mis. Gwrandodd y gweithiwr ieuenctid yn astud ar farn a phryderon X mewn modd cyfrinachol, a dros gyfnod o bythefnos, ffurfiwyd peth ymddiriedaeth. Helpodd y gweithiwr ieuenctid X i adeiladu sgiliau a hyder cymdeithasol, ac yn raddol datblygodd perthynas iach rhyngddynt. Mae X wedi ymgysylltu'n eithriadol o dda ers iddo ddechrau ei sesiynau gyda'r gweithiwr ieuenctid. Mae X wedi mynychu cyfarfodydd ysgol gyda'r gweithiwr ieuenctid i gynllunio ffordd ymlaen yn cynnwys pynciau craidd.

Yn gyffredinol bu gwelliant yn ei hyder a hunan-barch; yn awr mae X yn gadael y tŷ ac yn cymdeithasu gyda'i gyfoedion. Bydd X yn cael mynd i'r ysgol ym mis Medi 2016, am 3 diwrnod yr wythnos, a bydd yn parhau i weithio tuag at achrediau gyda'i weithiwr ieuenctid am 2 awr yr wythnos. Bydd hefyd yn gwirfoddoli yn y clwb ieuenctid un noson yr wythnos, ac yn mynychu clwb gwaith cartref am awr yr wythnos.

## Astudiaeth achos 2:

Cyfeiriwyd JW at y project Canllawiau i Ymgysylltu (G2E) oherwydd ei ddiffyg presenoldeb yn yr ysgol, ymddygiad aflonyddgar parhaus pan oedd yn mynychu, a diffyg sgiliau cymdeithasol. Nodwyd bod gan JW lefelau llythrennedd gwael o ganlyniad i bresenoldeb isel ac ymddygiad aflonyddgar.

Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r uwch weithiwr o G2E, gweithiwr cymorth, JW a'r fam. Yn ystod y cyfarfod hwn cytunwyd ar gontract a'i roi ar waith gan gynnwys rheolau, canllawiau, gweithdrefn amser allan, ayb. Ar ôl y cyfarfod cychwynol, dechreuodd JW fynychu'r rhaglen. Dros gyfnod o dri mis roedd presenoldeb JW dros 88% ac roedd ei ymddygiad yn dda iawn ac yn parhau i wella. Ymatebodd JW yn dda i ganmoliaeth a'r

## Astudiaeth achos 2:

cymorth ychwanegol a gynigiwyd, megis sesiynau llythrennedd ychwanegol, i ddod â JW i'r un lefel â mynychwyr eraill G2E. Mae hunanhyder JW wedi tyfu, sydd wedi arwain at welliant mewn dysgu.

Parhaodd JW i ddangos cynnydd mewn ymddygiad a phresenoldeb. Caiff mam JW ei diweddarau'n rheolaidd gyda pherfformiad JW ar y rhaglen ac mae hi hefyd wedi gwneud sylwadau am y newid yn ei agwedd yn y cartref. Bydd JW yn cyflawni mwy na 5 Uned Agored Cymru (ACU) a bydd yn mynd ymlaen i ennill gwobr gan Agored Cymru yn y tymor canlynol.

## Meysydd Gwella

### Terfyn amser

1	Ailstrwythuro'r Gwasanaeth leuentid i gynnig gwell gwasanaeth i bobl ifanc yn unol â Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaeth leuentid.	2016/17
2	Defnyddio arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop mewn partneriaeth â Chymunedau yn Gyntaf a Chanolfan Byd Gwaith i gynyddu nifer y bobl ifanc 18-24 oed sy'n mynd i gyflogaeth neu hyfforddiant.	2016/17
3	Gostwng nifer y bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol ym mlwyddyn 13 sy'n NEET.	2016/17

## 3.5 Gwella sgiliau, gwybodaeth a chyfleoedd

### Canlyniad Blaenoriaeth Cynllun Corfforaethol

Mae dinasyddion Bro Morgannwg yn meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r gallu angenrheidiol i fanteisio i'r eithaf ar eu cyfleoedd.

### Amcan Gwella 5

Cau'r bwch rhwng cyflawniad disgyblion sy'n cael a rhai nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim.

#### Sut fydd llwyddiant yn edrych?

- Wedi gwella cyrhaeddiad mewn Darllen, Ysgrifennu a Rhifau, ar wahân ac mewn cyfuniad ym mhob cam allweddol.
- Wedi gwella cyrhaeddiad mewn TGAU Saesneg a Mathemateg.
- Lleihau'r bwch 5 A\*-C gan gynnwys Saesneg a Mathemateg i 34% (perfformiad presennol yn 37.6%, Cymru 34%) neu lai yng nghanlyniadau blwyddyn academaidd 2014/15.
- Y bwch cyrhaeddiad a chyflawniad ar gyfer disgyblion FSM yn culhau ymhellach yn y Cyfnod Sylfaen, CA2 a CA3, a sicrhau bod y cynnydd a wnaed yn CA4 yn 2012/13 yn cael ei ailsefydlu.
- Cau'r bwch cyrhaeddiad yn:
  - y Cyfnod Sylfaen, o fwch o 12.5% yn 2013/14 i 10% erbyn 2016
  - CA2, o fwch o 14.8% yn 2013/14 i 12% yn 2016.
  - CA3, o fwch o 21.4% yn 2013/14 i 15% yn 2016.
  - CA4, o fwch o 37.6% yn 2014 i 30% yn 2016.
- 100% o ymyriadau disgyblion yn cael eu tracio, eu monitro, ac effeithiolrwydd effaith yn cael ei ddadansoddi.
- Yr holl staff perthnasol wedi derbyn hyfforddiant a

#### Statws gwerthuso: CYFLAWNWYD YN RHANNOL

Rydym yn gwybod hyn oherwydd:

- Yn gyffredinol, mae safonau wedi gwella ym mhob un o'r dangosyddion perfformiad allweddol, ac ym mhob achos bron, mae cyfradd y gwelliant wedi bod yn fwy yn y Fro na chyfartaledd Cymru. Mae presenoldeb yn yr ysgol yn parhau i fod yn y chwarter uchaf o berfformwyr yng Nghymru ar gyfer ysgolion uwchradd a chynradd.
- Drwy ein gwaith rhagweithiol gydag ysgolion, ni adawodd unrhyw fyfyrwr addysg orfodol heb gymhwyster cymeradwy ac rydym yn cymryd camau pendant i ymdrin ag unrhyw danberfformio mewn ysgolion er mwyn gwella lefelau cyrhaeddiad ymhellach.
- Ym mhob un o'r prif ddangosyddion perfformiad ar draws pob cyfnod, mae perfformiad y disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim wedi gwella ers 2012, er nid bob amser ar yr un gyfradd â'u cyfoedion. Ers 2012, yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn yr awdurdod wedi gwella ar gyfradd uwch na'u cyfoedion. Mae hyn wedi culhau'r gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim o'i gymharu â'u cyfoedion. Fodd bynnag, dros yr un cyfnod yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 4 mae'r duedd wella ymhlith y grŵp hwn o ddisgyblion yn llai cyson na'u cyfoedion.
- Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw safonau a gyflawnir gan blant sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim eto'n cwrdd â safonau plant eraill

chefnogaeth barhaus wrth ddatblygu eu dealltwriaeth a'u harbenigedd mewn materion sy'n ymwneud cau'r bwllch FSM.

- Defnydd effeithiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i godi lefelau cyrhaeddiad.

yn yr holl gyfnodau allweddol; mae angen i lefel y gwaharddiadau ostwng ac i'r rhain barhau i fod yn ganolbwynt allweddol ar gyfer gwella ac yn flaenoriaeth i'r Cyngor yn y tymor hir.

### **Beth wnaethom ni a beth yr ydym wedi ei gyflawni?**

Mae gwella safonau ym mhob cyfnod allweddol yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor. Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, rydym wedi gweithio'n rhagweithiol gydag ysgolion i sicrhau nad oes unrhyw blant a phobl ifanc gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, wedi gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu yn y gweithle heb gymhwyster allanol cymeradwy. Trwy ddull cydlynol gyda phartneriaid, rydym hefyd wedi gwella sut rydym yn tracio, adnabod a chefnogi pobl ifanc sy'n NEET neu sydd â'r potensial i ddod yn NEET, gan arwain at ostyngiad mewn lefelau NEET ym Mlynnyddoedd 11, 12 a 13.

Gwnaed cynnydd sylweddol wrth ddatblygu systemau gwell a chadarn i dracio cyflawniad grwpiau agored i niwed gan gynnwys disgyblion Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac mae hyn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi disgyblion unigol a llywio'r darpariaeth a chodi lefelau cyrhaeddiad. Arweiniodd hyn at well monitro a mwy o her i dangyflawniad. Ar ben hynny, mae'r strategaeth a ddatblygwyd gyda Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (CSC JES) i gau'r bwllch mewn perfformiad rhwng y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM) a'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (heb fod yn FSM) wedi cael ei roi ar waith yn llawn, ac mae ysgolion yn gwerthuso eu defnydd o'r Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) a gosod targedau priodol ar gyfer disgyblion eFSM. Arweiniodd trafodaethau mewn cyfarfodydd cynhwysiant at i ddata grwpiau agored i niwed gael ei gynnwys ar system dracio ranbarthol ac mae hyn wedi llywio'r trafodaethau "Ysgol ar dudalen" y mae'r Ymgynghorwyr Her wedi eu cynnal gydag ysgolion. Rydym hefyd wedi sefydlu grŵp uwchradd gyda'r rhai sy'n gyfrifol am y GAD i gau'r bwllch mewn ysgolion uwchradd yn y Fro a Phen-y-bont ar Ogwr.

Yn gyffredinol, mae safonau wedi gwella gyda'r holl ddangosyddion perfformiad allweddol ar y lefelau disgwylledig ac uwch. Ym mhob achos bron, bu cyfradd y gwelliant yn fwy yn y Fro na chyfartaledd Cymru. Yn y Fro, mae canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 13.5% o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 18.8%. Mae'r lefel hon o gymhwyster yn ein gosod yn y 5<sup>ed</sup> safle yng Nghymru allan o'r 22 awdurdod lleol yn 2015, ac mae'n darparu cyd-destun pwysig ar gyfer gwerthuso'r canlyniadau i ddysgwyr.

Parhaodd perfformiad ysgolion yn y Cyfnod Sylfaen yn gymharol gryf. Dros y tair blynedd diwethaf, mae canran y disgyblion sy'n cyflenwi'r canlyniad 5 disgwylledig wedi gwella'n raddol, ac ar gyfradd o welliant sy'n debyg i gyfartaledd Cymru. Mae perfformiad ar y lefel uwch na'r disgwyl (canlyniad 6) wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf ym mhob un o'r meysydd dysgu.

Yng nghyfnod allweddol 2, bu gwelliant amlwg ers 2013 gyda mwyafrif yr ysgolion bellach yn yr 50% uchaf, o'i gymharu ag ysgolion tebyg ar

## Beth wnaethom ni a beth yr ydym wedi ei gyflawni?

feincnodau prydau ysgol am ddim Llywodraeth Cymru. Mae canran y disgyblion sy'n cyflenwi'r lefel 4 ddisgwylidig yn ysgolion yr awdurdod wedi gwella ar gyfradd gryfach na chyfartaledd Cymru. Mae perfformiad ar y lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5) yn gyson gryf.

Yn gyffredinol, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 wedi dangos gwelliant cyson dros y tair blynedd diwethaf. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni Dangosydd Pwnc Craidd Cyfnod Allweddol 3 wedi gwella ar gyfradd gyflymach na chyfartaledd Cymru. Yn 2012, roedd gan dri chwarter o'r ysgolion uwchradd berfformiad sylweddol is na'r cyfartaledd yng nghyfnod allweddol 3. Yn 2015, mae perfformiad y mwyafrif o ysgolion uwchradd bellach yn uwch na'r cyfartaledd, o'u cymharu ag ysgolion tebyg, gyda hanner yr ysgolion uwchradd yn y 25% uchaf.

Bu gwelliannau yn y rhan fwyaf o ddangosyddion cyfnod allweddol 4. Er enghraifft, mae canran y disgyblion a gyflawnodd dangosydd pwnc craidd cyfnod allweddol 4 wedi gwella'n gyson, ac roedd yr uchaf yng Nghymru yn 2015. Mae canran y disgyblion yn yr awdurdod sy'n cyflawni trothwy Lefel 2 gan gynnwys Mathemateg a Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf wedi gwella ar gyfradd gyflymach na chyfartaledd Cymru ers yr arolygiad diwethaf, ac roedd yr ail uchaf yng Nghymru yn 2015. Fodd bynnag, er gwaethaf y gwelliannau cyffredinol hyn, mae perfformiad tair o'r wyth ysgol uwchradd yn is na'r cyfartaledd yn 2015 o'u cymharu ag ysgolion tebyg. Am y tair blynedd diwethaf, mae Bro Morgannwg wedi bodloni neu ragori ar bron pob un o feincnodau Cyfnod Allweddol 3 a 4 Llywodraeth Cymru o ran perfformiad ar sail hawl i brydau ysgol am ddim.

Ym mhob un o'r prif ddangosyddion perfformiad ar draws pob cyfnod, mae perfformiad y disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim wedi gwella ers 2012, er nid bob amser ar yr un gyfradd â'u cyfoedion. Ers 2012, yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn yr awdurdod wedi gwella ar gyfradd uwch na'u cyfoedion. Mae hyn wedi culhau'r gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim o'u cymharu â'u cyfoedion. Fodd bynnag, dros yr un cyfnod yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 4 mae'r duedd wella ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion yn llai cyson nag ar gyfer eu cyfoedion. Er enghraifft;

Mae'r gwahaniaeth ym mherfformiad y Dangosydd Canlyniadau Cyfnod Sylfaen (FPOI) ar gyfer y disgyblion hynny sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim (eFSM) a'r rhai nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim (heb fod yn FSM) wedi gwella ychydig o 12.5% i 12.1%. Mae'r gwahaniaeth ym mherfformiad y Dangosydd Pwnc Craidd (DPC) rhwng eFSM a rhai nad ydynt yn FSM yn CA2 wedi cynyddu i 17.3% o 14.8%. Mae'r bwll rhwng eFSM a rhai nad ydynt yn FSM yn CA3 wedi gwella gyda chulhau pellach i 15.9% ar gyfer perfformiad DPC o 21.4% yn y flwyddyn flaenorol. Yn CA4, ar gyfer trothwy lefel 2+, mae'r gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng eFSM a rhai nad ydynt yn FSM yn dangos culhau ymylol o 37.6% i 37.3%.

Mae'r bwll rhwng perfformiad bechgyn a merched wedi amrywio ers 2012. Yng nghyfnod allweddol 3 a 4, mae perfformiad bechgyn wedi gwella ar gyfradd llawer cyflymach na merched. Fodd bynnag, yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad y merched wedi gwella ar gyfradd gyflymach na'r bechgyn.

## Beth wnaethom ni a beth yr ydym wedi ei gyflawni?

Drwy ein gwaith gyda Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De a phartneriaid allweddol eraill, sy'n cael ei lywio gan ddata amserol, rydym yn parhau i herio a chefnogi ysgolion i wella lefelau cyrhaeddiad ar gyfer yr holl ddisgyblion, gan ganolbwyntio ar iddynt gyflenwi eu potensial llawn.

### Pa mor dda wnaethom ni ef?

Dangosydd	Perfformiad 2013/14	Perfformiad 2014/15	Targed 2015/16	Perfformiad 2015/16	Cyfartaledd Cymru 2015/16	Statws Perfformiad	Cyfeiriad teithio
Canran y rhai sy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim mewn ysgolion uwchradd.	64.38	69.68	72	70.87		☺	↑
Canran y rhai sy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd.	78.37	77.71	79	75.37		☹	↓
Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd	94.2	95.3	95.4	95.3	95	☺	↑
Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd	93.4	94.2	94.4	94.7	93.9	☺	↑

### A oes unrhyw un yn well ei fyd?

Dangosydd	Perfformiad 2013/14 (blwyddyn academaidd 2012-13)	Perfformiad 2014/15 (blwyddyn academaidd 2013-14)	Targed 2015/16 (blwyddyn academaidd 2014-15)	Perfformiad 2015/16 (blwyddyn academaidd 2014-15)	Cyfartaledd Cymru 2015/16 (blwyddyn academaidd 2014-15)	Statws Perfformiad	Cyfeiriad teithio
<b>EDU003 Dangosydd Pwnc Craidd (DPC) Cyfnod Allweddol 2 (CA2): Pawb</b> Canran disgyblion a asesir ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, yn cyflawni'r Dangosydd Pwnc	87.97	90.48	92	92.12	87.74	☺	↑

Craidd, fel y pennir gan Asesiad Athro.							
<b>LS/M018a DPC CA 2: FSM</b> Canran disgyblion FSM a asesir ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, yn cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd, fel y pennir gan Asesiad Athro.	72.73	77.6		77.13	75.10		↑
<b>LS/M018b DPC CA 2: Dim yn FSM</b> Canran disgyblion nad ydynt yn FSM a asesir ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, yn cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd, fel y pennir gan Asesiad Athro.	90.40	92.4		94.38	90.76		↑
<b>LS/M037a Saesneg CA 2: Pawb</b> Canran yr holl ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 sy'n cyflawni'r safon ddisgwyliedig yn Saesneg.	90.54	92.2	94	93.53	89.59		↑
<b>LS/M037b Saesneg CA 2: FSM</b> Canran disgyblion FSM yng Nghyfnod Allweddol 2 sy'n cyflawni'r safon ddisgwyliedig yn Saesneg.	77.54	81.6		81.91	78.24		↑
<b>LS/M037c Saesneg CA 2: Dim yn FSM</b> Canran disgyblion nad ydynt yn FSM yng Nghyfnod Allweddol 2 sy'n cyflawni'r safon ddisgwyliedig yn Saesneg.	92.54	93.8		95.28	92.29		↑
<b>LS/M038a Mathemateg CA 2: Pawb</b> Canran yr holl ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 sy'n cyflawni'r safon ddisgwyliedig mewn Mathemateg.	93.39	93	94	93.67	90.20	☹️	↑
<b>LS/M038b Mathemateg CA 2: FSM</b> Canran disgyblion FSM yng Nghyfnod Allweddol 2 sy'n cyflawni'r safon ddisgwyliedig mewn Mathemateg.	75.40	83.7		80.85	79.67		↑



<b>LS/M038c Mathemateg CA 2: Dim yn FSM</b> Canran disgyblion nad ydynt yn FSM yng Nghyfnod Allweddol 2 sy'n cyflawni'r safon ddisgwylidig mewn Mathemateg.	92.80	94.4		95.61	92.69		↑
<b>EDU004 Dangosydd Pwnc Craidd (DPC) Cyfnod Allweddol 3 (CA3): Pawb</b> Canran disgyblion a asesir ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, yn cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd, fel y pennir gan Asesiad Athro.	82.54	83.96	87	87.38	83.90	😊	↑
<b>DPC CA3: FSM</b> Canran disgyblion FSM a asesir ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, yn cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd, fel y pennir gan Asesiad Athro.	55.72	65.7		73.13	65.92		↑
<b>LS/M047b DPC CA3: Dim yn FSM</b> Canran disgyblion nad ydynt yn FSM a asesir ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, yn cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd, fel y pennir gan Asesiad Athro.	86.58	86.8		89.74	88.12		↑
<b>LS/M019c Saesneg Cyfnod Allweddol 3: Pawb</b> Canran yr holl ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3 sy'n cyflawni'r safon ddisgwylidig yn Saesneg.	87.91	88.7	92	92.13	87.88	😊	↑
<b>LS/M019a Saesneg Cyfnod Allweddol 3: FSM</b> Canran disgyblion FSM yng Nghyfnod Allweddol 3 sy'n cyflawni'r safon ddisgwylidig yn Saesneg.	69.15	74.4		82.09	73.25		↑
<b>LS/M019b Saesneg Cyfnod Allweddol 3: Dim yn FSM</b> Canran disgyblion nad ydynt yn FSM yng	90.62	90.9		93.83	91.33		↑

Nghyfnod Allweddol 3 sy'n cyflawni'r safon ddisgwyliedig yn Saesneg.							
<b>LS/M020c Mathemateg Cyfnod Allweddol 3: Pawb</b> Canran yr holl ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3 sy'n cyflawni'r safon ddisgwyliedig mewn Mathemateg.	88.03	89.0	92	91.35	88.67	☹️	↑
<b>Mathemateg Cyfnod Allweddol 3: FSM</b> Canran disgyblion FSM yng Nghyfnod Allweddol 3 sy'n cyflawni'r safon ddisgwyliedig mewn Mathemateg.	67.16	75.4		82.59	74.26		↑
<b>Mathemateg Cyfnod Allweddol 3: Dim yn FSM</b> Canran disgyblion nad ydynt yn FSM yng Nghyfnod Allweddol 3 sy'n cyflawni'r safon ddisgwyliedig mewn Mathemateg.	91.27	91.1		92.74	92.07		↑
<b>LS/M003 Cyfnod Allweddol 4 (CA4): Pawb</b> Canran pobl ifanc 15/16 oed yn cyflawni 5 neu fwy o TGAU ar raddau A*-C neu'r cymhwyster galwedigaethol cyfatebol.	82.61	87.04	86	89.42	84.10	☺️	↑
<b>LS/M055 Cyfnod Allweddol 4 (CA4): FSM</b> Canran pobl ifanc 15/16 oed yn cyflawni 5 neu fwy o TGAU ar raddau A*-C neu'r cymhwyster galwedigaethol cyfatebol	71.1	72.3		74.42	69.42		↑
<b>LS/M056 Cyfnod Allweddol 4 (CA4): Dim yn FSM</b> Canran pobl ifanc 15/16 oed yn cyflawni 5 neu fwy o TGAU ar raddau A*-C neu'r cymhwyster galwedigaethol cyfatebol	85.6	91.2		91.28	88.88		↑
<b>LS/M005 CA4: Pawb</b> Canran pobl ifanc 15/16 oed yn cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd.	50.21	60.13	60	63.91	54.79	☺️	↑

<b>LS/M057 CA4: FSM</b> Canran pobl ifanc 15/16 oed yn cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd.	27.6	29.3		30.81	29.32		↑
<b>LS/M058 CA4: Dim yn FSM</b> Canran pobl ifanc 15/16 oed yn cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd.	54.6	66.1		68.01	61.24		↑
<b>LS/M006a CA4: Pawb</b> Canran disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 sy'n cyflawni lefel 2 yn Saesneg.	65.58	70.94	73	76.67	68.60	😊	↑
<b>CA4: FSM</b> Canran disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 sy'n cyflawni lefel 2 yn Saesneg.	39.91	39.6		45.93	45.05		↑
<b>CA4: Dim yn FSM</b> Canran disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 sy'n cyflawni lefel 2 yn Saesneg.	70.58	77.2		80.48	74.54		↑
<b>LS/M006b CA4: Pawb</b> Canran disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 sy'n cyflawni lefel 2 mewn Mathemateg.	62.34	67.99	73	70	64.38	😐	↑
<b>LS/M059b CA4: FSM</b> Canran disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 sy'n cyflawni lefel 2 mewn Mathemateg.	42.54	36.1		38.95	39.23		↓
<b>LS/M060bKS4: Dim yn FSM</b> Canran disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 sy'n cyflawni lefel 2 mewn Mathemateg.	66.26	74.2		73.85	70.13		↑
<b>EDU017</b> Canran disgyblion 15 oed ar 31 Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd drothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU gradd A*-C yn Saesneg neu Cymraeg iaith gyntaf a mathemateg.	55.42	62.20	65	64.94	57.95	😊	↑

### Yr hanes tu ôl i'n perfformiad

Mae'r Cyngor yn gosod ei dargedau ar gyfer gwella ysgolion, sy'n cael eu llywio gan dargedau croniedig ysgolion a benderfynir drwy annog ysgolion i osod targedau uchelgeisiol i wella safonau. Er na fodlonwyd nifer o dargedau, yn y mwyafrif o achosion roedd y cyfeiriad teithio yn dangos gwelliant ar berfformiad y flwyddyn academaidd flaenorol.

Bu cynnydd yn y niferoedd sy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim mewn ysgolion uwchradd yn ôl y rhai sy'n gymwys i'w derbyn. Rydym wedi cryfhau trefniadau perfformiad yn y maes hwn ac yn adrodd yn rheolaidd i ysgolion cynradd ac uwchradd i godi ymwybyddiaeth o bwy sy'n gymwys a p'un a ydynt yn cyfranogi. Arweiniodd hyn at i arweinwyr bugelliol dracio'r nifer sy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim drwy fonitro disgyblion a'u hannog i gyfranogi os nad ydynt eisoes yn gwneud hynny. Er na wnaethom fodloni ein targed blynyddol, arweiniodd ein dull at gynnydd yn y nifer sy'n manteisio yn y sector uwchradd yn benodol. Mae hwn yn parhau i fod yn faes sy'n datblygu.

Mae presenoldeb yn yr ysgol yn parhau i fod yn y chwarter uchaf o berfformwyr yng Nghymru ar gyfer ysgolion uwchradd a chynradd dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Cafwyd ychydig o welliant mewn perfformiad mewn ysgolion uwchradd o 94.2% i 94.7% gan ein gosod yn y 3<sup>ydd</sup> safle yng Nghymru o'r 4<sup>ydd</sup> safle yn y flwyddyn flaenorol. Gostyngodd absenoldeb parhaus mewn ysgolion uwchradd o 0.9% i 3.3%, yn erbyn cyfartaledd Cymru o 4.5%. Cynyddodd presenoldeb FSM Uwchradd o 1.3% i 90.7%. Roedd presenoldeb SIY uwchradd yn 96.8% a phresenoldeb Plant sy'n Derbyn Gofal yn 95%. Arhosodd presenoldeb cynradd y Fro yr un fath â 2013/14 ar 95.3%. Cynhaliodd y Fro ei 4<sup>ydd</sup> safle. Gostyngodd presenoldeb FSM Cynradd 0.3% i 92.5%. Arhosodd perfformiad presenoldeb mewn ysgolion cynradd yr un fath ar 95.3% gan ein cadw yn y 4<sup>ydd</sup> safle.

Mae'r duedd gadarnhaol o ran gwella safonau yn y Cyfnod Sylfaen yn parhau i bron pob dangosydd ar Ganlyniad 5, yr un eithriad yw LLCW (Cymraeg), a oedd ar ôl cynnydd o 5.1% y llynedd wedi gostwng 0.9% yn 2014/15. Cynyddodd perfformiad ar Ganlyniad 6+ yn sylweddol ar gyfer pob dangosydd, yn fwyaf nodedig yn y Gymraeg lle mae cyrhaeddiad wedi gwella o 9.6% i 45.4%. Mae'r maes hwn yn ffocws parhaus ar gyfer gwella, ac mae effaith y gefnogaeth a her i ysgolion wedi arwain at enillion sylweddol dros y tair blynedd diwethaf, yn enwedig mewn datblygiad Personol, Cymdeithasol, Lles a Diwylliannol. Mae'r Dangosydd Canlyniad Cyfnod Sylfaen (FPOI) wedi cynyddu am y drydedd flwyddyn yn olynol i 91.5%. Y cynnydd canrannol (+2%) yw'r lleiaf yng Nghonsortium Canolbarth y De, fodd bynnag mae ein safle ar gyfer FPOI 2015 wedi gwella i o'r pedwerydd safle i'r trydydd. Ar Ganlyniad 5+ bu cynnydd yn y ganran o ysgolion sy'n perfformio uwchlaw'r canolrif ym mhob dangosydd i dros 61%. Gosodwyd pob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg uwchlaw'r canolrif ar gyfer y Gymraeg (LLCW) ar Ganlyniad 6, o'i gymharu â 3 yn 2014. Mae'r gwahaniaeth mewn perfformiad FPOI ar gyfer y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol (eFSM) a'r rhai nad ydynt yn FSM wedi gwella ychydig o 12.5% i 12.1%. Er bod hyn yn cynnal y gostyngiad o 21.5% yn 2013, mae'n parhau i fod yn faes o angen datblygiadol.

Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae safonau cyrhaeddiad ar Lefel 4 yn parhau i gynyddu, er yn arafach nag yn y blynyddoedd diwethaf, ym mhob un ond Cymraeg iaith 1<sup>af</sup>, sydd wedi cynnal yr un cyrhaeddiad uchel â 2014, sef 96%. Mae perfformiad ar Lefel 5+, eto ac eithrio Cymraeg iaith 1<sup>af</sup> sy'n cymharu â chyrhaeddiad 2014, wedi cynyddu unwaith eto am y drydedd flwyddyn yn olynol. Mae'r pedwar prif ddangosydd perfformiad yn dangos gwelliant sylweddol dros dair blynedd o rhwng 9.2% a 14.4%. Mae'r Dangosydd Pwnc Craidd, DPC, wedi cynyddu 1.6% y flwyddyn academaidd hon. Dyma'r trydydd codiad yn olynol ac mae'n cynnal safle'r Fro fel yr ail yng Nghymru am yr ail flwyddyn, ar ôl gwella o'r pedwerydd yn 2012/13. O ran meincnodi, ar Lefel 4 arhosodd canran yr ysgolion yn y chwarter cyntaf, C1, yr un fath ar gyfer mathemateg 32% a'r DPC 25%. Fodd bynnag, er gwaethaf y gwelliant mewn safonau, mae canran yr ysgolion yn yr hanner uchaf wedi gostwng eleni ym mhob un

o'r 5 dangosydd. Mae'r ystod o 40% (Cymru) i 64% (DPC). Mae canran yr ysgolion yn y chwarter isaf wedi gostwng yn yr holl ddangosyddion, gyda DPC yr unig eithriad, lle'r arhosodd yn ddigyfnewid ar 18%. Mae darlun mwy cadarnhaol ar lefel 5 gyda chynnydd sylweddol o 18.1% (6) yng nghanran o ysgolion yn y ddau chwarter uchaf o ran Mathemateg i 84%, a chynnydd mwy cymedrol o 2.2% mewn Gwyddoniaeth i 73%. Fodd bynnag, er bod y ganran o ysgolion yn parhau i fod yr un fath yn chwarter 1 i Saesneg a chynnydd mewn un ysgol i'r Gymraeg, yn gyffredinol bu gostyngiad ymylol mewn ysgolion a osodir uwchlaw'r canolrif i 60% (3 allan o 5 ysgol). Nid oes unrhyw ysgol yn ymddangos yn y chwarter isaf ar gyfer Saesneg na Mathemateg. Mae un ysgol yn chwarter 4 ar gyfer Cymraeg ac ar gyfer gwyddoniaeth. Mae'r gwahaniaeth ym mherfformiad DPC rhwng eFSM a'r rhai nad ydynt yn FSM wedi cynyddu i 17.3%, o 14.8%. Mae hyn yn parhau i fod angen datblygiadol sylweddol.

Yng Nghyfnod Allweddol 3 mae safonau'n dda, wedi codi o flwyddyn i flwyddyn. Ar lefel 5+ mae safonau wedi gwella, gyda chynnydd yn yr holl ddangosyddion perfformiad. Mae'r disgwyliadau uchel a rennir ar draws yr awdurdod wedi cael effaith sylweddol ar y cynnydd mewn safonau ar y lefel hon, gydag enillion sylweddol ar lefel 6+ yn y Gymraeg o 12.2% i 66.9% a Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth yn codi o fwy na 5% i 56%, 68% a 66% yn y drefn honno. Mae'r cyrhaeddiad yn Saesneg yn parhau i fod yn is nag yn y pynciau eraill. Mae'r gwelliannau yn parhau ar y lefel uwch gydag enillion sylweddol ym mhob dangosydd. Ar lefel 6+ gwelir y gwelliant mwyaf ers 2012, gyda gwelliannau o dros 20% mewn iaith (Cymraeg a Saesneg). Mae'r perfformiad mewn Mathemateg yn arbennig o gryf gyda 34% o ddysgwyr yn cyflenwi L7+. Mae'r DPC wedi cynyddu o 3.4% pellach i 87.4%, gan gynnal y duedd ar i fyny dros y tair blynedd diwethaf. Mae ein safle o ran DPC yn CA3 wedi gwella o 7<sup>fed</sup> i'r 5<sup>ed</sup> safle yng Nghymru.

Dengys meincnodi ar Lefel 5+ berfformiad amrywiol mewn Saesneg a Gwyddoniaeth. Cynyddodd nifer yr ysgolion yn y ddau chwarter uchaf o un (75%). Mewn Mathemateg a DPC gostyngodd nifer yr ysgolion â pherfformiad uwchlaw'r canolrif o un (62.5%). Ar Lefel 6+ mae mwy o ysgolion yn y ddau chwarter uchaf ar gyfer Saesneg (50%) a Gwyddoniaeth (87.5%), gyda pherfformiad yn y Gymraeg yn aros yn 100%. Roedd gan un yn llai o ysgolion berfformiad uwchlaw'r canolrif mewn Mathemateg y flwyddyn academaidd hon, gan wneud y canlyniad i'r ALI yn 62.5%. Ar Lefel 7+, mae'r data meincnodi yn adlewyrchu perfformiad gwell. Roedd gan ddwywaith gymaint o ysgolion berfformiad uwchlaw'r canolrif mewn Saesneg (75%) tra bod y perfformiad mewn Mathemateg wedi cynyddu i 87.5% ac yn Gymraeg i 100%. Mae culhau'r bwllch rhwng eFSM a rhai nad ydynt yn FSM yn parhau, gyda chulhau pellach i 15.9% o ran perfformiad DPC. Mae hyn yn llai na hanner y gwahaniaeth yn 2012 ac mae'n parhau i fod yn ffocws ar gyfer gwelliant.

Mae'r data ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 yn dangos perfformiad gwell yn L2 ar gyfer Saesneg (+5.2%), Mathemateg (+1.6%) a Gwyddoniaeth (+3.5%). Gostyngodd L2 Cymraeg (-1.4%). Dangosodd y DPC gynnydd pellach o 4.6%, wedi cynyddu o 9.9% y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Cynyddodd dangosydd L2+ o 2.5% i 64.7%, gan osod y Fro yn yr ail safle yng Nghymru. Fodd bynnag, cafodd pum ysgol ostyngiad yn L2+: Bryn Hafren (-1%), Y Bont-faen (-10%), St Richard Gwyn (-3%), St Cyres (-2%) a Bro Morgannwg (-4%). Maint y cynnydd mewn perfformiad L2+ yn yr ysgolion oedd yn weddill a arweiniodd at y gwelliant ym mherfformiad L2+ yr awdurdod lleol. Mae hwn yn faes o ffocws ar gyfer gwelliant gyda'r ysgolion perthnasol. Ar gyfer trothwy lefel 2+, dengys y gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng eFSM a rhai nad ydynt yn FSM gulhau ymylol o 37.6% yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf a 37.3% eleni, ac mae'n parhau i fod yn faes sylweddol o angen datblygiadol. Wrth

ystyried perfformiad L2+ disgyblion eFSM, mae tair ysgol gyda llai na 35% o'r disgyblion hyn yn cyflenwi'r trothwy L2+: Y Bont-faen (33.3%), y Barri (19.4%) a Bryn Hafren (23.1%).

Roedd cynnydd ar y cyfan yn gadarnhaol yng Nghyfnod Allweddol 5, gyda pherfformiad A/S i'r awdurdod lleol wedi gwella o 2.2% o ran graddau A-C a llwyddodd mwy (+ 1.8%) i gael gradd A.

Ar lefel 'A' gwelwyd dirywiad yn y perfformiad ar gyfer y Fro. Gostyngodd canran y ceisiadau a gafodd raddau A\* i A i 22.9% o 27.9% yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Sicrhaodd llai o ddisgyblion raddau A\* i C (75.5% o 76.3%) a graddau A\* i E (97.5% o 98%). Ar ben hynny mae'r perfformiad yn debyg i'r rhai ar gyfer y consortiwm, pan ddylai fod yn sylweddol uwch. Mae perfformiad ôl-16 wedi dod yn ffocws ar gyfer datblygu.

<b>Meysydd Gwella</b>		<b>Terfyn amser</b>
1	Sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer dysgwyr sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.	2016/17
2	Adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion hynny a addysgir tu allan i leoliad ysgol.	2016/17
3	Ystyried goblygiadau'r Mesur Anghenion Dysgu Ychwanegol a sicrhau cydymffurfriad, a sicrhau canlyniadau uchelgeisiol ar gyfer dysgwyr ag anghenion ychwanegol.	2016/17
4	Gweithredu offeryn cyson (Alps) sy'n hwyluso barn ar gynnydd dysgwyr gan sicrhau blaenoriaethu effeithiol ac effeithlon i gyflenwi canlyniadau gwell ar gyfer dysgwyr.	2016/17

## 4. Perfformiad Bro Morgannwg Diwedd Blwyddyn 2015/16: Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol

### Crynodeb o berfformiad yn erbyn Dangosyddion Cenedlaethol ar 19<sup>eg</sup> Awst 2016

Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru a'r Uned Ddata Llywodraeth Leol yn cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad yr awdurdodau lleol ar ystod o wasanaethau, gan amlygu meysydd lle bu newidiadau nodedig yn y lefel gyffredinol o berfformiad. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i gymharu perfformiad y 22 awdurdod lleol yng Nghymru ar draws y gwasanaethau hynny. Oherwydd newidiadau yng nghasgliad data perfformiad yn genedlaethol, hon fydd y flwyddyn olaf y bydd data cymharol ar gael ar gyfer set data hon.

Mae'r adran hon yn crynhoi ein perfformiad yn 2015/16 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (2014/15) ac o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill.

### Perfformiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol


Yn ystod 2015/16, casglwyd 44 o ddangosyddion perfformiad a'u cyhoeddi'n genedlaethol. O'r 44 dangosydd, roedd gan 43 ddata y gellir ei gymharu yn erbyn perfformiad 2014/15:

- Yn gyfan gwbl roedd 9 dangosydd wedi cyflawni'r perfformiad gorau bosibl yn 2015/16, sydd un yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. O'r rhain parhaodd 8 i gynnal eu perfformiad gorau bosibl (naill ai 100% neu 0%) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Y dangosydd a gyflawnodd ei berfformiad gorau bosibl mewn gwrthgyferbyniad â'r flwyddyn flaenorol oedd SCC33e: Canran y bobl ifanc a arferai dderbyn gofal y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod mewn llety addas nad yw'n llety argyfwng yn 19 oed. Yn ystod 2015/16, gwyddys bod 100% o bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal mewn llety addas nad yw'n llety argyfwng yn 19 oed, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol lle'r oedd 92.9% mewn llety addas nad oedd yn llety argyfwng.
- Dangosodd 55% (24) o ddangosyddion welliant (yn seiliedig ar eu gwerth DP) yn ystod 2015/16, lle'r oedd un dangosydd ychwanegol wedi dangos gwelliant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae 15 o'r 24 dangosydd eleni wedi parhau i ddangos gwelliant yn ystod 2015/16 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Dangosodd 10 dangosydd ddirywiad (yn seiliedig ar eu gwerth DP) yn ystod 2015/16, sef tri yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Roedd 4 o'r 10 mesur yn parhau i ddangos gostyngiad yn ystod 2015/16.<sup>4</sup>
- Ni ddangosodd 9 dangosydd unrhyw newid yn eu perfformiad yn ystod 2015/16 o'i gymharu â 2014/15.<sup>5</sup> Mae 8 o'r dangosyddion hyn wedi parhau i gynnal y perfformiad gorau bosibl (EDU/002i, EDU/002ii, EDU/015a, EDU/015b, SCA/019, SCA/018a, SCC/033d ac SCC/041a).

<sup>4</sup> Mae'r dangosyddion hyn yn cynnwys: EDU/006ii (gostyngiad bach iawn o 0.1% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol), SCC/045 (dirywiad bychan o 2.8% ar y llynedd), LCL/001b (gostyngiad o 609 o ymweliadau o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol), LCS/002b (gostyngiad ymylol o 228 o ymweliadau o'i gymharu â'r llynedd).

<sup>5</sup> Mae dangosyddion lle mae perfformiad wedi parhau'n sefydlog yn cynnwys: EDU/002i, EDU/002ii, EDU/015a, EDU/015b, EDU/016a, SCA/019, SCA/018a, SCC/033d ac SCC/041a.


- Mae 5 dangosydd a oedd wedi dangos gwelliant yn flaenorol yn 2014/15 (yn seiliedig ar eu gwerth DP) yn awr yn dangos dirywiad yn eu perfformiad ar gyfer 2015/16. Y rhain yw: SCA/001 (cyfradd trosglwyddo gofal gohiriedig) mae'r perfformiad wedi gostwng yn ymylol o 0.15 (gan ddangos bod y gyfradd drosglwyddo gofal wedi cynyddu o 4.55 yn 2014/15 i 4.70 yn 2015/16), SCC/004 (Plant sy'n derbyn gofal gyda 3 neu fwy o leoliadau) mae canran Plant sy'n Derbyn Gofal gyda 3 neu fwy o leoliadau wedi cynyddu o 2.9% (o 6.9% yn 2014/15 i 9.8% yn 2015/16), SCC011b (asesiadau cychwynnol lle mae plentyn wedi cael ei weld gan Weithiwr Cymdeithasol) mae hwn wedi gostwng o 10.9% o 30.7% yn 2014/15 i 19.8% yn 2015/16, THS/012 (prif ffyrdd A mewn cyflwr gwael) dim ond gostyngiad bach iawn o 0.3% ar y flwyddyn flaenorol, a PPN/009 (sefydliadau bwyd sy'n cydymffurfio'n gyffredinol â hylendid bwyd) sydd ond wedi gweld gostyngiad bach iawn o 0.04% ar y flwyddyn flaenorol. Er bod SCC/011b wedi dangos yr amrywiad mwyaf yn ei berfformiad, mae'n bwysig nodi bod y Cyngor wedi canolbwyntio ei adnoddau fwyfwy ar Swyddogion Gofal Cymdeithasol gan eu galluogi i weld plant ar eu pennau eu hunain yn yr asesiad cychwynnol (lle y tybir bod hynny'n briodol). Yn lle hynny, mae hyn yn galluogi'r plentyn i gael ei weld gan Swyddog Gofal Cymdeithasol cymwysedig, gan ryddhau amser ac adnoddau Gweithiwr Cymdeithasol ar gyfer achosion/ cleientiaid lle bernir bod hynny'n fwy priodol.





## Dadansoddiad o ddangosyddion yn ôl chwarter

Yn ystod 2015/16, dengys y data bod cynnydd da iawn wedi cael ei wneud o ran gwella perfformiad ein set ddata genedlaethol o ddangosyddion. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y dangosyddion sydd yn awr yn y chwarter uchaf ar gyfer eu perfformiad, gan gynyddu o 20 o ddangosyddion yn 2014/15 i 26 dangosydd yn ystod 2015/16. O ganlyniad, erbyn hyn mae llai o ddangosyddion yn y chwarter canol is a'r chwarter isaf nag a welwyd o'r blaen. Er enghraifft, mae nifer o ddangosyddion sydd bellach yn dod o fewn y chwarter canol is ar gyfer perfformiad wedi gostwng o 9 dangosydd yn 2014/15 i 7 dangosydd yn 2015/16. Mae'r un peth hefyd yn wir am berfformiad chwarter isaf, gyda'r rhain wedi gostwng o 9 dangosydd yn 2014/15 i 6 dangosydd yn 2015/16. Fodd bynnag, yn achos y 6 dangosydd sy'n weddill, mae'r duedd wedi aros yn gymharol sefydlog gyda'r un dangosyddion yn aros yn y chwarter isaf yn ystod 2015/16 ag oedd yn 2014/15, gan ddangos na fu unrhyw welliannau sylweddol i alluogi'r dangosyddion hyn i symud allan o'r chwarter isaf o ran eu perfformiad. Y dangosyddion hyn yw: SCA/002a (Cyfradd y bobl hŷn a gefnogir yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth), SCA/007 (Canran y cleientiaid gyda Chynllun Gofal a adolygwyd), SCC/011b (Canran yr asesiadau cychwynnol lle mae'r plentyn wedi ei weld ar ei ben ei hun gan weithiwr cymdeithasol), THS/012a (canran y ffyrdd sydd mewn cyflwr gwael), PPN/009 (canran y sefydliadau bwyd sy'n cydymffurfio'n gyffredinol â safonau hylendid bwyd) ac LCS/002b (Ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden fesul 1,000 o'r boblogaeth).



#### Chwarter uchaf (1<sup>af</sup>):

- Roedd 59% (26) o ddangosyddion yn y chwarter uchaf o berfformiad, yn cynrychioli cynnydd o 15% ar y flwyddyn flaenorol lle nodwyd bod 44% (20) o ddangosyddion yn y chwarter uchaf o ran eu perfformiad.

#### Chwarter canol uwch (2<sup>il</sup>):

- Roedd 11% (5) o ddangosyddion yn y chwarter canol uwch (2<sup>il</sup>) yn ystod 2015/16 o'i gymharu â 15% (7) o ddangosyddion yn y flwyddyn flaenorol (2014/15).

#### Chwarter canol is (3<sup>ydd</sup>):

- Roedd 16% (7) dangosyddion yn y chwarter canol is o ran eu perfformiad yn ystod 2015/16, yn cynrychioli 4% o ostyngiad ar y flwyddyn flaenorol lle nodwyd bod 20% (9) o ddangosyddion yn y chwarter canol is.

#### Chwarter isaf (4<sup>ydd</sup>):

- Arhosodd 14% (6) o ddangosyddion yn y chwarter isaf o ran eu perfformiad yn ystod 2015/16 o'i gymharu â 20% (9) o ddangosyddion yn y flwyddyn flaenorol (2014/15).

## Perfformiad o'i gymharu â Chymru a Rhanbarth De-ddwyrain Cymru

Maes gwasanaeth	% o ddangosyddion cymharol sydd wedi gwella				Cymhariaeth â Chymru a De-ddwyrain Cymru: Cyfartaleddau ar gyfer 2015/16		
	Nifer o ddangosyddion	Y Fro	Cymru	De-ddwyrain Cymru	Nifer o ddangosyddion	Y Fro yn well na Chymru	Y Fro yn well na De-ddwyrain Cymru
<b>Gofal Cymdeithasol</b>	16	50% (8)	69% (11)	63% (10)	16	69% (11)	75% (12)
<b>Addysg</b>	11	46% (5)	91% (10)	82% (9)	11	91% (10)	91% (10)
<b>Trafnidiaeth a Phrifyrdd</b>	5	80% (4)	80% (4)	80% (4)	5	60% (3)	40% (2)
<b>Tai</b>	3	100% (3)	0% (0)	33% (1)	3	100% (3)	100% (3)
<b>Ynni</b>	1*	amh.	amh.	amh.	1	100% (1)	100% (1)
<b>Gwasanaethau Rheoleiddio</b>	1	0% (0)	100% (1)	100% (1)	1	0% (0)	0% (0)
<b>Hamdden a Diwylliant</b>	2	0% (0)	0% (0)	0% (0)	2	50% (1)	0% (0)
<b>Rheoli Gwastraff a Glendid</b>	4	100% (4)	75% (3)	100% (4)	4	100% (4)	100% (4)
<b>Gweithlu</b>	1	0% (0)	0%(0)	0% (0)	1	100% (1)	100% (1)
<b>Cyffredinol</b>	43*	56% (24)	67% (29)	67% (29)	44	77% (34)	75% (33)

\* Nid oedd data cymharol ar gael ar gyfer 2015/16 i ddangosydd CAM/037.

## Trosolwg Perfformiad Dangosyddion NSI/PAM ar gyfer 2015/16

Allwedd Cyfeiriad Teithio	
Wedi gwella	↑
Sefydlog	↔
Wedi dirywio	↓
Perfformiad gorau bosibl	PG

Nodyn: Mae'r data cymharol a amlinellir isod dan embargo gan Lywodraeth Cymru tan 7 Medi 2016, felly ni ellir rhannu na chyhoeddi'r data hwn yn allanol tan hynny.

Ein canlyniad 2014/15	A yw ein canlyniad wedi gwella o 2014/15 i 2015/16?		22 <sup>ain</sup>	21 <sup>ain</sup>	20 <sup>fed</sup>	19 <sup>eg</sup>	18 <sup>fed</sup>	17 <sup>eg</sup>	16 <sup>eg</sup>	15 <sup>fed</sup>	14 <sup>eg</sup>	13 <sup>eg</sup>	12 <sup>fed</sup>	11 <sup>eg</sup>	10 <sup>fed</sup>	9 <sup>fed</sup>	8 <sup>fed</sup>	7 <sup>fed</sup>	6 <sup>ed</sup>	5 <sup>ed</sup>	4 <sup>ydd</sup>	3 <sup>ydd</sup>	2 <sup>il</sup>	1 <sup>af</sup>
	Ein canlyniad 2015/16	Gwella ↑ Sefydlog ↔ Dirywio ↓	Canlyniadau gwaethaf																Canlyniadau gorau					
		↔	Rheng																					
			Saethau yn cychwyn o'n safle 2014/15 i'n safle 2015/16																					

### Dysgu a Sgiliau

EDU/002i- % o'r holl ddisgyblion sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy (NSI/PAM)	0.0%	0.0%	↑ PG																					↔
EDU/002ii- % o ddisgyblion yng ngofal yr awdurdod lleol y'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy. (NSI).	0.0%	0.0%	↔ PG																					↔
EDU/003- % o ddisgyblion a aseswyd ar ddiwedd CA2 a gyflawnodd y Dangosydd Pwnc Craidd yn ôl Asesiad Athro. (NSI/PAM)	90.5%	92.1%	↑																					↔
EDU/006ii- % o ddisgyblion a aseswyd drwy dderbyn Asesiad Athro yn y Gymraeg yn CA3. (NSI)	8.9%	8.8%	↓						↔															
EDU/011- Sgôr pwyntiau cyfartallog ar gyfer disgyblion 15 oed ar y 31ain Awst blaenorol. (NSI/PAM).	576.1	585	↑																			→		
EDU/015a- % o ddatganiadau terfynol AAA a gyhoeddwyd o fewn 26 wythnos gan gynnwys eithriadau (NSI).	100%	100%	↔ PG																					↔
EDU/015b- % o ddatganiadau terfynol AAA a gyhoeddwyd o fewn 26 wythnos heb gynnwys eithriadau (NSI).	100%	100%	↔ PG																					↔
EDU/017- % o ddisgyblion 15 oed a gyflawnodd drothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd TGAU A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg (NSI).	62.2%	64.90%	↑																					↔
EDU/004 - % o ddisgyblion a aseswyd ar ddiwedd CA3 a gyflawnodd y Dangosydd Pwnc Craidd yn ôl Asesiad Athro (PAM).	84.0%	87.40%	↑															→						
EDU/016a- % o bresenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (PAM).	95.3%	95.30%	↔																			↔		
EDU/016b- % o bresenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (PAM).	94.2%	94.70%	↑																			→		
LCL/001b- Nifer o ymweliadau â Llyfrgelloedd Cyhoeddus fesul 1,000 o'r boblogaeth (NSI)	6,276	5,667	↓																←					

Gwasanaethau Cymdeithasol

	Ein canlyniad 2014/15	A yw ein canlyniad wedi gwella o 2014/15 i 2015/16?		22 <sup>ain</sup>	21 <sup>ain</sup>	20 <sup>fed</sup>	19 <sup>eg</sup>	18 <sup>fed</sup>	17 <sup>eg</sup>	16 <sup>eg</sup>	15 <sup>fed</sup>	14 <sup>eg</sup>	13 <sup>eg</sup>	12 <sup>fed</sup>	11 <sup>eg</sup>	10 <sup>fed</sup>	9 <sup>fed</sup>	8 <sup>fed</sup>	7 <sup>fed</sup>	6 <sup>ed</sup>	5 <sup>ed</sup>	4 <sup>ydd</sup>	3 <sup>ydd</sup>	2 <sup>il</sup>	1 <sup>af</sup>	
		Ein canlyniad 2015/16	Gwella ↑ Sefydlog ↔ Dirywio ↓	Canlyniadau gwaethaf													Canlyniadau gorau									
		Rheng Saethau yn cychwyn o'n safle 2014/15 i'n safle 2015/16																								
SCC/033f- % o bobl ifanc (19 oed) a arferai dderbyn gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu waith (NSI).	57.1%	61.9%	↑											↔												
SCA/001- Cyfradd trosglwyddiadau gofal gohiriedig fesul 1,000 o'r boblogaeth oed 75> (NSI).	4.55	4.7	↓									←														
SCA/002a- Cyfradd y bobl hŷn a gefnogir yn y gymuned (65 neu drosodd) fesul 1,000 o'r boblogaeth (NSI).	41.13	41.57	↑	→																						
SCA/002b- Cyfradd y bobl hŷn a gefnogir mewn cartrefi gofal (65 neu drosodd) fesul 1,000 o'r boblogaeth (NSI).	15.7	14.64	↑																			→				
SCA/019- % o gyfeiriadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd lle maet risg yn cael ei reoli (NSI/PAM).	100%	100%	↔ PG																						↔	
SCA/007- % o gleientiaid gyda chynllun gofal ar 31 Mawrth a ddylai fod wedi eu hadolygu ac a gafodd eu hadolygu (PAM).	75.7%	76.4%	↑					←																		
SCA/018a- % o ofalwyr a gafodd gynnis asesiad/ adolygiad o'u hanghenion yn ôl eu teilyngdod eu hunain (PAM).	100%	100%	↔ PG																						↔	
SCC/002- % o blant sŷn derbyn gofal sydd wedi profi 1 neu fwy o newidiadau ysgol nad oedd oherwydd trefniadau trosiannol o fewn y 12 mis hyd at 31 Mawrth (NSI).	13.0%	12.6%	↑													←										
SCC/004- % o blant sŷn derbyn gofal gyda 3 neu fwy o leoliadau yn y flwyddyn (NSI/PAM).	6.9%	9.80%	↓											←												
SCC/011b- % o asesiadau cychwynnol lle mae plentyn wedi cael ei weld ar ben ei hun gan Weithiwr Cymdeithasol (NSI).	30.7%	19.80%	↓	↔																						

**Gwasanaethau Cymdeithasol**

	Ein canlyniad 2014/15	A yw ein canlyniad wedi gwella o 2014/15 i 2015/16?		22 <sup>ain</sup>	21 <sup>ain</sup>	20 <sup>fed</sup>	19 <sup>eg</sup>	18 <sup>fed</sup>	17 <sup>eg</sup>	16 <sup>eg</sup>	15 <sup>fed</sup>	14 <sup>eg</sup>	13 <sup>eg</sup>	12 <sup>fed</sup>	11 <sup>eg</sup>	10 <sup>fed</sup>	9 <sup>fed</sup>	8 <sup>fed</sup>	7 <sup>fed</sup>	6 <sup>ed</sup>	5 <sup>ed</sup>	4 <sup>ydd</sup>	3 <sup>ydd</sup>	2 <sup>il</sup>	1 <sup>af</sup>		
		Ein canlyniad 2015/16	Gwella ↑ Sefydlog ↔ Dirywio ↓	Canlyniadau gwaethaf												Canlyniadau gorau											
				Rheng Saethau yn cychwyn o'n safle 2014/15 i'n safle 2015/16																							
SCC/033d- % o bobl ifanc (19 oed) a arferai dderbyn gofal y mae'r ALI mewn cyswllt â hwy (NSI).	100%	100%	↔ PG																							↔	
SCC/033e- % o bobl ifanc (19 oed) a arferai dderbyn gofal y mae'r ALI mewn cyswllt â hwy sydd mewn llety addas nad yw'n llety argyfwng (NSI).	92.9%	100.0%	↑ PG																							→	
SCC/033f- % o bobl ifanc (19 oed) a arferai dderbyn gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu waith (NSI).	57.1%	61.9%	↑											↔													
SCC/037- sgôr pwyntiau cymwysterau allanol cyfartalog plant sy'n derbyn gofal 16 oed (NSI).	224	305	↑																								
SCC/041a- % o blant cymwys sydd â chynlluniau llwybr fel syn ofynnol (NSI).	100%	100%	↔ PG																							↔	
SCC/045- % o adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a Phlant mewn Angen a gynhaliwyd yn unol â'r amserlen statudol (PAM).	96.4%	93.6%	↓																								
SCC/25- % o ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal yn unol â'r rheoliadau (PAM).	94.5%	96.1%	↑																							↔	

**Adnoddau**

	Ein canlyniad 2014/15	A yw ein canlyniad wedi gwella o 2014/15 i 2015/16?		22 <sup>ain</sup>	21 <sup>ain</sup>	20 <sup>fed</sup>	19 <sup>eg</sup>	18 <sup>fed</sup>	17 <sup>eg</sup>	16 <sup>eg</sup>	15 <sup>fed</sup>	14 <sup>eg</sup>	13 <sup>eg</sup>	12 <sup>fed</sup>	11 <sup>eg</sup>	10 <sup>fed</sup>	9 <sup>fed</sup>	8 <sup>fed</sup>	7 <sup>fed</sup>	6 <sup>ed</sup>	5 <sup>ed</sup>	4 <sup>ydd</sup>	3 <sup>ydd</sup>	2 <sup>il</sup>	1 <sup>af</sup>		
		Ein canlyniad 2015/16	Gwella ↑ Sefydlog ↔ Dirywio ↓	Canlyniadau gwaethaf												Canlyniadau gorau											
				Rheng Saethau yn cychwyn o'n safle 2014/15 i'n safle 2015/16																							
PSR/002- Nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerwyd i gyflenwi Grant Cyfleusterau i'r Anabl (NSI/PAM).	199	178	↑																								
PSR/004- % yr anheddau sector preifat (yn wag am > 6 mis) a ddychwelwyd i feddiannaeth trwy weithredu uniongyrchol gan yr ALI (NSI).	17.61%	40.23%	↑																							→	
PLA/006b- Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel % o'r holl unedau tai ychwanegol (NSI/PAM).	35%	56%	↑																							→	
CAM/037- Canran y newid yn y sgôr T ystygrif Ynni i'w Harddangos yn adeiladau cyhoeddus yr awdurdod lleol dros 1,000 M2	N/A	5.2%	amh.																								
CHR/002: Nifer y diwrnodau gwaith / sifftiau a gollwyd fesul awdurdod lleol cywerth ag amser llawn oherwydd absenoldeb salwch (PAM)/	9.44	9.6	↓																							→	

Yr Amgylchedd, Hamdden a Thai																										
	Ein canlyniad 2014/15	A yw ein canlyniad wedi gwella o 2014/15 i 2015/16?		22 <sup>ain</sup>	21 <sup>ain</sup>	20 <sup>fed</sup>	19 <sup>eg</sup>	18 <sup>fed</sup>	17 <sup>eg</sup>	16 <sup>eg</sup>	15 <sup>fed</sup>	14 <sup>eg</sup>	13 <sup>eg</sup>	12 <sup>fed</sup>	11 <sup>eg</sup>	10 <sup>fed</sup>	9 <sup>fed</sup>	8 <sup>fed</sup>	7 <sup>fed</sup>	6 <sup>ed</sup>	5 <sup>ed</sup>	4 <sup>ydd</sup>	3 <sup>ydd</sup>	2 <sup>il</sup>	1 <sup>af</sup>	
		Ein canlyniad 2015/16	Gwella ↑ Sefydlog ↔ Dirywio ↓	Canlyniadau gwaethaf												Canlyniadau gorau										
		Rheng Saethau yn cychwyn o'n safle 2014/15 i'n safle 2015/16																								
THS/007- % o oedolion 60+ oed sydd â thocyn teithio rhalach (NSI).	82.4%	92.1%	↑																							
THS/012- % o ffyrdd (A), (B) & (C) syn gyffredinol mewn cylwr gwael (NSI).	9.9%	9.2%	↑																							
THS/012a- % o ffyrdd (A) syn gyffredinol mewn cylwr gwael (NSI).	5.6%	5.9%	↓																							
THS/012b- % o ffyrdd (B) syn gyffredinol mewn cylwr gwael (NSI).	5.0%	4.7%	↑																							
THS/012c- % o ffyrdd (C) syn gyffredinol mewn cylwr gwael (NSI).	13.9%	12.3%	↑																							
STS/005b- % o briffyrdd a arolygir am safonau glendid uchel/ derbynol (PAM).	95.7%	97.0%	↑																							
STS/006- % o dipio anghyfreithlon yr adroddir amdano syn cael ei glirio mewn 5 diwrnod gwaith (NSI).	96.38%	97.90%	↑																							
WMT/004b- % o wastraff trefol a anfonir i safleoedd tirlenwi (NSI/PAM).	29.41%	5.70%	↑																							
WMT/009b- % o wastraff trefol a gaiff ei aildddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio neu ei drin yn fiolegol mewn ffordd arall (NSI/PAM).	56.00%	64.54%	↑																							
PPN/009- % o safleoedd bwyd syn cydymffurfio'n gyffredinol â safonau hylendid bwyd (PAM).	90.73%	90.69%	↓																							
LCS/002b- Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau Chwaraeon a Hamdden fesul 1000 o'r boblogaeth (NSI).	6,256	6,028	↓																							

## Sylwebaeth ar ddangosyddion perfformiad chwarterel isaf

Maes gwasanaeth	Perfformiad Dangosydd	Sylwebaeth ar Berfformiad 2015/16
Gwasanaethau Cymdeithasol	SCA/007: Canran y cleientiaid â chynlluniau gofal ar 31 Mawrth y dylid bod wedi'u hadolygu ac a gafodd eu hadolygu. (PAM)	<p>Mae hyn yn arwydd o'r cynnydd yn y galw am wasanaethau. Mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth i symud Aseidiadau Integredig newydd ymlaen, yn hytrach nag adolygu achosion sefydledig. Mae meysydd gwasanaeth yn ystyried p'un ai i ddatblygu unedau swyddogaethol llai i ganolbwyntio ar weithgaredd adolygu; fodd bynnag, mae'r dangosydd hwn yn parhau i fod yn flaenoriaeth is nag eraill.</p> <p>Serch hynny, roedd y perfformiad a adroddwyd ar gyfer 2015/16 (76.4) yn welliant ar y flwyddyn flaenorol; fodd bynnag, mae hyn yn parhau yn is na chyfartaledd Cymru o 83.</p>
Gwasanaethau Cymdeithasol	SCC/011b: Canran yr aseidiadau cychwynnol lle mae'r plentyn wedi cael ei weld ei ben ei hun gan weithiwr cymdeithasol. (NSI)	Nid yw bob amser yn briodol i blentyn gael ei weld ar ei ben ei hun yn ystod yr asesiad cychwynnol. Adolygwyd y gweithdrefnau gweithredol a phrosesau cofnodi ac mae ymdrechion yn parhau i sicrhau cofnodi cywir.
Amgylchedd a Thai	THS/012a: Canran y ffyrdd 'A' sydd yn gyffredinol mewn cyflwr gwael(NSI)	<p>Mae rhwydwaith ffyrdd y Fro yn ased sy'n dirywio'n barhaus ac sydd angen buddsoddiad parhaus a sylweddol o dros £2m o un flwyddyn i'r llall er mwyn cynnal cyflwr sefydlog, ac mae'r modd y caiff ei reoli a'i gynnal yn effeithio'n uniongyrchol ar drigolion, busnesau ac ymwelwyr sy'n ei ddefnyddio o ddydd i ddydd. Sicraodd y Cyngor fuddsoddiad cyfalaf o £1.83m y flwyddyn drwy Fenter Bentyca Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru (LGBI) rhwng 2012/13 i 2014/15, gan leihau'r ôl-groniad cynnal a chadw cyffredinol ar ffyrdd y Fro; fodd bynnag yn y blynyddoedd dilynol gwelwyd y buddsoddiad cyfalaf yn gostwng i tua 50% o'r hyn sydd ei angen i gynnal cyflwr sefydlog.</p> <p>O ganlyniad, bydd cyflwr cyffredinol y rhwydwaith priffyrdd, gan gynnwys ffyrdd 'A', yn dirywio'n gyflym yn is na'r cyflwr gwell a chyson a gyflawnwyd yn ystod y blynyddoedd o fuddsoddi cyfalaf drwy'r LGBI. Gwaethygir y sefyllfa hon ymhellach gan y cynnydd cyffredinol ym mhob dosbarth ffordd sy'n profi mwy o draffig, gydag amcangyfrifon dros dro gan yr Adran Drafnidiaeth (DfT), Amcangyfrifon Chwarterol</p>

Maes gwasanaeth	Perfformiad Dangosydd	Sylwebaeth ar Berfformiad 2015/16
		<p>Traffig y Ffyrdd, Prydain Fawr Gorffennaf i 2015 i Mehefin 2016, yn dangos bod y traffig cerbydau ar uchafswm mwyaf erioed yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben Mehefin 2016, 1.5% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol gyda thraffig cerbydau blynyddol treigl yn awr wedi cynyddu bob chwarter yn olynol ers tair blynedd. O'i gymharu â'r 12 mis blaenorol, cynyddodd traffig HGV 3.8% yn gyffredinol ar draffyrdd a ffyrdd gwledig 'A'. Mae'r dirywiad yng nghyflwr y ffyrdd yn bennaf o ganlyniad i faint y traffig HGV sy'n teithio ar hyd y rhwydwaith ffyrdd.</p> <p>Er mwyn manteisio i'r eithaf ar allu'r Cyngor i gynnal y rhwydwaith priffyrdd lleol, sefydlwyd cynllun 3 blynedd o ailwynebu a thriniaethau gorffenwaith wyneb, a chaiff ei adolygu'n flynyddol ar y cyd â'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd. Mae hyn yn ystyried amryw o feini prawf, gan gynnwys cyflwr y ffyrdd, dosbarthiad y ffyrdd a chostau cynnal a chadw fel rhan o System Sgorio Blaenoriaeth Ailwynebu Cerbyttffyrdd, er mwyn sefydlu'r ffyrdd sydd angen y gwaith mwyaf brys. Mae hyn yn galluogi targedu arian cyfalaf yn y dyfodol yn y modd mwyaf economaidd ac effeithlon i gynnal y rhwydwaith priffyrdd cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.</p> <p>Yn ogystal, mae'r Cyngor hefyd bob amser yn ystyried triniaethau wyneb arloesol i wella a diogelu asedau priffyrdd yn ogystal ag ymestyn y buddsoddiad gwaith cyfalaf blaenorol yn y rhwydwaith ffyrdd.</p>
Amgylchedd a Thai	PPN009: Canran yr adeiladau bwyd sy'n cydymffurfio'n gyffredinol â safonau hylendid bwyd (PAM)	Mae cydymffurfiaeth bras yn fesur o gydymffurfiaeth busnesau â deddfwriaeth. Rydym wedi cynnal hyfforddiant ychwanegol gyda busnesau bwyd ac wedi defnyddio cyllid yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) i ddarparu hyfforddiant ychwanegol a chymorth i helpu busnesau o ran gwelliant a chydymffurfio parhaus. Mae colli Swyddogion Bwyd yn ystod y flwyddyn yn golygu bod ein perfformiad wedi llithro ychydig o'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae swyddogion bellach yn eu swyddi, a pherfformiad presennol yn awgrymu ein bod ar y trywydd iawn i wella ar ein perfformiad yn 2016.



Maes gwasanaeth	Perfformiad Dangosydd	Sylwebaeth ar Berfformiad 2015/16
Amgylchedd a Thai	LCS/002b: Nifer o ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden fesul 1,000 o'r boblogaeth (NSI)	<p>Mae'r diffiniad ar gyfer y dangosydd hwn yn cynnwys data o gyfranogi mewn gweithgareddau hamdden awyr agored, yn enwedig meysydd chwaraeon. Gall ein perfformiad ymwneud yn rhannol â'r ffaith na ellir cynnwys ffigyrau cyfranogiad rhai cyfleusterau hamdden sylweddol ar safleoedd ysgolion (yn enwedig caeau glaswellt artiffisial a neuaddau chwaraeon) a ddefnyddir gan y cyhoedd pan fo cynghorau eraill yn gallu gwneud hynny, gan eu bod yn cael eu gweithredu gan yr Adran Hamdden yn hytrach na'r ysgol.</p> <p>Mae'r Cyngor yn hyderus ynglŷn â dilysrwydd ei ddata ei hun, ac o ystyried ei fod yn y safle cyntaf yng Nghymru ar gyfer lefelau gweithgarwch corfforol oedolion ac yn drydydd o ran plant a phobl ifanc yn ôl Chwaraeon Cymru, mae hefyd yn hyderus bod ei gyfleoedd hamdden, gan gynnwys y rheini ar safleoedd ysgolion a ddefnyddir gan y cyhoedd, ond nad ydynt wedi'u cofnodi yn y data, yn cael eu defnyddio'n helaeth. Ynghyd â'r ffaith mai'r Fro hefyd yw'r unig gyngor yng Nghymru nad yw'n cynnig cymhorthdal i weithredydd (DSO, Ymddiriedolaeth neu sefydliad arall) reoli ei ganolfannau hamdden, nid ystyrir bod perfformiad ei gyfleusterau yn broblem fawr. Nodwyd bod dull y Cyngor o reoli ei ganolfannau hamdden yn enghraifft o arfer da yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Ddarpariaeth Hamdden Awdurdodau Lleol yng Nghymru (Cyflenwi â Llai - Gwasanaethau Hamdden).</p> <p>Hefyd nid yw'r Cyngor yn codi tâl ar gyfer cyfleusterau ymarfer ar ei feysydd chwaraeon, neu ar gyfer pob lefel o bêl-droed mini, ac felly nid yw'n cofnodi data defnydd ar gyfer y gweithgareddau hyn, sydd yn helaeth.</p> <p>Fodd bynnag, mae'r Cyngor bob amser yn chwilio am gyfle i gynyddu lefelau cyfranogiad drwy weithio mewn partneriaeth â Legacy Leisure a darparwyr cyfleoedd hamdden awyr agored. Mae ein Cynllun Partneriaeth Awdurdodau Lleol hefyd yn nodi nifer o fentrau allweddol</p>

Maes gwasanaeth	Perfformiad Dangosydd	Sylwebaeth ar Berfformiad 2015/16
		<p>a gynlluniwyd i gynyddu cyfleoedd cyfranogi. Derbyniodd hwn gefnogaeth lawn Chwaraeon Cymru, sy'n bartner ariannol allweddol o ran cyflenwi'r cynllun, ac sydd wedi defnyddio'r Fro fel enghraifft o arfer gorau wrth ddatblygu rhaglenni gweithgarwch corfforol newydd.</p> <p>Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn cyflwyno 6 maes chwarae pob tywydd newydd dros y flwyddyn nesaf, a fydd yn cynyddu ymhellach y cyfleoedd i drigolion, clybiau chwaraeon ac ysgolion gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol a chyfrannu at lefelau cyfranogiad gwell, gan y byddant yn cael eu gweithredu gan y Cyngor neu bartner a fydd yn cofnodi'r lefelau defnydd.</p>

## 5. Casgliad Cydweithio

Mae'r adran hon yn nodi'r gweithgareddau strategol ar y cyd a gynhaliwyd gan y Cyngor yn ystod 2015/16 ac yn amlinellu'r cynnydd a chyflawniadau hyd yn hyn.

Disgrifiad o'r project	Partneriaid	Diweddariad cynnydd a chyflawniadau
<p><b>Prosiect Gwyrdd</b> Caffael ar y cyd (contract 25 mlynedd) Cyfleuster Trin Gwastraff Gweddilliol sy'n gwasanaethu pob un o'r 5 awdurdod lleol partneriaethol.</p>	<p>Cynghorau Caerffili, Caerdydd, Mynwy a Chasnewydd.</p>	<p>Cychwynnodd y contract yn ffurfiol ar 1 Ebrill 2016; fodd bynnag gwnaed arbedion sylweddol eisoes trwy ddargyfeirio gwastraff i'r gwaith llawer cynharach na'r disgwyl. Mae ailgylchu Llundw Gwaelod Llosgydd (IBA) o'r Prosiect Gwyrdd a Pharc Trident ers mis Awst 2015 wedi helpu'r Cyngor i wella ei berfformiad cyffredinol a bydd yn cyfrannu tuag at sicrhau bod y Cyngor yn gyfrifol yn amgylcheddol ac yn parhau i fod ar y trywydd iawn i gyflawni targedau cenedlaethol o ran ailgylchu yn y dyfodol. Yn ystod 2015/16 cyflawnodd y Cyngor gyfradd ailgylchu o 64.54% ,sy'n uwch na'r targed statudol o 58% ac yn ein rhoi ymysg y perfformwyr chwarterl uchaf yng Nghymru, yn y 3<sup>ydd</sup> safle. Yn ogystal, er mantais ychwanegol i adfer gwastraff, mae'r Fro wedi lleihau faint o wastraff y mae'n ei anfon i safleoedd tirlenwi i 5.7%. Arbedodd y Prosiect Gwyrdd 500k yn 2015/16 a disgwylir iddo arbed £1m yn 2016/17.</p>
<p><b>Triniaeth Gwastraff Organig Caerdydd</b> Caffael ar y cyd tymor hir (15 mlynedd) o gapasiti trin TA ar gyfer bwyd cegin a gwastraff gardd gwyrdd.</p>	<p>Cyngor Caerdydd</p>	<p>Llofnodwyd CRhA (Cytundeb Rhyng Awdurdod) gyda Chyngor Dinas Caerdydd ac mae'r safle newydd sy'n cael ei adeiladu i fod wedi'i gwblhau erbyn diwedd yr haf 2016, ychydig yn gynt na'r disgwyl. Mae'r cyfleuster Treulio Anaerobig newydd (TA) yn cael ei adeiladu ar y safle a ffeirir ar Ffordd Tide, Tremorfa, Caerdydd, a bydd yn cipio ynni o wastraff bwyd. Rheolir y safle gan Kelda ac o ddiwedd Hydref 2016 hyd at ddechrau'r prif gontract ym mis Ebrill 2017, ceir cyfnod comisiynu sydd wedi'i gynllunio i brofi effeithiolrwydd y safle.</p>
<p><b>Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir (GRhR)</b> Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir ar draws Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg i ddarparu gwytnwch</p>	<p>Cynghorau Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr</p>	<p>Daeth y Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir yn weithredol ar 1<sup>af</sup> Mai 2015. Mae'r Model Gweithredu newydd a gynlluniwyd o amgylch anghenion defnyddwyr gwasanaeth o safbwynt diogelu'r cyhoedd yn ei le, ac mae'r gwasanaeth wedi cyflwyno'r holl targedau a'r camau gweithredu a nodwyd ym Mlwyddyn 1 y cynllun busnes tair blynedd,</p>

Disgrifiad o'r project	Partneriaid	Diweddariad cynnydd a chyflawniadau
<p>gwasanaeth, mynediad at adnoddau arbenigol, gwella a chynnal lefelau gwasanaeth a chreu arbedion ariannol.</p>		<p>gyda'r holl gynlluniau statudol wedi'u cyhoeddi ar amser, mentrau gorfodi wedi'u cwblhau a'r rhaglenni newid a nodwyd ar gyfer y cyfnod wedi'u cychwyn ar amser.</p> <p>Un o gyflawniadau allweddol y gwasanaeth yn 2015/16 oedd cyflenwi busnes fel arfer drwy'r broses o newid. Parhaodd y GRhR i archwilio, samplo, cynghori, ymyrryd, a chosbi drwgweithredwyr.</p>
<p><b>Contract Canolfannau Hamdden</b> Mae gan y Cyngor gontract partneriaeth gyda Legacy Leisure i reoli ei ganolfannau hamdden.</p>	<p>Parkwood Leisure – is-gontractwyd i Legacy Leisure</p>	<p>Gwnaed arbedion ychwanegol yn ystod 2015/6 o ganlyniad i'r is-gontract â Legacy. Yn ogystal, defnyddiwyd y contract yn ddiweddar fel enghraifft o arfer da yn astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru o Wasanaethau Hamdden Awdurdodau Lleol yng Nghymru.</p>
<p><b>Cytundeb Partneriaeth Awdurdod Lleol (CPALI)</b> Mae'r Cytundeb yn anelu at gydlynw'r ystod o weithgarwch corfforol ac ymyriadau chwaraeon a gyflenwir er mwyn cynyddu gweithgarwch corfforol a chyfranogiad mewn chwaraeon.</p>	<p>Chwaraeon Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol, Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc, clybiau chwaraeon lleol.</p>	<p>Cynlluniwyd CPALI 2015/16, a gymeradwywyd gan Chwaraeon Cymru, i ddarparu mwy o gyfleoedd i gyfranogi mewn gweithgarwch corfforol a chwaraeon. Yn ddiweddar cadwodd Bro Morgannwg ei safle 3<sup>ydd</sup> uchaf yng Nghymru o ran gweithgarwch corfforol yn yr Arolwg Chwaraeon Ysgolion a chafodd y safle 1<sup>af</sup> am lefelau gweithgarwch corfforol ymysg oedolion yn seiliedig ar feini prawf 'gwirioni ar chwaraeon' Chwaraeon Cymru.</p>
<p><b>Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Bro Ddiogelach</b> Mae'r bartneriaeth aml-asiantaeth yn gosod cyfeiriad strategol ar gyfer diogelwch cymunedol yn y Fro ac mae'n gyfrifol am oruchwylio a chyflenwi canlyniadau cymunedol allweddol i'r Fro, gan gynnwys: trais domestig, troseddau ar y stryd, troseddau ieuencid, ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyffuriau, llygredd ac alcohol, byrgleriaeth a throseddau sy'n ymwneud â cherbydau.</p>	<p>Awdurdod, Heddlu De Cymru, Swyddog Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, Bwrdd Iechyd Lleol, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Tân ac Achub De Cymru a'r Sector Gwirfoddol</p>	<p>Adleolwyd y tîm diogelwch cymunedol o Orsaf Dân y Barri i Orsaf Heddlu'r Barri. Yn dilyn ailstrwythuro, mae'r tîm bellach yn cefnogi cydweithwyr Tai drwy ddarparu lefel briodol o gefnogaeth i weithgareddau cynhadledd asesu risg aml asiantaethol (MARAC). Rhennir gwybodaeth am y achosion trais domestig sydd â'r risg uchaf rhwng yr heddlu, y gwasanaeth prawf, iechyd, tai, ac ymarferwyr eraill, gan sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i ddiogelu'r dioddefwr.</p>
<p><b>Fforwm Tai Troswaol</b></p>	<p>Cymdeithas Tai Newydd,</p>	<p>Mae'r bartneriaeth wedi cwmpasu goblygiadau Deddf Tai gyntaf Cymru</p>

Disgrifiad o'r project	Partneriaid	Diweddariad cynnydd a chyflawniadau
<p>Diben y bartneriaeth yw datblygu'r ymateb strategol i'r angen am dai ym Mro Morgannwg. Mae'n ystyried polisi sy'n datblygu a chyfarwyddyd deddfwriaethol gan Lywodraeth Cymru. Mae'n sefydlu amcanion tymor byr a thymor canolig sy'n gysylltiedig â thai o bob math o ddaliadaeth yn y Fro.</p>	<p>Cymdeithas Tai Hafod, UWHA, Cymdeithas Tai Wales &amp; West, Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid a'r Ffederasiwn Adeiladwyr Tai.</p>	<p>ac mae wedi cwblhau'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Dai Leol ar gyfer y Fro. Gan gyfarfod yn chwarterol, mae'r bartneriaeth yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu agweddau eraill ar waith sy'n ymwneud â thai, megis Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, Canllawiau Tai Atodol, Tai Fforddiadwy ac Asesiad Anghenion Sipsiwn a Theithwyr.</p> <p>Gwnaed cynnydd sylweddol ar elfennau o Ddeddf Tai 2014, gan gynnwys: cwblhau Asesiad Sipsiwn a Theithwyr; cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru a Shelter o'r dull Atebion Tai yn y Fro; cytundeb partneriaeth Landlord Cymdeithasol Cofrestredig/ Awdurdod Lleol i ddarparu atebion tai fforddiadwy a thai â chymorth yn y Fro; gwaith parhaus gyda Llywodraeth Cymru ar ariannu mwy o gyflenwad tai drwy ei Rhaglen Grantiau, Tai Cymdeithasol a Grant Cyllid II. Cynhaliwyd ymgynghoriad a datblygwyd cynlluniau ar gyfer y don gyntaf o adeiladu tai Cyngor newydd yn yr ardal.</p>
<p><b>Partneriaeth Strategol Cynhwysiant Ariannol</b> Yn un o'r tair partneriaeth gwrthdodi, mae'r bartneriaeth strategol cynhwysiant ariannol yn canolbwyntio ar ddatblygu strategaeth cynhwysiant ariannol gadarn. Mae partneriaid yn cynnwys Cyngor ar Bopeth, Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro, cynrychiolwyr o sector landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, y Bwrdd Iechyd Lleol, Cyngor Bro Morgannwg, a chyrrff eraill yn y sector gwirfoddol.</p>	<p>Awdurdod Lleol, Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro, Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro, Age Connects, BIP Caerdydd a'r Fro, Banc Bwyd y Fro, Swyddfa JH AM, Cymdeithas Tai Newydd, Cymdeithas Tai Hafod, Adran Gwaith a Phensiynau, GVS, Canolfan Gydweithredol Cymru</p>	<p>Mae'r bartneriaeth yn cyfarfod yn chwarterol. Ar y cychwyn, ei phrif rôl oedd ystyried goblygiadau'r newidiadau Diwygio Lles a rhoi mesurau lliniaru ar waith yn gysylltiedig â hynny. Yn y chwe mis diwethaf, ehangwyd ei chylch gwaith i gynnwys yr holl elfennau sy'n gysylltiedig â chynhwysiant ariannol. Cynhaliwyd gweithdy i ystyried amcanion a blaenoriaethau strategol sy'n gysylltiedig â'r agenda hon ar 13 Mawrth 2015. Mae'r bartneriaeth wedi cymeradwyo'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol a chyflwynwyd hon i'r BGLI ym mis Rhagfyr 2015. Mae'r strategaeth yn cyd-fynd â dull strategol Llywodraeth Cymru, ac yn manylu ar y gwaith a wnaed gan yr Uned Ddata Llywodraeth Leol sy'n ymwneud â deall mynegeion tlodi/ amddifadedd yn y Fro.</p>
<p><b>Gorfodi Rheolau Parcio Sifil</b> Mae gwasanaeth a rennir ar gyfer gorfodaeth parcio ar waith, sy'n darparu gwytnwch ac yn cynnal priffyrdd diogel.</p>	<p>Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr</p>	<p>Mae'r gwasanaeth Gorfodi Parcio Sifil a lansiwyd ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP) ar 1 Ebrill 2013 yn parhau i weithredu'n llwyddiannus ac yn ariannu ei hunan. Mae'r Gwasanaeth yn cael ei fonitro bob chwarter gan Fwrdd Project Gorfodi Parcio Sifil</p>

Disgrifiad o'r project	Partneriaid	Diweddariad cynnydd a chyflawniadau
		<p>sy'n cynnwys Prif Swyddogion a staff o bob sefydliad partneriaethol. Adnabuwyd dangosyddion perfformiad SMART nad ydynt yn canolbwyntio ar godi reffeniw, ond yn hytrach ar wella effeithlonrwydd y gwasanaeth. Y dangosyddion perfformiad hyn yw Gwallau CEO a Heriau PCN a bodlonir neu rhagorir ar y targedau gosodedig ar hyn o bryd gan sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau i leihau cam-drin cyfyngiadau parcio a gwella cydymffurfriad parcio sy'n arwain at lai o dagfeydd a gwell diogelwch ar y ffyrdd. Ar hyn o bryd, mae achos busnes yn cael ei ddatblygu i ddarparu Car Camera i wella'r ddarpariaeth gwasanaeth ac ymdrin â'r broblem barcio tu allan i ysgolion.</p>
<p><b>Pwyllgor Cydweithio Rhanbarthol (PCRh)</b> Partneriaeth drawsffiniol gyda Chyngor Caerdydd a chydweithwyr o'r sectorau tai statudol a gefnogir. Mae'r bartneriaeth yn ystyried blaenoriaethau strategol ar gyfer y Rhaglen Cefnogi Pobl.</p>	<p>Cyngor Caerdydd, Gwasanaeth Prawf, BIG, Iechyd Cyhoeddus, Tai Cymunedol Cymru &amp; Cymorth</p>	<p>Mae'r PCRh yn ofyniad parhaus gan Lywodraeth Cymru, ac mae ei gylch gwaith yn cael ei ddiffinio yn amodau Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl. Mae'r bartneriaeth yn parhau i sicrhau cynllunio a chomisiynu gwasanaethau effeithiol er mwyn diwallu anghenion lleol ac mae'n bwrw ymlaen â'r agenda Cefnogi Pobl, gan ganolbwyntio ar wasanaethau pobl hŷn ar draws y rhanbarth gyda'r nod o helpu pobl i fyw mor annibynnol ag y gallant.</p>
<p><b>Grŵp Tai Strategol</b> Mae'r Grŵp hwn yn cynnwys swyddogion o'r Fro a chyfarwyddwyr datblygu'r gwahanol landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a osodir mewn parthau gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu ym Mro Morgannwg. Mae'r bartneriaeth yn ystyried y llwybrau ariannu ar gyfer tai fforddiadwy adeiladu newydd, a'r rhaglen gyflenwi dros y blynyddoedd sydd i ddod.</p>	<p>Cymdeithas Tai Newydd, Cymdeithas Tai Hafod, UWHA, Cymdeithas Tai Wales &amp; West</p>	<p>Mae'r bartneriaeth yn cyfarfod yn chwarterol i ystyried y rhaglen ddatblygu tai fforddiadwy sy'n bodoli eisoes, cynllunio datblygiad yn y dyfodol, h.y. ystyried caffaeliadau safle, ceisiadau cynllunio a ffrydiau ariannu, ac i drafod y partner cymdeithas tai a ffeffir ar gyfer safleoedd marchnad unigol.</p> <p>Mae'r Grŵp hefyd yn gweithio tuag at gyflenwi'r Strategaeth Tai Gwag a sicrhau bod safonau tai fforddiadwy yn cael eu cytuno a'u darparu ar safleoedd tai marchnad.</p>
<p><b>Cynllunio at Argyfwng</b> Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth</p>	<p>Sector cyhoeddus Cymru gyfan</p>	<p>Crëwyd y tîm cynllunio argyfwng rhanbarthol ar sail rhithwir. Bydd hyn yn darparu gwytnwch gwasanaeth rhanbarthol sy'n gallu cyfeirio</p>

Disgrifiad o'r project	Partneriaid	Diweddariad cynnydd a chyflawniadau
<p>Leol i ddarparu gwasanaethau cynllunio argyfwng yn rhanbarthol o fewn 2 flynedd a chyda phartneriaid eraill ar sail aml-asiantaeth o fewn 4 blynedd lle bo hynny'n ymarferol.</p>		<p>adnoddau i ddigwyddiadau lleol penodol yn ôl yr angen, tra hefyd yn cynnal tîm lleol i ddarparu hyblygrwydd a gwybodaeth leol i'r cyngor.</p>
<p><b>Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc (PPPI)</b> Y Bwrdd Rhaglen Plant a Phobl Ifanc yw'r corff gwneud penderfyniadau aml-asiantaeth trosfwaol sy'n darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad ar gyfer penderfyniadau cynllunio a gwasanaeth i blant a phobl ifanc</p>	<p>Awdurdod Lleol, Sector Gwirfoddol, Iechyd Cyhoeddus, Coleg Caerdydd a'r Fro, Gyrfa Cymru, Heddlu De Cymru &amp; BIP, Cabinet Ieuenctid.</p>	<p>Yn cyfarfod yn dymhorol, mae ffocws y Bartneriaeth ar wella canlyniadau i blant a phobl ifanc. Mae'r Bartneriaeth wedi rheoli ehangu Dechrau'n Deg a datblygu Teuluoedd yn Gyntaf yn llwyddiannus, sy'n darparu gwasanaethau rhagorol i blant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n agored i niwed.</p> <p>Yn ystod 2015/16, cytunodd y bartneriaeth i gael 2 aelod o'r Cyngor Ieuenctid yn aelodau o'r bwrdd ac mae'r bobl ifanc hyn yn rhoi adborth rheolaidd ar faterion allweddol. Fel partneriaeth, mae gwybodaeth yn parhau i gael ei rhannu, ei thrafod a'i herio yn cynnwys gwasanaethau perfformiad i blant a phobl ifanc, gan gynnwys cyrhaeddiad addysg plant a phobl ifanc a'r Cynllun Tai Pobl Ifanc.</p>
<p><b>Consortium Canolbarth y De</b> Mae Consortium Canolbarth y De yn darparu ystod o swyddogaethau gwella ysgolion statudol i ysgolion yn y Fro. Caiff yr ysgolion gymorth a her sy'n gysylltiedig â'u categori cenedlaethol gyda mwy o bwyslais ar ddulliau ysgol-i-ysgol i wella ysgolion. Mae cytundeb cyfreithiol yn ei le ar gyfer y consortium, sy'n cael ei gynnal gan RCT.</p>	<p>Cynghorau Caerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr, Rhondda Cynon Taf</p>	<p>Yn dilyn ei lansio ym mis Medi 2012, ar ôl cychwyn ansicr, mae'r Consortium wedi sefydlu cynllun busnes, strwythur llywodraethu a threfniadau rheoli a gweithdrefnau gweithredol ar gyfer ei waith. Mae swyddogaethau'r Consortium yn dilyn Model Cenedlaethol LIC ar gyfer Gweithio Rhanbarthol.</p> <p>Gwelwyd gwelliant yn neilliannau disgyblion yn y pum awdurdod. Mae adolygiadau thematig diweddar Swyddfa Archwilio Cymru/ Estyn o weithio mewn consortia yn cynnwys argymhellion i gryfhau gweithrediadau'r pedwar consortium a ymgorfforwyd yng Nghynllun Busnes CSCJES 2015/16.</p>
<p><b>Partneriaeth Dysgu Cymunedol Caerdydd a'r Fro</b></p>	<p>Cyngor Caerdydd, Coleg Caerdydd a'r Fro, WEA, YMCA, Cymraeg i Oedolion</p>	<p>Mae Addysg Oedolion a Chymunedol (AOCh) yng Nghaerdydd a'r Fro wedi gwella'n sylweddol trwy ymdrechion pob agwedd ar y gwaith partneriaeth mewn ffordd fwy cydlynol. Y Grŵp Strategol sy'n cytuno ar flaenoriaethau ac yn monitro perfformiad. Mae aelodau'r bartneriaeth yn</p>



Disgrifiad o'r project	Partneriaid	Diweddariad cynnydd a chyflawniadau
		cydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm, marchnata, data, ansawdd, ac adnoddau. Mae rôl y cydlynnydd a gyflogir ar y cyd yn sicrhau bod yr holl weithgorau yn cyflawni'r camau gwella ansawdd a nodwyd yn y Cynllun Datblygu Ansawdd Rhanbarthol 'Taith i Ragoriaeth' y sy'n canolbwyntio ar wella cyfleoedd i ddysgwyr ar draws rhanbarth Caerdydd a'r Fro. Mesurir cynnydd gan yr ystadegau yn adroddiad Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) lle mae'r cyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddiant wedi cynyddu'n sylweddol gyda chyfraddau llwyddiant yn awr ar 92%, llawer uwch na chyfartaledd cenedlaethol Cymru o 84%. Ar hyn o bryd, mae'r bartneriaeth yn cynorthwyo ymgynghorwyr a benodwyd gan Lywodraeth Cymru i ddrafftio model newydd ar gyfer darparu AOCh yng Nghymru. Yn ddiweddar, cytunodd y Grŵp Strategol ar dargedau perfformiad heriol i'r bartneriaeth.
<b>Gwasanaeth Archwilio Mewnol a Rennir gyda Chyngor Pen-y-bont ar Ogwr</b>	Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr	Mae sicrwydd effeithiol yn parhau i gael ei ddarparu i Gynghorau'r Fro a Phen-y-bont ar Ogwr sydd wedi arwain at ostyngiad mewn costau wrth i'r gwasanaeth gael ei symleiddio'n helaeth.  Yn ddiweddar, cwblhawyd cynllun peilot i ddarparu gwasanaethau archwilio cyfrifiadurol i awdurdod lleol arall. Bu'r gwaith hwn yn llwyddiannus a rhennir y canfyddiadau gyda phwyllgorau archwilio yn y Fro a Phen-y-bont ar Ogwr ym Mehefin a Gorffennaf 2016.
<b>Cronfa Cydweithredu Rhanbarthol: Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd</b> Datblygu bwrdd gwasanaethau lleol ar y cyd â Chyngor Caerdydd.	Cyngor Caerdydd	Daeth y BGLI ar y cyd i ben ym mis Ebrill 2016. Sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghaerdydd a'r Fro o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
<b>Ein Bro Ni - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)</b>	BIP Caerdydd a'r Fro, Gwasanaeth Tân, Heddlu, GVS, CNC, Coleg Caerdydd a'r Fro, Gwasanaeth Prawf, PCC, Ymddiriedolaeth Ambiwlans,	Sefydlwyd y BGC ym mis Ebrill 2016 a chyfarfu am y tro cyntaf ar 19 Mai. Cytunwyd ar gylich gorchwyl a phenodi'r Arweinydd yn Gadeirydd. Mae'r BGC hefyd wedi cytuno i fabwysiadu cynlluniau a strwythurau'r BGLI hyd nes y cwblheir asesiad llesiant newydd. Dyfarnwyd grant gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwaith a wneir gyda BGC Caerdydd a hefyd mae'n cysylltu â'r Asesiad Anghenion Poblogaeth a wneir i'r Bartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Rhanbarthol.



Disgrifiad o'r project	Partneriaid	Diweddariad cynnydd a chyflawniadau
<p><b>Hyb Cysylltiadau Cwsmeriaid/ Cyfathrebu GIG</b></p> <p>Datblygu canolfan gyswllt i gwsmeriaid yn C1V ar gyfer gwasanaethau iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol integredig. Bydd y project yn symleiddio mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn gwella datrysiadau cyswllt cyntaf a phrofiad cyffredinol y cwsmer. Yn ogystal, bydd costau gweithredol yn cael eu lleihau trwy rannu adnoddau technoleg a staff i gyflenwi gwasanaethau.</p>	BIP Caerdydd a'r Fro	<p>Cwblhawyd gweithredu technoleg wynebu cwsmeriaid (Llais IVR) ar y cyd ar gyfer galwadau gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r gweithredu ar gyfer galwadau iechyd wedi'i drefnu yn ystod Medi 2016. Mae'r defnydd o ddatrysiadau gwasanaeth hunanwasanaeth yn rhedeg ar hyn o bryd ar 10% o'r opsiynau sydd ar gael. Mae'r dechnoleg yn llwyddiannus, yn caniatáu adnabod y galwadau sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n hwyluso gweithredu gofynion Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Ar ôl peilot llwyddiannus yn ardal Bro Morgannwg, sefydlwyd achos busnes i drin ymholiadau cwsmeriaid yn ardaloedd Caerdydd gan y ddau BIP a staff Cyngor Bro Morgannwg, gyda throsglwyddo gwasanaethau wedi ei drefnu ar gyfer Hydref 2016.</p>
<p><b>Teledu Cylch Cyfyng (CCTV)</b></p> <p>Datblygu cynigion ar gyfer gwasanaeth ar y cyd, sydd i'w letya gan Gyngor Pen-y-bont ar Ogwr.</p>	Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr	<p>Cyflawnwyd trosglwyddiad gwasanaeth monitro teledu cylch cyfyng Bro Morgannwg ym mis Mawrth 2016. Mae'r model gwasanaeth newydd wedi arwain at wasanaeth symlach, sydd wedi sicrhau arbedion effeithlonrwydd.</p>
<p><b>Dinas-Ranbarth Caerdydd – Bargaen Dinas</b></p>	10 awdurdod lleol, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth San Steffan.	<p>Cytunwyd ar Fargen Dinas amlinellol ar gyfer rhanbarth dinas De-ddwyrain Cymru gan Lywodraeth y DU ac mae gwaith yn parhau i gael ei wneud gan Arweinwyr Cyngor a thîm craidd o swyddogion i bennu rhestr o brojectau.</p>
<p><b>Project Ailstrwythuro Ardal</b></p> <p>Mae'r project hwn yn rhan o raglen gyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae'n adeiladu ar lwyddiant swyddi rheoli ar y cyd sy'n bodoli eisoes, trwy ddatblygu model darparu rheolaeth a gwasanaeth integredig ar draws gwasanaethau lleol lechyd a'r Cyngor.</p>	Bwrdd Iechyd Prifysgol	<p>Mae gwaith i ailstrwythuro'r timau iechyd lleol a gofal cymdeithasol wedi ei gwblhau, gyda threfniadau newydd yn weithredol. Mae hyn yn cyfrannu at fwy o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cydlynol a chyson i drigolion. Symleiddwyd gwasanaethau ac maent eisoes yn cyflenwi gwell mynediad ac amser ymateb i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth.</p>
<p><b>Cronfa Gofal Canolraddol (CGC)</b></p> <p>CGC yw'r gronfa gyllid sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru ar sail ranbarthol i</p>	Trydydd Sector, Sector Annibynnol, BIP, Cyngor Caerdydd	<p>Mae'r Bwrdd Llywodraethu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig wedi cytuno ar y projectau canlynol: Project Un Pwynt Mynediad (gan adeiladu ar y Ganolfan Gyswllt Cwsmeriaid ym Mro Morgannwg),</p>

Disgrifiad o'r project	Partneriaid	Diweddariad cynnydd a chyflawniadau
<p>ganiatáu i gynghorau fuddsoddi mewn gwasanaethau sy'n cefnogi pobl hŷn, yn enwedig yr henoed bregus, i gadw eu hannibyniaeth ac aros yn eu cartrefi eu hunain. Yn 2015/16, y dyraniad cyllid i Gaerdydd a Bro Morgannwg oedd £2.153m. Mae'r arian hwn yn awr yn cael ei ddarparu ar sail reolaidd a chaiff ei weinyddu gan y Byrddau Iechyd Lleol ar y sail y bydd projectau 2015/16 yn adeiladu ar y gwaith da a wnaed yn 2014/15 ac yn cynorthwyo gyda'r paratodau ar gyfer gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.</p>		<p>Project Ymyriadau Ataliol, Project Rhyddhau Atebion Llety a Phroject Rhyddhau i Asesu. Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sy'n gweinyddu'r Rhaglen hon.</p> <p>Bro Morgannwg sy'n arwain ar y Project Un Pwynt Mynediad. Mae'r Fro hefyd yn darparu'r SRO ar gyfer y Project Rhyddhau Atebion Llety. Mae swyddogion yn gweithio gyda chleifion a defnyddwyr gwasanaeth i gyflymu rhyddhau o'r ysbyty pan fo angen llety, e.e. addasiadau mawr neu fach, offer arbenigol, neu anghenion amlwg a chlir.</p>
<p><b>Cronfa Cydweithredu Rhanbarthol (CCRh)</b> Ailfodelu Gofal Cymdeithasol i Oedolion ac Integreiddio gyda'r Gwasanaethau Iechyd. Fel rhan o'r CCRh, dyrannwyd £533k i'r rhaglen hon ar draws Bro Morgannwg a Chaerdydd.</p> <p>Mae Gwasanaeth Ailalluogi Estynedig a Gwasanaethau Estynedig ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu yn cael eu datblygu.</p>	<p>Cyngor Caerdydd, BIP, Trydydd Sector</p>	<p>Mae'r Project Ailalluogi Estynedig eisoes wedi arwain at gyfleoli adnoddau cymunedol o Gyngor Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd y Brifysgol ynghyd â'r trydydd sector i lety a gynlluniwyd yn benodol ar y cyd yn ysbyty'r Barri. Mae'r cyfleoli eisoes yn darparu gwasanaeth mwy effeithlon gyda swyddogion yn cydweithio'n agosach. Mae gwaith hefyd yn parhau gyda phartner trydydd sector, y Groes Goch Brydeinig, er mwyn gwella ailalluogi a datblygu gwasanaethau ymyrraeth ataliol i leihau'r galw ar y gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r tîm project yn cyflenwi mwy o sgrinio a dyrannu adnoddau i helpu lleihau amseroedd ymateb gan y Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol. Mae hefyd y adolygu achosion i sicrhau asesiad amserol a rhyddhau o wasanaethau cymorth, gan sicrhau nad yw hyd arhosiad yn y gwasanaeth yn fwy na 6 wythnos sy'n rhyddhau capasiti ar gyfer achosion pellach. Mae'r Project Gwasanaethau Estynedig ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu yn gweithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector i ddatblygu modelau newydd o weithio, fel mentrau cymdeithasol er mwyn darparu mwy o ddewis o ran cyfleoedd dydd. Bellach, mae'r Strategaeth Cyfleoedd</p>

Disgrifiad o'r project	Partneriaid	Diweddariad cynnydd a chyflawniadau
		Dydd ar y Cyd wedi ei rhoi ar waith er mwyn archwilio ymhellach y cyfleoedd ar gyfer mentrau cymdeithasol a mewnbwn gan y trydydd sector.